GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales



‘Dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach, a medru parhau i gadw’n brysur a bod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosib’
***Cymru Iachach***

*Sut Rydym yn Cefnogi'r Weledigaeth Honno*

# Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26

# NEGES GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Digital Health and Care Wales

**Darparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf, gan rymuso pobl i fyw bywydau iachach**

## Rhagair

Fel corff cenedlaethol arbenigol a rhan o'r GIG yng Nghymru, rydym yn falch o'n rôl fel y partner dibynadwy ar gyfer gwasanaethau data a digidol, sy'n cyflawni rhai o'r prosiectau TG a data gofal iechyd mwyaf yn y DU.

Bellach yn ein trydedd flwyddyn fel Awdurdod Iechyd Arbennig, rydym yn chwilio'n gyson am ffyrdd o arloesi a gwella wrth barhau i ddarparu gwasanaethau craidd yn gyson.

Dyma pam rydym yn falch o gyflwyno ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar ei newydd wedd ar gyfer 2023-2026, a ddatblygwyd gyda phartneriaid ar draws y sector iechyd a gofal yng Nghymru.

Mae'r hinsawdd ddigidol bresennol o fygythiadau seiber cynyddol, problemau cadwyn gyflenwi, adferiad y GIG yn sgil pandemig COVID-19, amrywiaeth yn argaeledd adnoddau digidol a phroblemau fforddiadwyedd yn peri heriau.  Dyna pam mae ein cynllun yn cynyddu lefel ein huchelgeisiau, gan roi ffocws cryf ar sut y gall dulliau digidol a data wella canlyniadau, helpu i reoli'r pwysau sylweddol ar wasanaethau gofal iechyd a heriau hirach poblogaeth sy'n heneiddio a mwy o bobl â chyflyrau lluosog.

Rydym yn cefnogi mwy na 100 o gynhyrchion a gwasanaethau cenedlaethol ac mae ein cynllun yn pwysleisio ein hymrwymiad i gynnal gwasanaethau diogel o ansawdd uchel sydd ar gael i'n partneriaid. Rydym hefyd wedi pennu ein nodau a'n hamcanion ar gyfer ansawdd, gweithlu digidol amrywiol a hyblyg, a datgarboneiddio.

Gyda phartneriaeth ac arloesedd yn ganolog i'r cynllun, rydym wedi ailganolbwyntio'r pwyslais ar gyflawni ein pum cenhadaeth strategol i sicrhau cysondeb ag amcanion cenedlaethol a gwerth mewn gofal iechyd.

A ninnau'n sefydliad blaengar, mae ein cynllun, ynghyd â sgiliau ein gweithlu, yn nodi llwybr o amcanion i weithgarwch, gan adeiladu ar wasanaethau craidd i ddarparu mwy ar gyfer dinasyddion Cymru, gan gynnwys apiau digidol ar gyfer cleifion, datrysiadau diagnostig digidol estynedig, system famolaeth, a gweinyddu meddyginiaethau'n ddigidol i wella canlyniadau cleifion.

Gobeithio bydd ein cynllun ar ei newydd wedd yn ddefnyddiol i ch





**Simon Jones (Cadeirydd)**



**Helen Thomas (Prif Swyddog Gweithredol)**

# MYND O GWMPAS EIN CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG

## Cyflwyniad


- Crynodeb Gweithredol
- Strategaeth ar Dudalen
- Pam rydym ni Yma – Ein Pwrpas
- Lle rydym yn Cyflawni


## Cenhadaeth 1 DARPARU platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol

### Portffolios


- 1.1 Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio
- 1.2 Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu
- 1.3 Diogelu Data Cleifion
- 1.4 Seilwaith Cynaliadwy a Diogel


### Ffocws ar:


- Adnodd Data Cenedlaethol
- Pensaernïaeth Agored
- Seiber
- Symud y Ganolfan Ddata
- Pontio i'r Cwmwl


### Amserlenni


- 1.1 Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio
- 1.2 Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu
- 1.3 Diogelu Data Cleifion
- 1.4 Seilwaith Cynaliadwy a Diogel


## Sut rydym wedi Datblygu ein Cynllun


- Cyd-destun Strategol
- Cenhadaeth, Portffolios a Galluogwyr
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru
- Dull Cynllunio a Risgiau
- Triongli – cyflawni, cyllid a gweithlu
- Y Cynllun ar Dudalen
- Busnes fel Arfer


## Cenhadaeth 2 DARPARU cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

### **Portffolios**


- 2.1 Iechyd y Cyhoedd
- 2.2 Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl
- 2.3 Gofal wedi'i Gynllunio
- 2.4 Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- 2.5 Diagnosteg
- 2.6 Meddyginiaethau


### Ffocws ar:


- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Mamolaeth Ddigidol Cymru
- System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
- System Adrannau Argyfwng Cymru
- Rhaglenni Diagnosteg Digidol
- Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol


### Amserlenni


- 2.1 Iechyd y Cyhoedd
- 2.2 Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl
- 2.3 Gofal wedi'i Gynllunio
- 2.4 Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- 2.5 Diagnosteg
- 2.6 Meddyginiaethau


GIG CYMRU NHS WALES Iechyd a Gofal Digidol Cymru Digital Health and Care Wales



## Cenhadaeth 3 EHANGU'R cofnod iechyd a gofal digidol a'r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal

### Portffolios


- 3.1 Ymgysylltu â Defnyddwyr: Proffesiynau Iechyd a Gofal
- 3.2 Ymgysylltu â Defnyddwyr: Cleifion a'r Cyhoedd


### Ffocws ar:


- Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
- Datrysiad Gwybodeg Canser
- Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd
- Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365


### Amserlenni


- 3.1 Ymgysylltu â Defnyddwyr: Proffesiynau Iechyd a Gofal
- 3.2 Ymgysylltu â Defnyddwyr: Cleifion a'r Cyhoedd


## Cenhadaeth 4 YSGOGI gwell gwerth a chanlyniadau drwy arloesi

### Portffolios


- 4.1 Ymchwil ac Arloesi
- 4.2 Gwerth o Ddata


### Ffocws ar:


- Ymchwil ac Arloesi
- Gwerth mewn Iechyd


### Amserlenni


- 4.1 Ymchwil ac Arloesi
- 4.2 Gwerth o Ddata


## Cenhadaeth 5 **BOD yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel**


- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol


### Galluogwyr


- 5.1 Pobl a Diwylliant
  - Ffocws ar yr Iaith Gymraeg
- 5.2 Cyllid
  - Fframwaith Rheoli Buddion
- 5.3 Cynaliadwyedd
- 5.4 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- 5.5 Ansawdd a Diogelwch
- 5.6 Llywodraethu, Perfformiad a Sicrwydd


### Amserlenni

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales



# Cyflwyniad


# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Cyd-destun Strategol

Mae'r **gwasanaeth iechyd yng Nghymru** yn gweithredu mewn amgylchedd hynod heriol. Gall dulliau digidol gefnogi a llywio'r trawsnewid sydd ei angen yn y GIG.

Mae'r **dirwedd ddigidol** yn symud yn gyflym ac mae ganddi ei heriau ei hun: bygythiadau seiber cynyddol, problemau'r gadwyn gyflenwi, amrywiaeth yn argaeledd adnoddau digidol a fforddiadwyedd amrywiol, a mynd i'r afael â thechnoleg etifeddol.

Dyna pam mae gan ein cynllun ffocws cryf ar sut y gall dulliau digidol a data helpu i reoli'r pwysau sylweddol ar wasanaethau gofal iechyd a **gwella canlyniadau**.




## Dull

Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agored. Yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, ceisiwn nodi ein cynlluniau'n glir a disgrifio ein risgiau a'n heriau mewn ffordd dryloyw. Mae hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i fod yn bartner strategol dibynadwy. Rhai o'n newidiadau allweddol eleni yw:

Rydym wedi **mireinio ein cenadaethau a'n portffolios** i gyd-fynd yn agosach â Blaenoriaethau Gweinidogol a Fframwaith y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Er enghraifft, mae portffolio blaenorol bellach wedi'i rannu fel a ganlyn: 'gofal wedi'i gynllunio' a 'gofal brys a gofal mewn argyfwng'.

Hefyd, rydym yn defnyddio portffolios newydd a diwygiedig i amlygu ein hymrwymiad i **bensaernïaeth agored a safonau** a **buddsoddi mewn seilwaith.**

Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig eleni yn dangos ein gweithgarwch cynyddol mewn **gofal sylfaenol a chymunedol**, er enghraifft drwy Ap GIG Cymru i gleifion, a phenodi Cyfarwyddwr ar gyfer Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl.

Rydym wedi disgrifio ein **pwysau a risgiau allweddol.** Mae enghreifftiau yn cynnwys chwyddiant digidol, y gweithlu, cyllid, seiber, technoleg etifeddol, dibyniaeth ar gyflenwyr, cymhlethdod.

Rydym wedi nodi meysydd lle **nad yw cyllid / adnoddau wedi'u cadarnhau'n llawn eto,** e.e. moderneiddio systemau mawr, trosglwyddo i gymorth gweithredol. Bydd angen i ni flaenoriaethu, a rheoli risgiau a disgwyliadau, drwy gydol cyfnod y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Rydym hefyd wedi nodi gwaith ar y gweill.

## Rhaglenni Mawr

Rydym yn rhedeg dros 100 o wasanaethau byw ac yn integreiddio â llawer mwy. Rydym yn cyflawni rhaglenni trawsnewid digidol cenedlaethol mawr, y bydd nifer ohonynt yn cyrraedd cerrig milltir arwyddocaol yn ystod cyfnod y Cynllun hwn.

Byddwn yn darparu **Gwasanaethau Digidol newydd i Gleifion a'r Cyhoedd** drwy Ap a gwefan GIG Cymru. Yn gyntaf, gwefan beta agored / cyhoeddus ac yna gwasanaeth byw llawn, gyda map ffordd o'r nodweddion ymarferol newydd i ddilyn.

Bydd yr **Adnodd Data Cenedlaethol** yn pontio i blatfform cwmwl byw ac yn cyhoeddi cynhyrchion data seiliedig ar safonau trwy blatfform rheoli API cenedlaethol.

Byddwn yn **Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol** ledled Cymru, gan ddechrau gyda phrawf technegol o gysyniad ar gyfer trosglwyddo presgripsiynau gofal sylfaenol i fferyllfeydd cymunedol, gan gefnogi byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i gaffael a gweithredu rhagnodi electronig, datblygu cofnod meddyginiaethau a rennir, a darparu golwg i gleifion ar feddyginiaethau drwy Ap a gwefan GIG Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i ddarparu systemau **Diagnosteg** newydd ar gyfer rheoli gwybodaeth radioleg a labordy.

Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn dangos mapiau ffordd ar gyfer gwasanaethau cenedlaethol allweddol eraill: **system gofal critigol cenedlaethol** newydd, **System Gweinyddu Cleifion Cymru**, ac ehangu defnydd a chynnwys y cofnod iechyd a gofal digidol, yn enwedig trwy **Borth Clinigol Cymru** a **Chofnod Gofal Nyrsio Cymru**.

# Cenadaethau

**DARPARU PLATFFORM ar gyfer galluogi trawsnewid digidol**
- Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio
- Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu
- Diogelu Data Cleifion
- Seilwaith Cynaliadwy a Diogel

**DARPARU cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel**
- Iechyd y Cyhoedd
- Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl
- Gofal wedi'i Gynllunio
- Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- Diagnosteg
- Meddyginiaethau

**EHANGU'r cofnod iechyd a gofal digidol a'r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal**
- Ymgysylltu â Defnyddwyr: Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Ymgysylltu â Defnyddwyr: Cleifion a'r Cyhoedd

**YSGOGI gwell gwerth a chanlyniadau drwy arloesi**
- Ymchwil ac Arloesi
- Gwerth o ddata

**BOD yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel**
- Pobl a Diwylliant
- Cyllid
- Cynaliadwyedd
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Ansawdd a Diogelwch
- Llywodraethu, Perfformiad a Sicrwydd

# Cyflawniadau Digidol

| | |
|---|---|
| Ystorfa Data Gofal | Hyb Integreiddio |
| Pensaernïaeth Agored | Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth |
| Cynllun Seiber | Pontio i'r Cwmwl |
| Platfform Dadansoddeg | Safonau Data |

| | |
|---|---|
| Brechlynnau<br>Sylfaenol a Chymunedol | Systemau sgrinio<br>System famolaeth |
| Gweinyddu Cleifion Cymru | Gofal Llygaid |
| System Argyfwng Cymru | Gofal Dwys |
| Rheoli Labordy | Rheoli Radioleg |
| e-Ragnodi<br>Cofnod Meddyginiaethau | Trosglwyddo Presgripsiwn |

| | |
|---|---|
| Ceisiadau electronig | Gwybodeg Canser |
| Ap GIG Cymru | |

| | |
|---|---|
| Partneriaethau Academaidd | Partneriaethau Diwydiant |
| Strategaeth Dadansoddeg | Dadansoddeg rhaglenni strategol |

| | |
|---|---|
| Llesiant | Y Gymraeg |
| Adolygiad o'r Gweithlu Digidol | Rhwydwaith Newid Busnes |
| Cynaliadwyedd Ariannol | Cyllid cwmwl |
| Datgarboneiddio | Yr Economi Sylfaenol |
| Cynhwysiant Digidol | Aeddfedrwydd Digidol |
| Fframwaith Buddion | Ansawdd |

# Canlyniadau

**EIN GWELEDIGAETH** yw *darparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf, gan rymuso pobl i fyw bywydau iachach.*


Mae'r defnydd cydweithredol o wybodaeth, systemau a thechnolegau o ansawdd uchel yn cefnogi gofal cleifion ac yn sicrhau buddion ar draws system y GIG.



**Mae** trawsnewid ac effeithlonrwydd systemau iechyd yn cynyddu wrth i wasanaethau digidol cynaliadwy gefnogi ailddylunio gwasanaethau, ac arbed amser.



**Mae** Diogelwch Cleifion yn cynyddu wrth i brosesau llaw a phapur gael eu dileu ac mae mwy o ddata ar gael i glinigwyr wneud penderfyniadau gwybodus, gan leihau gwallau.



**Gwelir** canlyniadau iechyd cadarnhaol o ganlyniad i argaeledd cynyddol data a dadansoddiadau a mwy o amser gyda'r claf.



**Mae** costau system iechyd yn gostwng lle y mae dulliau digidol yn cefnogi awtomeiddio, gofal yn nes at y cartref a grymuso cleifion.



**Mae** profiad y claf yn gwella wrth i gyfleustra gofal gynyddu pan fydd cleifion yn gallu rhyngweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol yn ddigidol a threulio mwy o amser o ansawdd gyda staff.

# EIN GWELEDIGAETH….

Darparu gwasanaethau digidol o’r radd flaenaf, gan rymuso pobl i fyw bywydau iachach




# EIN PWRPAS…. Trawsnewid iechyd a gofal i bawb yng Nghymru

Gwneud gwahaniaeth trwy roi'r offer digidol cywir yn nwylo staff a chleifion, ac adeiladu platfform digidol craidd a fydd yn caniatáu defnyddio data’n well i ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol. A gwneud hynny mewn partneriaeth agos â staff iechyd a phobl Cymru.

# EIN CENADAETHAU….


BOD yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel

YSGOGI gwell gwerthoedd a chanlyniadau drwy arloesi

EHANGU’r cofnod iechyd a gofal digidol a’r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal

DARPARU cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

DARPARU platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol



# PAM RYDYM NI YMA?

## EIN PWRPAS.... Trawsnewid iechyd a gofal i bawb yng Nghymru

### SEILWAITH, SEIBERDDIOGELWCH A GWASANAETHAU CYMORTH

- Darparu'r seilwaith ar gyfer systemau a gwasanaethau cenedlaethol, gan gynnwys canolfannau data cenedlaethol, rheoli cwmwl, rheoli gwasanaethau a'r Ddesg Wasanaeth Genedlaethol.
- Darparu gwasanaeth rheoli a chymorth cyfrifiaduron wedi'i reoli'n llawn i 16,000 o ddefnyddwyr ar draws GIG Cymru, gan gynnwys Practisiau Meddygon Teulu, AaGIC a PCGC.
- Rheoli tenantiaeth Microsoft 365 ar gyfer 120,000 o ddefnyddwyr yn GIG Cymru.
- Arwain ar faterion Seiberddiogelwch ar ran GIG Cymru.

### DARPARU A DATBLYGU SYSTEMAU

- Darparu ystod o systemau clinigol cenedlaethol i gefnogi a gwella gofal cleifion.
- Cynllunio a datblygu systemau ac offer i gefnogi a gwella gofal cleifion.

### PLATFFORM INTEGREIDDIO

- Darparu'r platfform a'r blociau adeiladu sy'n galluogi systemau cenedlaethol a lleol i gysylltu â phensaernïaeth genedlaethol cleifion.

### GWASANAETHAU CYMORTH CENEDLAETHOL

- Darparu gwasanaethau masnachol, caffael a rheoli rhaglenni a phrosiectau.
- Darparu ystod eang o wasanaethau cymorth digidol ar gyfer gofal sylfaenol.
- Ystod o wasanaethau cyngor a sicrwydd, gan gynnwys llywodraethu gwybodaeth, a diogelwch cleifion.

### DATA A DADANSODDEG

- Darparu gwasanaethau data a dadansoddeg at ddefnydd cenedlaethol gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gwerth mewn Iechyd.

- Arwain datblygiad proffesiynol y gweithlu digidol ar gyfer GIG Cymru.
- Arwain y gwaith o ddatblygu mapiau ffordd strategol ar gyfer gwasanaethau digidol cenedlaethol GIG Cymru.
- Arwain datblygiad achosion busnes cenedlaethol, gan gynnwys fframweithiau buddion ar gyfer mentrau digidol cenedlaethol newydd.
- Dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a sefydliadau partner a'u cynghori ar y cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal digidol.
- Cefnogi sefydliadau partner a lleol i roi systemau cenedlaethol ar waith.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi iechyd digidol, gan gynnwys yr Addewid Data.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu gwasanaethau digidol i gefnogi cynlluniau iechyd rhanbarthol.
- Bod yn bartner strategol yr ymddiriedir ynddo sy'n ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid.

# LLE RYDYM YN CYFLAWNI

## YSBYTAI

Mewn ysbytai a chlinigau, rydym yn darparu system gweinyddu cleifion genedlaethol – sy'n hanfodol ar gyfer trefnu apwyntiadau, derbyn, rhyddhau a mwy. Mae ein systemau yn derbyn ac yn blaenoriaethu atgyfeiriadau gan feddygon teulu ac yn darparu dadansoddeg atgyfeirio, gan helpu i foderneiddio prosesau cleifion allanol. Defnyddir Porth Clinigol Cymru a Chofnod Gofal Nyrsio Cymru i gofnodi a chael mynediad at ddata o filiynau o ddogfennau ac adroddiadau profion ar draws Cymru gyfan. Bydd gwasanaethau canser a mamolaeth yn cael eu cefnogi ymhellach gyda dulliau digidol.

## SYLFAENOL A CHYMUNEDOL – Meddygon Teulu, Deintyddion, Staff Cymunedol

Rydym yn darparu datrysiadau iechyd cyhoeddus a sgrinio digidol a ddefnyddir mewn lleoliadau cymunedol. Rydym yn rheoli'r contract ar gyfer systemau meddygon teulu ac rydym yn rhedeg systemau ar gyfer deintyddion a fferyllwyr cymunedol. Mae ein system gwybodaeth gymunedol yn rhannu data rhwng staff cymunedol, gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl.

## YN EICH CARTREF

Rydym yn rhedeg gwasanaeth Fy Iechyd Ar-lein lle y gall cleifion wneud cais am wasanaethau ar-lein gyda'u meddyg teulu. Bydd hwn yn trosglwyddo i Ap Cleifion GIG Cymru er mwyn gwella'r cyfathrebu gyda mwy o ddarparwyr gofal iechyd.

## FFERYLLFEYDD

Mae Porth Clinigol Cymru a'n system fferylliaeth gymunedol yn rhannu gwybodaeth am feddyginiaethau rhwng ysbytai a fferyllfeydd lleol. Rydym yn rhedeg system rheoli stoc meddyginiaethau. Mae ein rhaglen newydd ar weinyddu meddyginiaethau'n ddigidol yn canolbwyntio ar e-ragnodi mewn ysbytai, trosglwyddo presgripsiynau o feddygon teulu i'r fferyllfa gymunedol a chofnod cenedlaethol a rennir o feddyginiaethau.

## GOFAL BRYS A GOFAL MEWN ARGYFWNG

Rydym yn bwriadu cyflwyno systemau ar gyfer adrannau argyfwng a gofal dwys ac rydym yn rhannu gwybodaeth allweddol â gwasanaeth ambiwlans Cymru. Mae ein harbenigwyr gwybodaeth yn helpu i safoni'r setiau data craidd ar gyfer gofal mewn argyfwng.



## EIN SYLFEINI

Rydym yn darparu seilwaith cenedlaethol o ganolfannau a rhwydweithio data. Rydym yn darparu storfeydd cenedlaethol o ddata iechyd, yn amddiffyn rhag bygythiadau seiber, yn diogelu preifatrwydd, ac yn cydgysylltu systemau cenedlaethol a lleol fel bod data ar gael lle bo angen.

## ADRANNAU DIAGNOSTEG

Rydym yn rhedeg system rheoli gwybodaeth labordy genedlaethol a byddwn yn rhoi system newydd ar waith yn ei lle. Rydym yn rhedeg system gwybodaeth radioleg a byddwn yn rheoli rhaglen ar gyfer uwch system newydd. Mae clinigwyr yn defnyddio Porth Clinigol Cymru i archebu miliynau o brofion. Rydym yn gweithio gyda'r rhaglen endosgopi genedlaethol i helpu i rannu data profion.

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales



# Sut rydym wedi datblygu ein Cynllun

# CYD-DESTUN STRATEGOL

Ein Dull Gweithredu: Fe wnaethom ystyried dau faes cyd-destun strategol – darpariaeth gwasanaethau'r GIG a hefyd y tueddiadau mewn datblygiad digidol.

## TUEDDIADAU MEWN IECHYD

Mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn gweithredu mewn amgylchedd hynod heriol. Mae gofynion parhaus poblogaeth sy'n heneiddio, newidiadau mewn ffordd o fyw a disgwyliadau'r cyhoedd wedi'u gwaethygu gan:

- Restrau aros ôl Covid-19 sydd ar eu huchaf erioed
- Ymchwyddiadau yn ystod y gaeaf mewn clefydau anadlol a'r ffliw o ganlyniad i lai o imiwnedd, gyda galw mawr ar wasanaethau argyfwng
- Prinder staff a salwch yn effeithio ar bob maes, gan gynnwys gofal cymdeithasol, gan arwain at oedi cyn rhyddhau cleifion, prinder gwelyau, ac ambiwlansys yn cronni
- Pobl fregus yn methu â gwresogi eu cartref oherwydd costau ynni cynyddol mewn hinsawdd economaidd heriol, gan waethygu cyflyrau iechyd presennol.

Wrth gyhoeddi Fframwaith Cynllunio'r GIG 2023-2026, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 'Rhaid plannu'r gwelliannau yn ddwfn yn y GIG yng Nghymru drwy ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithlon ac effeithiol, ac yn y ffordd orau bosibl.' Mae mentrau megis sefydlu swyddogaeth Gweithrediaeth y GIG, y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn ceisio gwneud y gorau o'r profiad a gaiff cleifion wrth iddynt deithio drwy'r gwasanaethau clinigol gwahanol.

Yn wyneb y cefndir hwn, mae'r Fframwaith yn pwysleisio, 'rhaid sicrhau bod dulliau digidol, arloesi, technoleg a thrawsnewid wrth wraidd y gwaith o ddarparu'r gofal a'r gwasanaethau gorau posibl i gleifion'. Rhaid i Ofal Iechyd Digidol Cymru sicrhau bod ein rhaglenni gwaith yn ategu ac yn galluogi'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith Cynllunio gan gynnwys rhaglenni a pholisi cenedlaethol, a blaenoriaethau gweinidogol.




## TUEDDIADAU MEWN DULLIAU DIGIDOL

Gyda gwasanaethau iechyd dan fwy o bwysau nag erioed, mae cyfle enfawr i ddefnyddio cynhyrchion a gwasanaethau digidol i ysgogi arbedion effeithlonrwydd a gwella canlyniadau i gleifion. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn bwriadu bod ar flaen y gad yn hyn o beth. Mae'r tueddiadau yn cynnwys:

- Pwysigrwydd cynyddol data
- Gwasanaethau digidol yn llywio trawsnewid gwasanaethau
- Symud i wasanaethau Cwmwl
- Amddiffyn rhag soffistigeiddrwydd cynyddol ymosodiadau seiber
- Safonau data a thechnegol rhyngwladol
- Mynd i'r afael â phrinder doniau technoleg
- Optimeiddio costau – chwyddiant digidol a phwysau ariannu
- Symud o gyllid cyfalaf i fodel seiliedig ar refeniw rheolaidd
- Sefydliadau yn symud o fodelau darparu sy'n seiliedig ar raglenni i 'gynnyrch'
- Hyblygrwydd parhaus wrth ddarparu gwasanaethau digidol, elfennau modiwlaidd a chymysgu a chyfateb
- Awtomeiddio, e.e. wrth brofi
- Pensaernïaeth agored lle mae cyfnewid data yn cael ei hwyluso rhwng darparwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat
- Yr angen cynyddol am sicrhau sylfeini digidol cryf, sicr a chadarn i alluogi darpariaeth ddigidol lwyddiannus
- Apiau grymuso cleifion



# CENADAETHAU | PORTFFOLIOS | GALLUOGWYR

**Ein Dull Gweithredu:** Er mwyn hoelio sylw ein darpariaeth ar heriau ein partneriaid gwasanaeth, rydym wedi rhannu ein gwaith yn Genadaethau, Portffolios a Galluogwyr. Mae'r rhain yn adlewyrchu blaenoriaethau gweinidogol ac yn cyd-fynd â rhaglenni cenedlaethol, ac yn disgrifio ein hamcanion a'n canlyniadau strategol.

## 1 DARPARU PLATFFORM ar gyfer galluogi trawsnewid digidol

Portffolios

1. Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio NEWYDD
2. Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu NEWYDD
3. Diogelu Data Cleifion
4. Seilwaith Cynaliadwy a Diogel

## 2 DARPARU cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

Portffolios

1. Iechyd y Cyhoedd
2. Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl
3. Gofal wedi'i Gynllunio
4. Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng NEWYDD
5. Diagnosteg
6. Meddyginiaethau

## 3 EHANGU'r cofnod iechyd a gofal digidol a'r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal

Portffolios

1. Ymgysylltu â Defnyddwyr: Proffesiynau Iechyd a Gofal
2. Ymgysylltu â Defnyddwyr: Cleifion a'r Cyhoedd

## 4 YSGOGI gwell gwerth a chanlyniadau drwy arloesi

Portffolios

1. Ymchwil ac Arloesi
2. Gwerth o ddata

## 5 BOD yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel

Galluogwyr

1. Pobl a Diwylliant
2. Cyllid
3. Cynaliadwyedd
4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
5. Ansawdd a Diogelwch
6. Llywodraethu, Perfformiad a Sicrwydd

**Ein Dull Gweithredu:** Mae'r blaenoriaethau o'r Canllawiau Cynllunio wedi'u mapio i'n portffolios gwaith ac unrhyw fylchau a nodwyd.

# BLAENORIAETHAU GWEINIDOGOL - FFRAMWAITH CYNLLUNIO

## Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

- 'Perthynas agosach â llywodraeth leol; lleihau ôl-groniad; cynllunio a chydlynu ar y cyd yn gynnar ar gyfer rhyddhau; adrodd yn fisol ar Lwybrau Gofal'

*2.3 Gofal wedi'i Gynllunio*

*2.2 Iechyd Meddwl Cymunedol Sylfaenol*

## Gofal Sylfaenol a Chymunedol

- 'Mynediad at Wasanaethau Meddyg Teulu / Cymunedol / Deintyddol / Optometreg a Fferylliaeth'

*2.2 Iechyd Meddwl Cymunedol Sylfaenol*

*2.6 Meddyginiaethau*

## Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

- 'Gwasanaeth Gofal Brys 24/7 ar gael trwy 111, Gofal mewn Argyfwng yr Un Diwrnod (sy'n cydymffurfio â'r meini prawf), trosglwyddiadau'

*2.4 Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng*

## Gofal wedi'i Gynllunio, Gwella, Diagnosteg, Llwybrau Gofal

- 'Cleifion Allanol ac Apwyntiadau Dilynol ac Ailbennu pwrpasau gweithgaredd; Gwella yn sgil Triniaeth; Amser rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT); Bylchau gallu mewn arbenigeddau; cyflawni targedau; canolfannau diagnostig rhanbarthol; ailgynllunio llwybrau, yn syth i brofion ac atgyfeirio ymlaen'

*2.3 Gofal wedi'i Gynllunio*

*2.5 Diagnosteg*

## Gwella yn sgil Canser

- 'Lleihau ôl-groniad; triniaeth a llwybrau canser'

*3.1 Proffesiynau Iechyd a Gofal*

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

- 'Gwella perfformiad amseroedd aros ar gyfer asesiad/ymyrraeth LPMHSS pob oed a CAMHS arbenigol; gweithredu 111 pwyso 2 ar gyfer iechyd meddwl brys'

*2.2 Iechyd Meddwl Cymunedol Sylfaenol*

## Swyddogaethau ategol craidd a thriongli

Dulliau digidol, arloesi, technoleg a thrawsnewid

*POB UN*

*1.1 Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio*

*1.2 Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu*

*1.3 Diogelu Data Cleifion*

*1.4 Seilwaith Cynaliadwy a Diogel*

*4.1 Ymchwil ac Arloesi*

*4.2 Gwerth o Ddata*

Gweithlu a llesiant

*5.1 Pobl a diwylliant*

Cynaliadwyedd ariannol

*5.2 Cyllid*

*5.3 Cynaliadwyedd*

**Ein Dull Gweithredu:** Mae'r blaenoriaethau o'r llythyrau Gweinidogol sy'n cyd-fynd â'r Canllawiau Cynllunio wedi'u mapio i'n portffolios gwaith a nodwyd unrhyw fylchau.

## GOFYNION CYFFREDINOL – LLYTHYRON Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL A GWEINIDOGOL

Targedu cynlluniau at heriau
- ymateb parhaus i'r pandemig
- pwysau galw

Gofal iechyd craidd
- gwasanaethau cyffredinol a ddarperir yn gymesur

Gwella a chynaliadwyedd
- adeiladu sylfeini ar gyfer iechyd a llesiant y boblogaeth

Edau aur gan gynnwys
- ansawdd gofal
- atal
- lleihau anghydraddoldebau iechyd
- newid hinsawdd
- canlyniadau iechyd
- ymagweddau rhanbarthol
- lleihau annhegwch a baich clefydau yn y tymor hwy

Gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyflenwi gwasanaethau i'r eithaf

Cydnabod amgylchedd cynllunio a ffactorau allanol cyfnewidiol

Cynlluniau i gynnwys blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn gyda map ffordd i'r tymor canolig, mewn cyd-destun 3 blynedd, gydag uchelgeisiau tymor hwy.

POB UN

POB UN

*2.1 Iechyd y Cyhoedd*
*2.3 Gofal wedi'i Gynllunio*
*1.1 Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio*

*2.1 Iechyd y*

*3.2 Cleifion a'r Cyhoedd*

*5.5 Ansawdd, Diogelwch*
*2.1 Iechyd y Cyhoedd*

*5.3 Cynaliadwyedd*

*4.2 Gwerth o ddata*

*1.2 Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu*

*4.2 Gwerth o ddata*

*5.6 Llywodraethu, Perfformiad a Sicrwydd*

- Cyd-destun Strwythur Gweithredol a Llywodraethu'r GIG
- Y GIG fel sefydliad angori gan gynnwys yr Economi Sylfaenol; ymateb i'r argyfwng costau byw
- Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys Datgarboneiddio; Sero Net; Gwerth Cymdeithasol
- Gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (Cynlluniau Ardal), Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Cynlluniau Llesiant) - gweithio gyda Phartneriaid, y Trydydd Sector a Chynnwys y Gymuned
- Alinio â Chynllunio Clystyrau
- Datblygu llwybrau, lleihau rhestrau aros a gwella profiad cleifion
- Atal a gwelliannau o ran pwysau iach, rheoli tybaco, brechu, sgrinio, dileu clefydau
- Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, Datganiadau Ansawdd/ Chwe Pharth
- Meysydd clinigol penodol fel Strôc, y Galon a mamolaeth, a meysydd trawsbynciol fel iechyd menywod
- Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth
- Dyletswydd Gonestrwydd a Dyletswydd Ansawdd
- Atal Covid-19 / Fframwaith imiwneiddio cenedlaethol / ymateb i ymchwyddiadau mewn covid
- Clefydau trosglwyddadwy eraill
- Cynllunio wrth gefn a chynllunio parhad busnes ar gyfer bygythiadau / digwyddiadau / galwadau tymhorol (gan gynnwys firysau anadlol y gaeaf / tywydd eithafol)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Mwy na geiriau (Y Gymraeg)

*5.2 Cyllid*

*5.3 Cynaliadwyedd*

*5.4 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid*

*2.2 Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl*

*3.2 Cleifion a'r Cyhoedd*

*2.3 Gofal wedi'i Gynllunio*

*2.1 Iechyd y Cyhoedd*

*3.1 Proffesiynau Iechyd a Gofal*

*4.2 Gwerth o Ddata*

*5.5 Ansawdd, Diogelwch*

*2.1 Iechyd y Cyhoedd*

*5.6 Llywodraethu, Perfformiad a Sicrwydd*

*5.1 Pobl a Diwylliant*

# BLAENORIAETHAU LLYWODRAETH CYMRU | DATRYSIADAU DIGIDOL IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU

**Ein Dull Gweithredu:** Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid, yn aelodau o fyrddau gwasanaethau a thrawsnewid ac yn adolygu polisïau'n rheolaidd i sicrhau bod blaenoriaethau'n gywir.

## Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

- Mae 'Optimeiddio'r Gwasanaeth Fferylliaeth wrth Ryddhau Cleifion o'r Ysbyty i Wella Llif Cleifion' Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2022, yn galw ar systemau Iechyd a Gofal Digidol Cymru i helpu gwasanaethau fferyllol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel ac yn amserol – yn enwedig yn y cyfnod hwn o alw mawr. (DS: trawsgrifio meddyginiaeth ac e-ryddhau ym *Mhorth Clinigol Cymru* a nodweddion adolygu meddyginiaethau' *system* Dewis Fferyllfa*)*.
- *Bydd* 'Adrodd ar Oedi mewn Llwybrau Gofal' yn cael ei hwyluso drwy wella'r hen system adrodd ar Oedi wrth Drosglwyddo Gofal.
- Bydd Rhaglen Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol yn gwneud rhagnodi, dosbarthu a gweinyddu meddyginiaethau ym mhobman yng Nghymru yn haws, yn fwy diogel, yn fwy effeithlon ac effeithiol, drwy ddull digidol.

## Gofal Sylfaenol a Chymunedol

- Ein nod yw bod yn *Bartner Digidol Gofal Sylfaenol a Chymunedol,* gan gefnogi'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
- Gwell defnydd o wasanaethau optometreg – bydd *y rhaglen Digidol Gofal Llygaid* yn cefnogi hyn
- Gwell mynediad at Feddygon Teulu a Gwasanaethau Cymunedol: *Bydd* Ap Cleifion y GIG yn cefnogi trwy gyfathrebu digidol
- *Bydd* System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gynorthwyo â darparu gofal cymunedol
- Mae ein *Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol yn cefnogi* casglu, adrodd a monitro gan Fyrddau Iechyd gydymffurfiaeth Practisiau Meddygon Teulu â 'Safonau Mynediad' fel y'u diffinnir yng nghontract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.

## Gofal wedi'i gynllunio, gwella, diagnosteg, llwybrau gofal

Mae ein *System Gweinyddu Cleifion Cymru* yn helpu i foderneiddio prosesau cleifion allanol drwy gofnodi ac adrodd ar ddata allweddol

- Rydym yn gweithredu *Gwasanaeth Atgyfeirio Cleifion Cymru* ac yn darparu dadansoddeg atgyfeirio, gan gynorthwyo â moderneiddio prosesau cleifion allanol trwy wella ein *System Gweinyddu Cleifion Cymru* i gefnogi gweld y cyfan o lwybr claf mewn un lle.
- Byddwn yn caffael *system famolaeth* ac yn gweithredu *systemau labordy a radioleg newydd.*
- Bydd sicrhau bod canlyniadau endosgopi ar gael yng *Ngwasanaeth Adrodd Canlyniadau Cymru* yn helpu gyda chanolfannau diagnostig rhanbarthol drwy sicrhau bod data ar gael y tu allan i ffiniau sefydliadol
- *Bydd* ceisiadau am brofion cardioleg ac endosgopi a fwriedir ar gyfer Porth Clinigol Cymru yn cefnogi uchelgeisiau amseroedd aros
- *Gellid defnyddio'r* Dangosfwrdd Amseroedd Aros i fesur y gostyngiad mewn amseroedd aros am ofal eilaidd.
- *Gwaith* Dangosfwrdd Data Gwerth mewn Iechyd ynghylch Gofal wedi'i Gynllunio (Cluniau, Pen-gliniau, Asgwrn Cefn)
- Setiau data a delweddau *Gofal wedi'i Gynllunio a Llwybrau Gofal ar gyfer PROMS*
- Cefnogi *achos busnes Patholeg Gellog Ddigidol* sy'n cael ei gyflwyno gan Gydweithrediaeth GIG Cymru
- Mwy o fynediad at wasanaethau deintyddol. Byddwn yn gweithio i gysylltu'r system atgyfeirio ddeintyddol â'n *Gweinyddiaeth Cleifion Cymru* i gael gwell trosolwg o'r galw

## Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

- Byddwn yn cyflawni'r mentrau digidol a data fel y'u nodir gan Raglen y 6 Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, sy'n cynnwys mabwysiadu'r *Set ddata gofal mewn Argyfwng,* Adran Achosion Brys Cymru a *Systemau Gofal Dwys Cymru*
- Mae gweithredu gwasanaeth gofal brys 24/7, sydd ar gael drwy GIG 111 Cymru i gefnogi gwell mynediad a chynaliadwyedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) yn cael ei gefnogi gan *integreiddiadau* Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyda – system alwadau SALUS 111

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl

- Mae *System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru* yn cynorthwyo â darparu gwasanaethau Iechyd Meddwl ledled Cymru. Gan gydweithio â rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer gwasanaethau digidol a data ar gyfer iechyd meddwl gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Byddwn hefyd yn ymgymryd â proses ddarganfod i ddeall yn well y cyfleoedd strategol ar draws y gwasanaethau i ddulliau digidol gael effaith yn y maes pwysig hwn.

## Gwella yn sgil Canser

- Byddwn yn datblygu camau'r datrysiad Canser yn y dyfodol, e.e. gofal lliniarol, sgrinio, colposgopi
- Gweithredu'r llwybrau canser cenedlaethol y cytunwyd arnynt o fewn y targed cenedlaethol – gan ddangos gwelliant blynyddol tuag at gyflawni targedau
- *Gwaith y* Dangosfwrdd Gwerth mewn Data Iechyd ynghylch gwella yn sgil Canser (Canser yr Ysgyfaint, Myeloma, Canser y Coluddyn)



# DULL CYNLLUNIO A RISGIAU

**Ein Dull Gweithredu:** Fe nodom y risgiau y gwyddom y gallent effeithio ar y ddarpariaeth, a diffiniom ragdybiaethau cynllunio i dimau weithio gyda nhw ar lefel adrannol. Nodwyd cyd-ddibyniaethau.

## DULL CYNLLUNIO

- Mae Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 yn ddangosol.
- Seilir bwriadau cyflawni ar argaeledd cyllid hysbys ac adnoddau cysylltiedig.
- Rhoddwyd codau lliw i linellau amser cyflawni yn ôl lefel y sicrwydd a'r aeddfedrwydd.

**Piblinell y Dyfodol** → **Adnodd heb ei Gadarnhau** → **Wedi'i ariannu**

Piblinell y Dyfodol: Gofynion a ragwelir nad ydynt yn y cynllun

Adnodd heb ei Gadarnhau: Hyder cyfyngedig mewn cyllid neu ddyraniad cyllideb

Wedi'i ariannu: Hyder yn argaeledd cyllid neu ddyraniad cyllideb

- Mae ychwanegu ymrwymiadau cyflawni newydd at y cynllun yn gofyn am gyllid / cyllideb ychwanegol neu ailddyrannu cyllid / cyllideb.
- Disgwylir i ymrwymiadau cyflawni newydd symud ymlaen o ran cynllunio manwl ac aeddfedrwydd wrth iddynt symud o biblinell y dyfodol i'r cynllun.
- Rydym yn rhagweld ac yn modelu ein gallu ar draws y sefydliad fel rhan o'n proses gynllunio, gan gyfrif am ffactorau megis amserlenni recriwtio ac absenoldeb.
- Mae'r cynllun hwn wedi ystyried blaenoriaethau gan Lywodraeth Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Rhaglenni Cenedlaethol, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru – a gasglwyd o gyfarfodydd a grwpiau cymheiriaid yn ystod 2022 a 2023.
- Mae cynlluniau sefydliadol eraill yn dilyn yr un amserlen gynllunio ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru felly mae'n bosibl nad oedd gofynion manwl wedi'u cadarnhau ar gael adeg ei drafftio. Rydym yn mynd i'r afael ag alinio cynlluniau yn ystod y flwyddyn fel rhan o'n hymgysylltiad strategol.

## PRIF FEYSYDD RISG

**Seiber** Mae gwneud y gorau o'n hamddiffyniad rhag ymosodiadau seiber yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw un o'n datrysiadau digidol ar gael ac yn cael eu darparu'n barhaus. Fel arall, mae gofal gorau, diogel ac amserol cleifion mewn perygl.

**Cyflenwyr.** Rydym yn dibynnu ar gapasiti cyflenwyr i gefnogi systemau allweddol dros gyfnod y cynllun hwn. Mae angen inni fod yn hyderus nad yw amserlenni cyflawni mewn perygl, a bod cyflenwyr yn canolbwyntio ar fap ffordd a gofynion GIG Cymru.

**Chwyddiant Digidol.** Gallai costau uwch gan gyflenwyr gwasanaethau digidol effeithio ar allu'r sefydliad i gydbwyso cyllid.

**Cyllido Cynaliadwy** Mae risgiau cyllido allweddol: mae angen cyllid ychwanegol ym mlwyddyn 1 a chyllid cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod sy'n adlewyrchu modelau gwasanaeth sy'n newid a thwf. Gallai'r rhain effeithio ar gyflenwi systemau newydd a gwasanaethau gweithredol parhaus. Gall fod ansicrwydd ynghylch incwm o gytundebau lefel gwasanaeth yn y dyfodol gan sefydliadau eraill y GIG, gan gynnwys trosglwyddo rhaglenni mawr o fuddsoddiadau blaenoriaeth digidol Llywodraeth Cymru i fusnes fel arfer.

**Adnoddau** - Mae risg os na chaiff swyddi gwag eu llenwi'n amserol. Mae rhai sgiliau digidol yn brin ac mae swyddi'n anodd eu llenwi.

**Materion etifeddol.** Mae seilwaith etifeddol y mae angen ei uwchraddio o hyd ar draws yr ystâd. Mae unrhyw ffocws oddi wrth hyn yn golygu y gallai systemau newydd eistedd ar seilwaith is-optimaidd a allai oedi'r broses gyflwyno a chael effaith ar enw da oherwydd ansefydlogrwydd.

**Cyd-ddibyniaethau cymhleth.** Mae'r integreiddiadau rhwng systemau digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn hynod gymhleth ac weithiau nid oes dealltwriaeth dda ohonynt. Gall hyn arwain at oedi annisgwyl a all fod yn anodd ei liniaru, er enghraifft, pan fydd trydydd parti'n darparu systemau.

# TRIONGLI CYFLAWNI, CYLLID A’R GWEITHLU

## Rhagamcaniad Cyflawni

Mae ein gweithgareddau buddsoddi ychwanegol yn cynnwys datrysiadau digidol ar gyfer:

Gwasanaethau Canolfannau Data / Cwmwl (dewisol ac achosion busnes newydd)
Cynllun buddsoddi seiberddiogelwch
Gofal Canser
Cleifion a'r Cyhoedd
Gofal Critigol
Adnodd Data Cenedlaethol
Meddyginiaethau Digidol
Gofal yn y gymuned
System Gweinyddu Cleifion Cymru
Mamolaeth
Diagnosteg



## Rhagamcaniad Cyllid

Rhagwelir y bydd gweithgareddau ychwanegol dros y tymor cynllunio yn costio:

**Refeniw:**

- Cronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethu Digidol (DPIF): £35.5m
- Covid-19: £8.0m

**Buddsoddiad Cyfalaf:**

- Cronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethu Digidol (DPIF): £10.7m

## Rhagamcaniad y Gweithlu

Gweler gwybodaeth y set ddata ofynnol ar gyfer staff ychwanegol y tu hwnt i'r 'craidd'




Mae cynnal ein busnes fel arfer yn gost reolaidd o £118.9m (yn 2023/24) gyda dyraniad cyfalaf blynyddol o £2.6m ac ymgymerir ag ef gan sefydliad a ariennir yn 'graidd' o ryw 850 o staff (cyfwerth ag amser llawn)[1]. Mae hyn yn cwmpasu dros 100 o gynhyrchion a gwasanaethau, ein seilwaith sylfaenol a'n hadrannau cymorth. (Bydd ein sefydliad cyfan yn uwch o lawer gan y bydd yn cynnwys mentrau parhaus Covid-19 a mentrau Buddsoddi mewn Blaenoriaethu Digidol amrywiol.)



[1] Ar ddiwedd Chwefror 2023, gan gynnwys swyddi gwag

# CYNLLUN AR DUDALEN

Portffolios

| Portffolios | Chwarter 1 Ebrill - Meh 2023 | Chwarter 2 Gorff-Medi 2023 | Chwarter 3 Hyd-Rhag 2023 | Chwarter 4 Ion-Maw 2024 | 2024-2025 | 2025-2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio | Ystorfa Data Gofal | | | | | |
| | Sefydlu Platfform Data a Dadansoddeg | Hyb data ac integreiddio | | | | |
| 1.2 Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu | Map Trywydd API | APIs i'w cynhyrchu | | | | |
| | Mapiau Trywydd Platfform a Chynnyrch | | | | | |
| 1.3 Diogelu Data Cleifion | Rhaglen Addewid Data | Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth | | | | |
| | | Dyfarnu'r System Archwilio Genedlaethol | | | | |
| 1.4 Seilwaith Cynaliadwy a Diogel | Cynllun Cwmwl ac Achos Busnes | | | | | |
| | Cynllun Seiber | | | | | |
| | | | | Symud y Ganolfan Ddata | | |
| 2.1 Iechyd y Cyhoedd | Gwaith Darganfod ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Brechlynnau | | Blaenoriaethau'r Rhaglen Sgrinio | | | |
| 2.2 Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl | Partner Digidol ar gyfer Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | | | | | |
| | Argymhellion Adolygiad Strategol System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru | | | | | |
| | | | | Cyflenw(y)r Dewisol Systemau Meddygon Teulu | | |
| 2.3 Gofal Wedi'i Gynllunio | Gweinyddiaeth Cleifion Cymru ar draws Gogledd Cymru | Newid Ffiniau Bwrdd Iechyd Gweinyddiaeth Cleifion Cymru | | | | |
| | Caffael system Famolaeth Cymru Gyfan | | | | | |
| | Adolygiad o'r Porth Gofal Llygaid a threfniadau pontio | | | | | |
| 2.4 Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng | System Argyfwng Cymru - adolygu allbynnau'r adolygiad strategol | Cyflwyno'r System Gofal Dwys | | | | |
| 2.5 Diagnosteg | Parodrwydd y system rheoli labordai newydd (LINC) | | | | Dechrau cyflwyno LINC | Gorffen cyflwyno LINC |
| | Achos busnes system rheoli radioleg newydd | Parodrwydd y system rheoli radioleg newydd (RISP) | | | Dechrau cyflwyno RISP | Gorffen cyflwyno RISP |
| 2.6 Meddyginiaethau Digidol | Camau cychwynnol Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol (DMTP) sef: cofnod meddyginiaethau sengl, trosglwyddo presgripsiynau'n electronig, e-bresgripsiynu mewn ysbytai, mynediad cleifion at feddyginiaethau | | | | Camau nesaf DMTP | Camau nesaf DMTP |
| 3.1 Proffesiynau Iechyd a Gofal | Ymestyn ceisiadau electronig ar draws arbenigeddau | | | | | |
| | Cyfnodau'r Datrysiad Gwybodeg Canser yn y dyfodol | | | | Targedau cyflawnadwy'r Cynllun Gwella Canser | |
| 3.2 Cleifion a'r Cyhoedd | Ap GIG Cymru yn lansio gwasanaethau Meddygon | Datblygu gwasanaethau swyddogaethol craidd | | | Cefnogaeth a datblygiad pellach | |
| | | Cynefino a chysylltu cyflenwyr trydydd parti â gwasanaethau craidd Ap GIG Cymru | | | | |
| 4.1 Ymchwil ac Arloesi | Rheolau ymgysylltu â phartneriaid yn y diwydiant | | Adolygu'r bartneriaeth ymchwil academaidd a datblygu rhestr o ymrwymiadau | | | |
| 4.2 Gwerth o Ddata | Dadansoddi a modelu ar gyfer Rhaglenni Strategol ac Iechyd y Cyhoedd | | | | | |
| | Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg | | | Rhoi'r cynllun 'Ystadegau Swyddogol' ar waith | | |
| | Dadansoddeg â blaenoriaeth barhaus mewn Gwerth mewn Iechyd a Gofal Sylfaenol a Chymunedol | | | | | |

## Allwedd

**Wedi'i ariannu**

Hyder yn argaeledd cyllid neu ddyraniad cyllideb

**Adnodd heb ei Gadarnhau**

Hyder cyfyngedig mewn cyllid neu ddyraniad cyllideb

# BUSNES FEL ARFER

Gellir dosbarthu mwyafrif gwaith Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn waith 'Busnes fel Arfer'. Rydym yn cynnal dros 100 o wasanaethau y mae ein defnyddwyr yn dibynnu arnynt 24/7 i helpu i fewnbynnu a chael at wybodaeth glinigol a gweinyddol hanfodol y mae ei hangen i drin cleifion yn effeithiol ac yn ddiogel. Busnes fel arfer yw lleiafswm yr adnoddau a gweithgareddau y mae eu hangen i gadw'r gwasanaethau ar waith er mwyn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr presennol eu bod yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn cydymffurfio. Mae ein cynllun yn cymryd yn ganiataol yr angen parhaus am fusnes fel arfer a'i fod yn cael ei flaenoriaethu yn gyntaf.

## CYD-DESTUN

Mae galwadau cynyddol ar ein gwasanaethau presennol yn gyson wrth i ddefnyddwyr weld buddion datrysiadau digidol. Mae gennym fwy o ddefnyddwyr, sy'n cyrchu'n amlach 24/7, ac sydd am weld mwy o gysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng ein systemau. Mae gennym dirwedd dechnegol gynyddol gymhleth gyda chyfleoedd am fwy o awtomeiddio ac effeithlonrwydd, ond mae hyn yn wyneb cefndir o ddyled dechnegol hen a etifeddwyd, y mae angen ei diweddaru.

Ar hyn o bryd rydym wedi ein hariannu a'n strwythuro ar sail dulliau mwy traddodiadol o redeg busnes fel arfer. Mae angen ein trawsnewid yn strwythurau a dulliau ariannu cynaliadwy sy'n galluogi gwella'r holl wasanaethau digidol yn barhaus, yn unol ag arfer gorau'r diwydiant a lleihau risg a gyrru gwerth. Bydd symud i ddull seiliedig ar gynnyrch a newid i gymwysiadau cwmwl gynhenid yn darparu amgylcheddau cyflym, ystwyth i wireddu gwerth yn gyflym. Dylai defnyddwyr fod yn ganolog i bopeth a wnawn wrth i ni ddarparu systemau diogel, di-dor ac ymateb i ddigwyddiadau a gwella'n barhaus.

## RHEOLI DIGWYDDIADAU A PHROBLEMAU

Mae digwyddiadau a thrafferthion gwasanaeth yn digwydd o fewn pob system, gyda'r mwyafrif helaeth yn sefyllfaoedd sy'n cael ychydig iawn o effaith ar y gwasanaeth a ddarperir ac yn achosi ychydig iawn o aflonyddwch, ond mae angen o hyd eu cofnodi, gwneud diagnosis ohonynt a'u cywiro. O bryd i'w gilydd mae digwyddiadau gwasanaeth TG yn cael mwy o effaith ar grwpiau ehangach o ddefnyddwyr, ac rydym yn ymdrin â'r rhain trwy ein proses Digwyddiad Gwasanaeth TG Mawr ac yn rhoi gwybod i'r Bwrdd amdanynt, yn ogystal â'u cynnwys yn ein hadroddiad rheoli argaeledd gwasanaeth TG.

Pan fydd digwyddiadau mynych, neu lle gallwn weld tuedd bosibl mewn digwyddiadau, rydym yn ymdrin â'r rhain trwy ein proses rheoli problemau.

Gwahaniaethwr allweddol rhwng busnes fel arfer a gwella gwasanaethau yw'r angen am adnoddau. Gall newid trawsnewidiol gynnwys adnoddau sylweddol y tu hwnt i fusnes fel arfer. Mae ceisiadau 'Trawsnewidiol' yn cynnwys:

- Ceisiadau sylweddol am wasanaeth newydd
- Rhaglenni newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- Agendâu trawsnewidiol strategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru megis symud i bensaernïaeth agored a chyfrifiadura cwmwl.

## CYNNAL A RHEDEG

- **Gosodir targedau** argaeledd ar 99.9%
- **Gosod Patsys Diogelwch** – er mwyn sicrhau y gallwn leihau risg digwyddiadau diogelwch ar ein gwasanaethau, mae gosod patsys yn rheolaidd a chyflym yn ofyniad gweithredol allweddol.
- **Rheoli gwneud copïau wrth gefn o wasanaethau** – mae angen gwneud copïau wrth gefn o'n gwasanaethau yn rheolaidd a rhaid profi eu gallu i adfer er mwyn sicrhau y gallwn ddod dros gwyriadau i'r gwasanaeth arferol pan fo angen.
- **Cynllunio adfer ar ôl trychineb** – mae angen i ni sicrhau bod cynlluniau adfer ar ôl trychineb sy'n gadarn ac wedi'u profi ar waith gennym ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol, fel y gellir eu hadfer yn gyflym pe bai digwyddiad technegol difrifol.
- **Newidiadau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio** - Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru amserlen ddyddiol o newidiadau arfaethedig i Wasanaethau TG ac rydym yn defnyddio cipolygon i GIG Cymru yn ehangach i sicrhau ein bod yn tarfu cyn lleied â phosibl, yn ogystal ag osgoi adegau o bwysau mawr lle bo modd. Weithiau, mae angen gwneud newidiadau brys i systemau TG er mwyn datrys digwyddiadau TG neu adfer gwasanaethau.
- **Rheoliad mân gyfluniadau -** Rydym hefyd yn delio â materion fel ailosod cyfrineiriau, sefydlu cyfrifon defnyddwyr newydd ac addasu manylion cyfrif.
- **Gwiriadau gwasanaeth dyddiol**
- **Hyfforddiant** – mae angen i staff fod yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf yn y maes digidol drwy'r amser.

## GWELLA GWASANAETHAU

Rydym yn delio â nifer o **geisiadau gwasanaeth newydd** gan ein partneriaid ledled Cymru, yn aml i alluogi mwy o ymarferoldeb neu i drawsnewid proses â llaw yn wasanaeth digidol. Daw newidiadau o Fyrddau Rheoli Gwasanaethau, Byrddau Prosiect, sefydliadau GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a mwy.

- Mae gwelliannau eraill yn cynnwys uwchraddio cydrannau Pensaernïaeth
- Rheoli cyfluniadau mawr
- Ffactorau risg sylweddol sy'n deillio o reoli problemau / adrodd am ddigwyddiadau y mae angen eu gwella i liniaru'r risg

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales



# Cenhadaeth 1

## DARPARU PLATFFORM ar gyfer galluogi trawsnewid digidol

**Portffolios**

1. Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio
2. Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu
3. Diogelu Data Cleifion
4. Seilwaith Cynaliadwy a Diogel

# CENHADAETH 1: DARPARU PLATFFORM AR GYFER GALLUOGI TRAWSNEWID DIGIDOL - Portffolios

Mae'r portffolios yn y genhadaeth hon yn sail i bopeth a ddarparwn: gwybodaeth sy'n llifo'n ddiogel rhwng systemau ar seilwaith diogel.

## CYD-DESTUN

Mae Cymru'n casglu llawer iawn o ddata iechyd a gofal sydd wedi tyfu'n gyflym wrth i'r newid i ddulliau digidol aeddfedu. Mae data'n aml yn dameidiog ac ar wahân ar draws systemau, gwasanaethau a ffiniau daearyddol wrth i lwybrau gofal ddod yn fwy cymhleth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen am ddefnyddio data yn well i gefnogi gwneud penderfyniadau a gwella gofal yn ei Datganiad o Fwriad Gwybodaeth 2017 ac ym mholisi Cymru Iachach 2019.

Rhwystr rhag rhannu data yw diffyg safonau technegol ar gyfer rhyngweithredu, diogelwch a seilwaith. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â hyn trwy weithredu cynllun pensaernïaeth 'platfform agored' cwmwl, safonau cenedlaethol, ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) i ddwyn data cleifion ynghyd mewn un lle. Bydd hyn yn gwella'r gwaith o storio data a'r gallu i'w ailddefnyddio, yn lleihau dibyniaeth ar gyflenwyr penodol, yn gwneud data'n fwy cludadwy a diogel, ac yn galluogi dadansoddeg ac ymchwil i gefnogi gwerth mewn gofal iechyd.

## PORTFFOLIO 1.1 Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio

- Byddwn yn storio data strwythuredig mewn Ystorfa Data Gofal.

  **Mae hyn yn golygu** bod data a gesglir ar draws llawer o systemau, mewn gwahanol leoliadau a sefydliadau gofal, yn gallu cael ei storio fel y gellir gweld y cyfan o gofnod iechyd a gofal unigolyn mewn un lle. Gall hyn atal ailofyn yr un cwestiynau i gleifion mewn gwahanol leoliadau am eu meddyginiaethau, eu symptomau ac ati.

- Byddwn yn caffael data gofal mewn Platfform Data a Dadansoddeg Cenedlaethol ac yn darparu offer a thechnolegau modern i gefnogi cipolygon a yrrir gan ddata.

  **Mae hyn yn golygu** bod data yn cefnogi penderfyniadau iechyd ac ailgynllunio gwasanaethau, ac nodi tueddiadau a thagfeydd i wella canlyniadau a phrofiad cyffredinol cleifion.

- Byddwn yn adeiladu hwb data ac integreiddio fel y gall data symud o gwmpas yn ddiogel.

  **Mae hyn yn golygu** bod data ar gael ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol i'r person cywir ar yr amser cywir i alluogi gwell gofal.

## PORTFFOLIO 1.2 Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu

- Byddwn yn parhau i ymestyn ein blociau adeiladu pensaernïol a'n Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (APIs).

  **Mae hyn yn golygu** y bydd ein pensaernïaeth ar gael i bartneriaid a'n cyflenwyr mewn dull rheoledig, diogel sy'n seiliedig ar reolau.

- Byddwn yn datblygu ein proses ymgymryd â phensaernïaeth agored.

  **Mae hyn yn golygu** darparu proses glir a chymesur i alluogi sefydliadau i gael mynediad at y bensaernïaeth agored mewn ffordd ddiogel, sicr, sy'n cydymffurfio.

## PORTFFOLIO 1.3 Diogelu Data Cleifion

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn chwarae rhan wrth ddarparu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), y Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol, darparu cyngor Swyddog Diogelu Data i Feddygon Teulu a'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth, a chynghori ar gyhoeddi data i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau llywodraethu gwybodaeth.

- Byddwn yn datblygu ac yn hyrwyddo fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol i Gymru fel y gellir rhannu gwybodaeth cleifion yn ddiogel - trwy sicrwydd, cyngor, yr Addewid Data, ymgysylltu â'r cyhoedd, a chodau ymddygiad.

**Mae hyn yn golygu y** gall cleifion fod yn dawel eu meddwl bod eu data preifat yn cael ei ddiogelu.

## PORTFFOLIO 1.4 Seilwaith Cynaliadwy a Diogel

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu seilwaith cenedlaethol helaeth ar draws GIG Cymru, gan gynnwys canolfannau data, seilwaith rhwydwaith, gwasanaethau seiberddiogelwch, cymorth â dyfeisiau i ddefnyddwyr yn y pen draw a gwasanaethau cydweithredu.

- Byddwn yn trosglwyddo gwasanaethau i'r cwmwl, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes.
- Byddwn yn amnewid ac yn uwchraddio seilwaith sy'n heneiddio.
- Byddwn yn symud i ganolfan ddata newydd.
- Byddwn yn parhau i fonitro bygythiadau seiberddiogelwch a gweithredu Cynllun Seiber 3 Blynedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes.

**Mae hyn yn golygu** hyder bod systemau wedi'u diogelu a'u bod ar gael pan fo angen.

# CENHADAETH 1: FFOCWS AR :

## ADNODD DATA CENEDLAETHOL


Mae rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) yn rheidrwydd strategol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru. Mae'n sail i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn *Cymru Iachach,* gyda nodau i ddarparu dull mwy cydgysylltiedig o ymdrin â data iechyd a gofal ledled Cymru.

Mae'r weledigaeth fel a ganlyn

- **Cymru'n Arwain y Ffordd** - Helpu iechyd a gofal yng Nghymru i fod yn arloesol, yn fodern a defnyddio data i lywio penderfyniadau
- **Ymchwil, Gwyddorau Data a Deallusrwydd Artiffisial** - Er mwyn llywio gwell gofal a phrosiectau
- **I Glinigwyr, Gofalwyr a Gwneuthurwyr Penderfyniadau Eraill** - Defnyddio'r data i ddarparu argymhellion a gwybodaeth
- **Galluogwr Allweddol i Wella Ein Gwasanaethau** - Mae'r Adnodd Data Cenedlaethol yn fenter genedlaethol i alluogi iechyd a gofal i wella profiad cleifion a chanlyniadau gwasanaethau
- **Gallu Data Mawr** - Datrysiadau blaengar
- **Mynediad Cyflymach, Haws at Ddata** - Mwy o ddata awtomataidd, mwy agored, cysylltiedig

Yn 2022, fe wnaethom ddiffinio ein strategaeth ddata, a diffinio pensaernïaeth platfform data i gefnogi uchelgeisiau Cymru Iachach. Rydym wedi caffael platfform Cwmwl ac rydym yn gweithredu ein Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (APIs) cyntaf trwy offer rheoli API.

Mae dangosfyrddau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd ac sy'n benodol i glefydau yn galluogi darparwyr gofal i ddeall anghenion eu cleifion
**Sy'n golygu:** gellir defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny.
**Dadansoddwr Data Ymchwil ac Addys**



### Sbotolau ar 2023-26

- Gweithredu *Strategaeth Data Adnoddau Data Cenedlaethol 2022*, trwy foderneiddio ac ail-lwyfannu ein pensaernïaeth data i wasanaethau cwmwl, gan ganolbwyntio ar ryngweithredu seiliedig ar safonau a darparu offer dadansoddol a mynediad diogel at ddata.



Gallaf weld fy nghlaf, gan wybod bod ei gofnod gofal / data digidol yn cael ei storio mewn ystorfeydd Cymru gyfan.
**Sy'n golygu:** nid oes ots ble gwelwyd y claf ddiwethaf, gallaf weld ei ddata clinigol i lywio ei ofal **Darparwr Gofal**

## PENSAERNÏAETH AGORED

Amlygodd [Adolygiad o Bensaernïaeth Ddigidol](#) GIG Cymru 2019 *yr angen am 'ddatblygu ymagwedd platfform agored at arloesi digidol, trwy gyhoeddi safonau cenedlaethol ar gyfer sut mae meddalwedd a thechnolegau'n gweithio gyda'i gilydd, a sut y gall partneriaid allanol weithio gyda'r llwyfan digidol cenedlaethol a'r adnodd data cenedlaethol.' (Cymru Iachach)*

Ein hymateb oedd datblygu mapiau ffordd ar gyfer ein 'blociau adeiladu pensaernïaeth' a rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau (APIs) i hwyluso'r bensaernïaeth agored. Gellir meddwl am y rhain fel cydrannau sylfaenol ein pensaernïaeth, y mae cymwysiadau a gwasanaethau digidol presennol ac yn y dyfodol yn cael eu hadeiladu arnynt. Mae'r blociau adeiladu yn cynnwys:

- Platfformau Data a Dadansoddeg Cenedlaethol
- Hwb Data ac Integreiddio
- Ystorfa Data Gofal (CDR)
- Rheoli API (APIM)
- Safonau a Phroffilio
- Data Cyfeirio a Therminoleg
- Hunaniaeth a Demograffeg Cleifion
- Cyfarfyddiadau Cleifion Mewnol
- Peiriant Data Clinigol (CDE)
- Diagnosteg
- Dogfennau Clinigol

### Sbotolau ar 2023-26

- Adeiladu blociau ychwanegol, gweithredu'r Offeryn Rheoli API ac ymgysylltu â phartneriaid ar sut i gael at y bensaernïaeth agored

# CENHADAETH 1: FFOCWS AR :

## SEIBER

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn caffael ac yn gweithredu offer monitro bygythiadau seiber ac yn darparu cyngor ac arweiniad helaeth ar ddiogelwch i'n partneriaid iechyd. Mae'r offer a'r prosesau hyn yn helpu i ganfod ac atal ymosodiadau seiber, megis ymosodiadau meddalwedd wystlo, a diogelu data clinigol sensitif rhag cael ei ddwyn a/neu ei ddinistrio'n barhaol.

Mae lefel diogelwch sylfaenol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn deillio o Reoliadau Diogelwch y Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth (Rheoliadau NIS), ei Fframwaith Sicrwydd Seiber (CAF) cysylltiedig a System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ISO27001. Mae'r Fframwaith Sicrwydd Seiber (CAF) yn ofyniad deddfwriaethol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sefydliadau iechyd eraill.

Rydym yn cynnal Uned Seibergadernid GIG Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, gyda threfniadau rheoli a llywodraethu ar wahân, i ddarparu sicrwydd seiberddiogelwch parhaus ac adrodd ar 'gyflwr seiber'.



Rwy'n hyderus bod y tîm Seiber ymroddedig yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn monitro ein rhwydwaith ehangach i leihau'r tebygolrwydd o ymosodiadau seiber ar y GIG yng Nghymru, a'u heffaith. Sy'n golygu: Bod y systemau y mae eu hangen arnaf i helpu cleifion a chydweithwyr yn parhau'n ddiogel ac ar gael.

**Y GIG yn Ehangach**

### Sbotolau ar 2023-26

- Canfod bygythiadau yn barhaus a pharodrwydd parhaus

## SYMUD Y GANOLFAN DDATA

Mae Prosiect Trosglwyddo Canolfan Ddata Dau yn weithgaredd uchel ei broffil i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Y nod yw trosglwyddo'r seilwaith a gedwir ar hyn o bryd yn ein hail Ganolfan Ddata (DC2) i neuadd canolfan ddata newydd cyn i'r contract presennol ddod i ben. Mae'r broses o gaffael cyflenwr canolfan ddata newydd wedi'i chwblhau ac wedi'i chymeradwyo gan ein Bwrdd.

Bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gynllunio'r gwahanol gamau, e.e. adeiladwaith a chynllun y neuadd newydd, y cysylltedd, adeiladu a phrofi'r Rhwydwaith wedi'i Ddiffinio gan Feddalwedd a chyfathrebu parhaus ag arweinwyr gwasanaethau a chyflenwyr.

- Sbotolau ar 2023-26

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y seilwaith yn trosglwyddo yn gynnar yn 2024.

Fel claf/dinesydd, gallaf fod yn fwy hyderus bod fy ngwybodaeth iechyd bersonol mewn dwylo diogel Sy'n golygu: Rwy'n hapusach i ddefnyddio technoleg ar gyfer hunanofal sy'n ehangu fy opsiynau a fy mynediad i wasanaethau.

**Dinesydd**



## PONTIO I'R CWMWL

Bydd yr holl ddatrysiadau yn y dyfodol yn cael eu dylunio gyda'r cwmwl yn gyrchfan defnyddio targed ar gyfer datrysiadau platfform fel gwasanaeth (PaaS) a meddalwedd fel gwasanaeth (SaaS). Byddwn yn dewis ein darparwyr ar sail dadansoddiad o alluoedd yn y farchnad. Ar gyfer seilwaith fel gwasanaeth (IaaS), byddwn yn nodi un darparwr.

Bydd ein gwasanaethau'n cael eu cynllunio o gwmpas anghenion defnyddwyr a'u darparu i'r defnyddiwr yn gyflymach; byddant ar gael ar draws sawl math o ddyfais o leoliadau lluosog. Pan na fyddwn yn prynu SaaS byddwn yn datblygu ac yn cynnal cymwysiadau ar PaaS lle bynnag y bo'n bosibl, gan ddefnyddio gwasanaethau darparwr-gynhenid, gan ddefnyddio IaaS dim ond pan na fydd datrysiadau PaaS a SaaS ar gael.

Byddwn yn cyflymu mynediad busnesau at arloesedd cwmwl trwy ddefnydd hunanwasanaeth wedi'i yrru gan y defnyddiwr o fewn cynnig gwasanaethau a gymeradwywyd ymlaen llaw. Byddwn yn arfogi ein timau â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar y cwmwl a chefnogi eu gofynion dysgu.

Byddwn yn sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn elwa o hyblygrwydd y cwmwl a'r gallu i newid ei raddfa – gan droi adnoddau i lawr neu i fyny.

### Sbotolau ar 2023-26

- Mabwysiadu'r Cwmwl – cynnwys cynlluniau mudo i'r cwmwl mewn mapiau cymwysiadau
- FinOps – ysgogi atebolrwydd ariannol o ran technoleg Cwmwl a sicrhau'r gwerth mwyaf posibl.
- Hyfforddiant staff
- Cefnogi gofynion yr Adnodd Data Cenedlaethol

# Cenhadaeth 1

Darparu platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol

## Ysgogwyr

- Datganiad o Fwriad Gwybodaeth Llywodraeth Cymru 2017 – Defnyddio data iechyd a gofal yn well er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol a gwasanaethau effeithlon
- Cymru Iachach 2019
- Adolygiad o Bensaernïaeth Ddigidol GIG Cymru 2019
- Strategaeth Ddata 2022 yr Adnodd Data Cenedlaethol

## Canlyniadau

- Mae cydgysylltu data mewn ffordd safonol yn galluogi cymariaethau clinigol sy'n arwain at well gofal
- Sicrhau bod data'n cael ei storio unwaith a'i ailddefnyddio sawl gwaith. Gall hyn atal ailofyn yr un cwestiynau i gleifion mewn gwahanol leoliadau am eu meddyginiaethau, eu symptomau ac ati.
- Cefnogi gweithio dibapur – Bydd digideiddio'r cofnod iechyd a gofal yn ei gwneud hi'n haws cofnodi gwybodaeth gywir am gleifion, ei rhannu gyda'r darparwyr cywir a gwella dyraniad adnoddau.
- Bydd clinigwyr yn gallu cael at ddata cenedlaethol felly does dim ots ble y gwelwyd y claf ddiwethaf, mae'r holl ddata ar gael.

# Portffolio 1.1: Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynghyd â Rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol, datblygu sylfeini pensaernïaeth ddigidol a data agored GIG Cymru | | | | | |
| **Ystorfa Data Gofal.** Sefydlu storfa data iechyd a gofal genedlaethol newydd yn y cwmwl gydag APIs yn seiliedig ar safonau, gan gefnogi pensaernïaeth agored a rhyngweithredol. | | | | | |
| **Platfform Data a Dadansoddeg Cenedlaethol**. Sefydlu llwyfan cwmwl i ddarparu platfform dadansoddol a mynediad diogel at ddata | Caffael data i **blatfform data a dadansoddeg newydd** | | | | |
| **Platfformau Data Lleol.** Galluogi rhannu data rhwng platfformau data cenedlaethol a lleol drwy raglen yr Adnodd Data Cenedlaethol. | | | | | |
| **Hwb Data ac Integreiddio** sefydlu'r hwb ar Blatfform Cwmwl | | | | | |
| **Data Dyfeisiau Meddygol.** Adeiladu cydgasglwr data i gasglu data Scan for Safety ar lefel Cymru gyfan i'r Adnodd Data Cenedlaethol | | | | | |



Yn ôl i'r Cynnwys

## Cenhadaeth 1

Darparu platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol

### Ysgogwyr

- Datganiad o Fwriad Gwybodaeth Llywodraeth Cymru 2017 – Defnyddio data iechyd a gofal yn well er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol a gwasanaethau effeithlon
- Cymru Iachach 2019
- Adolygiad Pensaernïaeth Ddigidol GIG Cymru 2019
- Strategaeth Pensaernïaeth Agored

### Canlyniadau

- Ei gwneud hi'n haws i ddatblygwyr a chyflenwyr meddalwedd ymuno â datrysiadau digidol Iechyd a Gofal Digidol Cymru gan gyflymu'r broses o ddarparu buddion o ofal digidol arloesol
- Osgoi dibyniaeth ar gyflenwyr penodol gan sicrhau bod cyflenwyr lluosog yn gallu cyfrannu at hanes cyfoethog claf a darparu atebion arloesol yn gyflymach

### Piblinell

- Mynegai Staff Meistr

## Portffolio 1.2: Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mapiau ffordd llwybr a chynnyrch** – parhau i ddatblygu'r strategaeth ar gyfer platfformau/blociau adeiladu pensaernïaeth[1] â blaenoriaeth, gan gynnwys peiriant data clinigol a hunaniaeth a demograffeg cleifion, (Prif Fynegai Cleifion a Gwasanaeth Demograffeg Cymru). Mapiau ffordd cynnyrch i'w diffinio ar gyfer cynnyrch a llinellau cynnyrch â blaenoriaeth (diagnosteg a delweddu, mamolaeth, ceisiadau electronig am brofion a genomeg) | | | | Blaenoriaethau pellach | Blaenoriaethau pellach |
| Asesu Cynnyrch a Phlatfformau | | | | Blaenoriaethau pellach | Blaenoriaethau pellach |
| **Mae Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau** [2] yn darparu map ffordd blaenoriaethau API o bwyntiau mynediad cwsmeriaid i'n pensaernïaeth | **Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau** - symud APIs presennol i'w cynhyrchu ac ar blatfform rheoli byw | 10 APIs wrthi'n cael eu cynhyrchu ac ar blatfform rheoli byw | | APIs pellach | APIs pellach |
| | | | | **System Gweinyddu Cleifion Cymru:** Datblygu API ar gyfer trefnu apwyntiadau a fydd yn galluogi cleifion i weld apwyntiadau ysbyty ar Ap GIG Cymru. | |
| **Safonau Pensaernïaeth Agored.** Gweithio gyda rhanddeiliaid i gyhoeddi a hyrwyddo'r safonau pensaernïaeth agored | | | | | |
| Adolygu map ffordd at y dyfodol o **dechnoleg integreiddio craidd** | **Trosglwyddo** i'r dechnoleg integreiddio newydd | | | | |
| **Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru** : Adolygu opsiynau ar gyfer trefniadau eraill a phensaernïaeth newydd ar gyfer y system sy'n anfon dogfennau gofal sylfaenol i ofal eilaidd ac yn ôl | | **Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru**: Gweithredu'r opsiwn a ffefrir | | | |

*[1] Blociau adeiladu pensaernïol (ABBs) yw'r cydrannau a'r rhyngweithiadau sylfaenol sy'n gwneud y Cofnod Iechyd a Gofal yng Nghymru yn bosibl.*

*[2] Mae Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau yn dechnoleg sy'n caniatáu i systemau siarad â'i gilydd ac mae'n darparu mynediad i'r Ystorfa Data Gofal*

## Cenhadaeth 1

Darparu platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol

## Ysgogwyr

- Rhannu Gwybodaeth ar gyfer gofal cleifion a deallusrwydd gwybodaeth
- Mae Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 yn gofyn am amddiffyniad cryf o breifatrwydd.
- Cyfarwyddeb Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth (NIS) 2018 - systemau rhwydwaith a gwybodaeth diogel.
- Cymru Iachach 2019 – grymuso cleifion a data mewn dwylo diogel

## Canlyniadau

Mae mynediad diogel a theg at ddata yn y pwynt gofal yn golygu:

- Cynyddu hyder y cyhoedd bod data cyfrinachol cleifion yn cael ei ddiogelu fel eu bod yn fwy tebygol o rannu eu data eu hunain fel rhan o'r Ap Cleifion.
- Cynyddu'r hyder bod partneriaid a darparwyr gwasanaethau gofal iechyd yn cydymffurfio â gofynion preifatrwydd trwy ddarparu fframwaith sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth (o ganlyniad i'n hofferyn archwilio cenedlaethol, mae gofal sylfaenol yn rhannu mwy o ddata â lleoliadau eraill, e.e. Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.)

# Portffolio 1.3 Diogelu Data Cleifion

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol.** Datblygu a hyrwyddo fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth cenedlaethol i Gymru fel y gellir rhannu gwybodaeth cleifion yn ddiogel - trwy sicrwydd, rhannu, cyngor, mynediad a hyfforddiant | | | | | |
| **Proses Ymgynghori ar God Ymddygiad** Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru | **System Archwilio Genedlaethol.** Dyfarnu contract ar gyfer offeryn sy'n mynd ati'n rhagweithiol i ganfod mynediad anawdurdodedig at ddata cleifion yn systemau TG y GIG. | | | **Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru** Cyhoeddi cod ymddygiad ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus | |
| **Datblygu Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth** – Ymestyn ac ehangu'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth i'r sefydliadau hynny sydd eisiau cael at ddata cleifion er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a gofal effeithlon | | | | | |
| **Sefydlu rhaglen** i gefnogi camau gweithredu a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yng ngweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu ehangach yr Addewid Data | **Platfform** Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth newydd a setiau cwestiynau ar gyfer Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd a Meddygon Teulu | **Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth** i Fferyllfeydd Cymunedol ac i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Rhagnodi Electronig | Ffurfweddu **Offeryn digidol Unwaith i Gymru ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**[1] **a** Chytundebau Gwybodaeth ar gyfer cam 2 mewn Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd | | |
| | Ffurfweddu Offeryn digidol Unwaith i Gymru ar gyfer yr **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**[1] **a** Chytundebau Gwybodaeth ar gyfer cam 1 ym mhroses ddata'r Adnodd Data Cenedlaethol | | | | |
| System Unwaith i Gymru ar gyfer dal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data[1] yn electronig, llifau gwybodaeth a chytundebau ar gyfer ategu Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth yr Adnodd Data Cenedlaethol – sy'n agored i Fyrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd ac Awdurdodau Lleol | | | | | |

[1] Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data

# Cenhadaeth 1

Darparu platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol

## Ysgogwyr

- Adolygiad o Seilwaith TG Cymru Gyfan (AWIIR) 2020
- Cymru Iachach 2019
- Strategaeth Cwmwl 2022 Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Cyfarwyddeb Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth (NIS) 2018
- Fframwaith Sicrwydd Seiber (FfAC)
- System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ISO27001

## Canlyniadau

- Cynyddu hyder a ffydd gan ein partneriaid i ddarparu gwasanaethau digidol dibynadwy o safon, yn enwedig systemau clinigol hanfodol
- Gall cynyddu (neu ostwng) cynhwysedd storio yn gyflym iawn gyda'r Cwmwl olygu hyblygrwydd yn wyneb galw amrywiol
- Arbed costau cyfalaf gyda'r Cwmwl
- Symud i weithgareddau gwerth uchel gyda'r Cwmwl yn hytrach na chynnal a chadw lefel isel arferol
- Cynyddu dibynadwyedd ac argaeledd gwasanaethau gyda'r Cwmwl
- Cynyddu amddiffyniad seiber rhagweithiol ac ymatebion prydlon

## Piblinell

- Pontio i'r cwmwl
- Datrysiadau diogelwch

# Portffolio 1.4: Seilwaith Cynaliadwy a Diogel

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Trosglwyddo i'r Cwmwl**. Datblygu cynllun ac achos busnes Cwmwl, gan flaenoriaethu gwasanaethau presennol sy'n 'addas i'r cwmwl' a sicrhau agwedd 'cwmwl yn gyntaf' at ddylunio a datblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Mudo gwasanaethau cychwynnol lle gellir sicrhau cyllid. | | | | Symud gwasanaethau i'r Cwmwl yn unol â'r cynllun | Symud gwasanaethau i'r Cwmwl yn unol â'r cynllun |
| Gweithredu prosesau ar gyfer monitro ac optimeiddio'r defnydd o'r **cwmwl** yn barhaus | | | | Optimeiddio'n barhaus a manteisio ar gyfleoedd i gofleidio gwasanaethau cwmwl ymhellach | |
| Sefydlu **tîm rheoli gweithredol aml-gwmwl** | | | | | |
| **Rheoli Cylch Bywyd.** Rheoli'r gwaith o fudo llwythi gwaith o seilwaith sy'n heneiddio a datgomisiynu systemau sy'n heneiddio | | | | | |
| **Datblygu** strategaeth seilwaith ymhellach i ddiwallu anghenion cynyddol y gwasanaeth ac adlewyrchu datblygiadau technolegol. | | | | | Waliau tân a Windows newydd |
| Paratoi i symud i'r **ganolfan ddata newydd** | | | Symud gwasanaethau i'r **ganolfan ddata newydd** | | Ystyried opsiynau am ganolfan ddata |
| **Seiberddiogelwch** Parhau i sicrhau, profi a monitro gwasanaethau byw a gwasanaethau datblygol i sicrhau gwasanaethau cryf, diogel a chadarn ar draws GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys Profion Hacio, Rheoli Gwendidau a Sicrwydd i'r Gadwyn Gyflenwi. | | | | | |
| **Seiberddiogelwch** Cefnogi sefydliadau GIG Cymru i wella eu rheolaethau seiberddiogelwch yn barhaus a chynnal asesiad cenedlaethol o allu GIG Cymru i ymateb i ddigwyddiad seiber mawr | | | | | |
| Gweithredu datrysiadau gwella **Seiber** | | | | | |
| **Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth (NIS).** Bydd yr Uned Seibergadernid annibynnol, fel awdurdod dirprwyedig gan Weinidogion Cymru, yn archwilio ac yn cefnogi Byrddau Iechyd yng Nghymru ynghyd ag adrodd ar ymlyniad cenedlaethol at y Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth. | | | | | |
| Gwasanaethau Cleientiaid - rhaglen adnewyddu cyfrifiaduron meddygon teulu a gweithredu'r gwasanaeth argraffu a reolir gan feddygon teulu | | | | Rhaglen Adnewyddu Cyfrifiaduron Meddygon Teulu | |
| Gwasanaethau Cleientiaid - Gweithredu datrysiad canolfan gyswllt teleffoni Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn y cwmwl a darparu datrysiad cyfrifiadurol Cwmwl | | | | | |

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Digital Health and Care Wales



# Cenhadaeth 2

## DARPARU cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

Portffolios

1. Iechyd y Cyhoedd
2. Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl
3. Gofal wedi'i Gynllunio
4. Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
5. Diagnosteg
6. Meddyginiaethau

# CENHADAETH 2: DARPARU CYNHYRCHION A GWASANAETHAU DIGIDOL O ANSAWDD UCHEL – Portffolios

Mae'r portffolios yn y genhadaeth hon yn cwmpasu disgyblaethau clinigol a lleoliadau gofal mawr, a'r systemau arbenigol cenedlaethol allweddol y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn eu hadeiladu neu'n eu caffael ar ran GIG Cymru.

## CYD-DESTUN

Ar draws y lleoliadau a'r arbenigeddau hyn, mae llawer o gyfleoedd i 'ddylunio llwybrau mwy holistaidd ac effeithlon sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn, yn hytrach na bod cleifion yn cael eu gweld gan lawer o dimau gwahanol gan ganolbwyntio ar un agwedd yn unig ar eu hanghenion iechyd' (Y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol). Mae dulliau digidol yn cefnogi'r rhaglenni trawsnewid allweddol a sefydlwyd i gyflawni'r weledigaeth hon.

## PORTFFOLIO 2.1 Iechyd y Cyhoedd

Nod strategaeth Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru yw gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig yng ngoleuni heriau megis poblogaethau sy'n heneiddio, cyflyrau hirdymor, gwahaniaethau mewn cyfoeth, a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg fel ymwrthedd gwrthficrobaidd a chlefydau heintus.

- Byddwn yn parhau i gyflawni unrhyw ofynion arfaethedig ynghylch Covid-19 wrth iddynt godi drwy System Imiwneiddio Cymru
- Byddwn yn gwneud gwaith darganfod ynghylch opsiynau digidol ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Brechlynnau genedlaethol.
- Byddwn yn cefnogi gofynion gwasanaeth sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Mae hyn yn golygu y** bydd dulliau digidol yn cefnogi'r gwaith o gasglu data cyson, safonol ar gyfer trefnu apwyntiadau, cofnodi gweithgarwch, ac ati, sydd yn ei dro yn golygu diagnosis cynharach a chyflymach i wella canlyniadau goroesi.

## PORTFFOLIO 2.2 Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl

Nod y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yw rhoi mynediad i bobl at wasanaethau di-dor a ddarperir mor agos at eu cartref â phosibl, gyda ffocws ar wasanaethau a gweithgareddau yn y gymuned, gan adeiladu ar glystyrau cymunedol lleol. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheoli contract systemau meddygon teulu, ac maent wedi adeiladu, caffael neu a/neu reoli rhaglen systemau ar gyfer fferyllwyr cymunedol, deintyddion a staff iechyd cymunedol, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol.

- Byddwn yn integreiddio systemau gyda System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Byddwn yn gweithio ar safonau data meddygon teulu
- Byddwn yn parhau i weithio ar gontract systemau meddygon teulu yn ôl y gofyn
- Byddwn yn bartner digidol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol


**Mae hyn yn golygu** rhannu data ansawdd yn ddiogel rhwng iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn genedlaethol a chyfleoedd am ddadansoddi a chael gwybodaeth am dueddiadau a thagfeydd gofal sylfaenol.

## PORTFFOLIO 2.3 Gofal wedi'i Gynllunio

Nod y weledigaeth ar gyfer gofal wedi'i gynllunio yng Nghymru yw diwallu anghenion clinigol y claf yn well, o atgyfeirio effeithiol i gael at driniaeth briodol ar yr amser ac yn y lle cywir. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn chwarae rhan yn hyn trwy gynorthwyo â gweinyddu cleifion ar hyd eu taith ofal, trwy systemau fel ein System Gweinyddu Cleifion Cymru a blaenoriaethu atgyfeiriadau yn electronig, ynghyd â safoni setiau data craidd a darparu dadansoddiad a gwybodaeth ar gyfer ailddylunio gwasanaethau.

- Byddwn yn gweithredu ein map ffordd ar gyfer System Gweinyddu Cleifion Cymru
- Byddwn yn caffael system famolaeth genedlaethol
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar system gofal llygaid
- Byddwn yn cydgysylltu data ar draws y ffin â Lloegr

**Mae hyn yn golygu** golwg fwy cydgysylltiedig o weithgarwch gofal, gan gynnwys gofal mamolaeth a gofal llygaid.




## PORTFFOLIO 2.4 Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Mae'r Chwe Nod ar gyfer y Rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng wedi'u blaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru er mwyn deall '*sut olwg sydd ar yr hyn sy'n dda*' i gleifion sy'n mynd i Adran Argyfwng.

Bydd hyn yn gofyn am greu Set Ddata Gofal mewn Argyfwng Cymru (WECDS) i gytuno ar safonau gofal, dull unffurf o fesur gweithgarwch a model gofal y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer adrannau argyfwng fel y gellir sicrhau'r canlyniadau clinigol gorau a'r profiad gorau i gleifion a staff. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi bod yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno system o'r enw system Adrannau Argyfwng Cymru.

- Byddwn yn datblygu Set Ddata Gofal Argyfwng Cymru
- Byddwn yn gweithio ar y camau nesaf ar gyfer System Adrannau Argyfwng Cymru
- Byddwn yn cydgysylltu data â Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Byddwn yn cyflwyno system wybodaeth gofal dwys

**Mae hyn yn golygu** bod gan glinigwyr gofal mewn argyfwng fynediad at y wybodaeth gywir i helpu brysbennu a chyfeirio cleifion at y gwasanaethau cywir. Bydd clinigwyr gofal dwys yn defnyddio llai o bapur a bydd ganddynt olwg well ar gapasiti ac amrywiadau ledled Cymru.




## PORTFFOLIO 2.5 Diagnosteg

Mae'r gwasanaethau diagnostig yng Nghymru yn wynebu heriau oherwydd galw cynyddol, newidiadau mewn gofal clinigol, diffyg safoni a phrinder arbenigedd. Nod GIG Cymru yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau drwy ad-drefnu gwasanaethau a darparu diagnosis yn nes at y claf. Mae technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio i wireddu gwelliannau o ran darparu gwasanaethau, diogelwch cleifion, cyfathrebu, cyfraddau gwallau, costau a defnyddio data sydd yn ei dro yn cefnogi deallusrwydd artiffisial.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio i gefnogi'r gwaith o integreiddio datrysiadau gwybodeg labordy a radioleg newydd, ehangu ymarferoldeb ceisiadau electronig, a gwella argaeledd cenedlaethol canlyniadau diagnostig ac adroddiadau mewn ystorfeydd cenedlaethol.

- Byddwn yn cyflwyno'r system gwybodaeth labordy newydd (LINC), tra'n rhedeg gwasanaethau presennol (WLIMS) a chynllunio i'w datgomisiynu ar yr un pryd
- Byddwn yn cynorthwyo â chyflunio a chyflwyno'r system radioleg newydd (RISP).
- Byddwn yn cefnogi datblygiad yr achos busnes ar gyfer Patholeg Gellog Ddigidol.
- Byddwn yn parhau i sicrhau bod adroddiadau diagnosteg newydd ar gael drwy ein hystorfeydd cenedlaethol

**Mae hyn yn golygu** Gwell mynediad at ganlyniadau profion, gan wella gofal a diogelwch clinigol cleifion. Gwell rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau a gwell datrysiadau ar gyfer storio a dosbarthu delweddau.

## PORTFFOLIO 2.6 Meddyginiaethau

*Mae Fferylliaeth, Cyflawni Cymru Iachach* 2019, yn disgrifio 'Mae'r trawsnewidiad ei angen i wneud y gorau o'r cynnydd mewn iechyd ar gyfer dinasyddion Cymru sydd yn deillio o ryngweithio â'r proffesiwn fferyllol.' Ar y cyd â hyn mae ymdrech i sicrhau mwy o werth a chanfod arbedion effeithlonrwydd mewn costau. Bydd Rhaglen Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol yngwneud rhagnodi, dosbarthu a gweinyddu meddyginiaethau ym mhobman yng Nghymru yn haws, yn fwy diogel, yn fwy effeithlon ac effeithiol, drwy ddull digidol.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu Dewis Fferyllfa i fferyllwyr cymunedol, sy'n ategu'r nod o leddfu'r pwysau ar wasanaethau meddygon teulu. Mae'n cysoni meddyginiaethau'n ddigidol rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, ynghyd â darparu modiwlau ar anhwylderau cyffredin, brechu rhag y ffliw, meddyginiaethau brys a mwy.

Hefyd, rydym yn rhedeg system rheoli stoc meddyginiaethau, ac mae llawer o'n systemau yn cofnodi ac yn rhannu data meddyginiaethau, e.e. Porth Clinigol Cymru – Trawsgrifio Meddyginiaethau a Rhyddhau Electronig.

Gweler hefyd: Y sbotolau ar Drawsnewid Meddyginiaethau'n Ddigidol ar gyfer cyflawniadau allweddol y rhaglen fawr hon.

**Mae hyn yn golygu** galluogi moderneiddio'r rheolaeth ar feddyginiaethau, lleihau gwallau dosbarthu a gwella canlyniadau.

# CENHADAETH 2: FFOCWS AR …

## SYSTEM WYBODAETH GOFAL CYMUNEDOL CYMRU

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn system ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n rhoi'r offer digidol sydd eu hangen ar nyrsys cymunedol, timau iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion i gydweithio'n well. Mae'n galluogi mynediad at wybodaeth berthnasol am y gofal a ddarperir, i weithwyr proffesiynol eraill, er mwyn dangos ym mha gam y mae claf gyda'i driniaeth.

Pan gaiff ei gweithredu'n llawn ledled Cymru, bydd yn goresgyn y rhwystrau a wynebir pan fydd sefydliadau'n defnyddio systemau TG gwahanol, gan storio'n ddiogel wybodaeth bwysig sy'n cwmpasu ystod o weithgareddau fel nyrsio yn y gymuned, ymweliadau iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, anableddau dysgu, camddefnyddio sylweddau, anghenion gofal cymhleth neu therapi gofal cymdeithasol. Mae 19 o 29 o sefydliadau bellach yn fyw ar y system ac yn gweld manteision gweithio cydgysylltiedig. O blith saith bwrdd iechyd, mae pedwar yn fyw (Powys, Hywel Dda, Betsi Cadwaladr, Aneurin Bevan); mae 15 Awdurdod Lleol yn fyw.

Mae'r rhaglen yn gweithio drwy argymhellion o adolygiad strategol gan gynnwys symleiddio mecanweithiau llywodraethu rhaglenni, trosglwyddo perchnogaeth rheolaeth weithredol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru, creu map ffordd technoleg, gosod egwyddorion dylunio a gwella cydweithio rhwng rhanddeiliaid gan ddefnyddio'r sgiliau a'r profiad ledled Cymru i gryfhau'r gwaith o ddylunio a darparu'r rhaglen yn y dyfodol.

Mae'r Rhaglen wedi ennill gwobrau am ddelweddu data iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys dylunio data Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae gwaith arall ar setiau data yn cynnwys Iechyd Meddwl, Defnyddio Sylweddau, a Nyrsio Ardal.



Gallaf ddechrau gweld data am ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol ledled Cymru, y mae llawer ohono ar gael ar bapur neu ar gael yn lleol yn unig ar hyn o bryd.

**Sy'n golygu:** Gallaf nodi tueddiadau a gwybodaeth o ddata, sy'n fy ngalluogi i wella'r gwasanaeth a rhannu pryderon am bobl agored i niwed.

**Rheolwr**

### Sbotolau ar 2023-26

- Cyflawni argymhellion yr adolygiad strategol gan gynnwys model rheoli gwasanaeth newydd
- Penderfynu ar fap ffordd strategol y rhaglen
- Integreiddiadau gyda systemau cenedlaethol eraill
- Gweithredu, gwella ac ehangu'r datrysiad
- Datblygu setiau data pellach

## MAMOLAETH DDIGIDOL CYMRU

Ar hyn o bryd, mae llawer o wasanaethau mamolaeth yn dal i ddefnyddio papur yn bennaf. Mae hyn yn golygu mai prin yw amlygrwydd y cofnod clinigol wrth i fenywod symud ar draws ffiniau sefydliadol a chenedlaethol. Mae hyn yn arwain at lai o bartneriaeth rhwng clinigwyr a menywod yn eu gofal, a diffyg adroddiadau rheoli cyson, cywir a dibynadwy. Ni all cleifion fod yn sicr bod eu gofal mor ddiogel ac effeithiol ag y mae angen iddo fod, ac nid yw clinigwyr mamolaeth yn cael cymaint o gymorth ag y gallent ei gael, i ddarparu gofal o'r ansawdd y gwyddant sydd ei angen.

Gweledigaeth Rhaglen Mamolaeth Ddigidol Cymru yw 'gwella diogelwch, effeithiolrwydd, cysondeb ac ansawdd gwasanaethau mamolaeth lle bynnag y bydd menywod yn dewis cael gofal' a bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gaffael a gweithredu un system famolaeth genedlaethol a chofnod mamolaeth personol ac ap trwy ddyfeisiau symudol.

Bydd y system famolaeth newydd yn integreiddio â seilwaith digidol craidd GIG Cymru ac yn rhan o'r cofnod clinigol sengl ar gyfer Cymru.

### Sbotolau ar 2023-26

- Bydd rhaglen a strwythur llywodraethu yn cael eu sefydlu o fis Ebrill 2023 ymlaen gyda ffrydiau gwaith caffael, safoni fframwaith clinigol ac integreiddio i ddilyn, a rhagwelir y byddant yn cael eu rhoi ar waith o 2024/25 ymlaen.

## SYSTEM WYBODAETH GOFAL DWYS CYMRU

Mae Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni ar gyfer Cleifion Difrifol Wael yn darparu fframwaith strategol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol. Mae'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru wrth ddarparu gofal critigol o ansawdd uchel, gan sicrhau bod y claf cywir yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Bydd dulliau digidol yn cefnogi amcanion y cynllun trwy ddileu siartiau papur, gwella gwybodaeth busnes am gapasiti ac argaeledd gwelyau, a datblygu arferion safonol i leihau amrywiadau. Bydd gwella ansawdd data a monitro cleifion yn well yn helpu i ryddhau cleifion yn amserol o ofal dwys.

Rheolodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru'r broses o gaffael system wybodaeth gofal critigol genedlaethol ar gyfer GIG Cymru am gyfnod o saith mlynedd. Bydd yn galluogi staff ar draws 14 uned gofal critigol oedolion Cymru i reoli gofal yn electronig.

Bydd y prosiect yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu ymgysylltiad a chydweithio â'r gymuned gofal critigol a chyflenwr y system i roi system Uned Therapi Dwys glinigol gadarn ar waith.

### Sbotolau ar 2023-26

- Cwblhau gwaith datblygu a phrofion er mwyn lansio datrysiad addas yn ôl cynnyrch isafol hyfyw
- Dechrau mynd yn fyw ar Safle Mabwysiadu'n Gynnar, yna pob uned gofal critigol i oedolion ledled Cymru
- Darparu hyfforddiant a sicrwydd i gydweithwyr gofal critigol a chynyddu ymwybyddiaeth

Rwy'n edrych ymlaen at lai o siartiau papur a gwell syniad o gapasiti gwelyau ac amrywiaeth ledled Cymru
**Sy'n golygu** y gallaf rannu fy ngwybodaeth a fy nghanfyddiadau gyda chydweithwyr i helpu i wella effeithlonrwydd gwasanaethau a gwella canlyniadau i gleifion.
**Arbenigwr Gofal Dwys**



## SYSTEM ADRANNAU ARGYFWNG CYMRU

Mae'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn rhaglen genedlaethol sydd wedi'i blaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru er mwyn deall *'sut olwg sydd ar yr hyn sy'n dda' i gleifion sy'n mynd i Adran Argyfwng*. Data allweddol a deilliannau digidol yw creu Set Ddata Gofal mewn Argyfwng Cymru (WECDS) er mwyn cytuno ar safonau gofal a system adrannau argyfwng.

Mae GIG Cymru yn gweithredu System Adrannau Argyfwng Cymru (WEDS). Iechyd a Gofal Digidol Cymru sy'n gyfrifol am gynnal y seilwaith, integreiddio â systemau cenedlaethol eraill a rheoli'r contract cenedlaethol. Mae'r system wedi mynd yn fyw ar y safle cyntaf ym Mae Abertawe. Y buddion allweddol yw:

- Gwella'r gallu i gofnodi data clinigol strwythuredig ac ailddefnyddio'r data hwnnw at ddibenion rheoli gweithredol, archwilio a chynllunio gwell
- Statws olrhain a brysbennu byw cleifion yn yr adran argyfwng
- Cefnogi llwybr cleifion integredig effeithlon drwy'r adran argyfwng
- Gwella'r wybodaeth glinigol a gweithredol sydd ar gael

### Sbotolau ar 2023-26

- Ystyried y casgliadau o adolygiad o gynnydd ac ymarferoldeb hyd yma

Bydd mynediad at ddata yn gwneud fy Adran Argyfwng yn effeithlon trwy gefnogi llif cleifion drwy'r system gofal iechyd
**Sy'n golygu** y gallaf gyfeirio gwasanaethau gofal yn briodol a gwella canlyniadau i gleifion
**Meddyg Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys**



## RHAGLENNI DIAGNOSTEG DIGIDOL

**System labordy**: Mae rhaglen Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC) wedi cwblhau proses gaffael system labordy yn lle'r system bresennol, sy'n dod i ddiwedd ei chontract. Mae hon yn rhaglen drawsnewidiol i gefnogi darparu gwasanaeth patholeg modern, cynaliadwy a diogel fel rhan o Ddatganiad o Fwriad Patholeg.

Trosglwyddodd rhaglen LINC i Iechyd a Gofal Digidol Cymru o Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru ym mis Ionawr 2023.


### Sbotolau ar 2023-26

- Mae'r Rhaglen bellach yn cael ei dylunio, cyn ei chwblhau a'i chyflwyno yn 2025/26.



Byddaf yn rhannu delweddau gyda chydweithwyr ledled Cymru a fydd yn cefnogi ffyrdd eraill o weithio i glinigwyr
Sy'n golygu llai o deithio, helpu gyda phrinder staff a bod cleifion angen llai o ymbelydredd
**Arbenigwyr Diagnosteg**

Gallaf weld yr holl feddyginiaethau a ragnodwyd ar gyfer y claf
Sy'n golygu fy mod yn fwy gwybodus wrth wneud penderfyniadau ar eu triniaeth
**Clinigydd**



Gallaf weld ble a phryd y mae cleifion wedi cael profion gwaed
Sy'n golygu efallai na fydd yn rhaid i mi gymryd mwy o waed gan y claf ac y gallaf ddechrau ei drin yn gynt
**Clinigydd**



**System radioleg**: Mae delweddu diagnostig modern yn allweddol i ddiagnosis a thriniaeth yng ngofal modern cleifion. Mae gwasanaethau radioleg bob amser wedi cael eu darparu o ystod eang o leoliadau gofal iechyd, ym mhob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth ledled Cymru, ond bydd datblygu canolfannau diagnostig rhanbarthol yn y dyfodol yn ehangu ystod y gwasanaethau a ddarperir y tu hwnt i amgylcheddau arferol ysbytai.

Nod y Rhaglen Gaffael System Gwybodeg Radioleg(RISP) yw prynu a gweithredu system newydd sy'n cyfuno archifo lluniau a chyfathrebu, rheoli dosau cleifion a rheoli gwybodaeth radioleg mewn un system a fydd yn cael ei chyflwyno ledled Cymru erbyn 2026. Trosglwyddwyd rhaglen RISP i Iechyd a Gofal Digidol Cymru o Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru ym mis Ionawr 2023 a bydd cynllunio a chyflwyno yn dilyn.

### Sbotolau ar 2023-26

- Cwblhau'r cam caffael, cynllunio gweithgarwch y rhaglen a'i chyflwyno'n genedlaethol

## TRAWSNEWID GWEINYDDU MEDDYGINIAETHAU'N DDIGIDOL

Nod y portffolio hwn yw gwneud rhagnodi, dosbarthu a gweinyddu meddyginiaethau ym mhobman yng Nghymru yn haws, yn fwy diogel, yn fwy effeithlon ac effeithiol, ar gyfer cleifion a gweithwyr proffesiynol, drwy ddull digidol.

*'Drwy raglen e-Ragnodi, gallwn wella a digideiddio sut mae cleifion, clinigwyr, a fferyllwyr yn cael mynediad at y ddarpariaeth o feddyginiaethau ar draws y system iechyd, er mwyn ei rheoli. Bydd hyn yn cynnwys: cleifion yn cael mynediad at feddyginiaethau, clinigwyr yn rhagnodi meddyginiaethau, fferyllwyr yn rhoi sicrwydd ac yn gweinyddu presgripsiynau, ac awdurdodau monitro yn archwilio ac yn prisio meddyginiaethau.' Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.* Mae rhoi cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth wraidd ein cynllun yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau effeithiol sy'n gweithio i'r bobl sy'n eu defnyddio. Bydd y gwaith cyffrous hwn yn trawsnewid rhagnodi yng Nghymru.

Mae'r portffolio'n cydlynu pedwar maes gwaith gwahanol, pob un yn elfen allweddol o gyflawni'r weledigaeth:

### Gwasanaeth Rhagnodi Electronig Gofal Sylfaenol

Llofnodi a throsglwyddo presgripsiynau'n electronig o feddygon teulu a rhagnodwyr anfeddygol i'r fferyllfa gymunedol neu ddosbarthwr dyfeisiau o ddewis yr unigolyn.

### Rhagnodi Electronig a Gweinyddu Meddyginiaethau Gofal Eilaidd

Rhoi e-ragnodi a gweinyddu meddyginiaethau ar waith ym mhob ysbyty yn GIG Cymru. Anfon presgripsiynau cleifion allanol i fferyllfa o ddewis yr unigolyn.

### Mynediad i Gleifion

Defnyddio Ap GIG Cymru i archebu presgripsiynau rheolaidd, enwebu fferyllfa o ddewis yr unigolyn a rhannu a chasglu gwybodaeth am feddyginiaethau.

### Cofnod Meddyginiaethau a Rennir

Adeiladu un cofnod o feddyginiaethau ar gyfer pob claf yng Nghymru fel bod yr holl wybodaeth mewn un lle ac yn hawdd ei rhannu pan fo angen.

### Sbotolau ar 2023-26

- Prawf Technegol o Gysyniad ar gyfer anfon presgripsiynau meddygon teulu yn ddigidol i fferyllfa gymunedol enwebedig claf
- Cefnogi byrddau/ymddiriedolaethau iechyd i gaffael systemau rhagnodi a gweinyddu meddyginiaethau yn electronig mewn ysbytai o'r fframwaith aml-werthwr
- Datblygu'r Cofnod Meddyginiaethau a Rennir



# Cenhadaeth 2

Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

## Ysgogwyr

- Cynllun Strategol 2022-2025 Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: Covid-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig – Mawrth 2022
- Fframwaith Cenedlaethol Imiwneiddio Cymru 2022 / Rhaglen Trawsnewid Brechlynnau

## Canlyniadau

- Sicrhau platfform technoleg ymatebol a chynaliadwy y gall defnyddwyr ddibynnu arno
- Darparu gwasanaethau digidol a data i raglenni sgrinio sydd â'r nod o wneud diagnosis cyflymach er mwyn gwella canlyniadau goroesi
- Helpu i ddangos sut mae gweithredoedd iechyd y cyhoedd yn effeithio ar drosglwyddo feirysol

# Portffolio 2.1: Iechyd y Cyhoedd

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsnewid Brechlynnau** Ymgymryd â gwaith darganfod ar sut y gall dulliau digidol gefnogi gofynion y rhaglen trawsnewid brechlynnau genedlaethol | | Gweithredu canlyniadau gwaith darganfod y rhaglen trawsnewid brechlynnau, yn amodol ar gyllid | | | |
| **Covid.** Cefnogi gofynion arferol ac arfaethedig Covid | | | | | |
| **Moderneiddio platfformau digidol.** Uwchraddio systemau sgrinio newydd-anedig. | | | | *Gweler hefyd* ***Portffolio 3.2 Ymgysylltu â Defnyddwyr: Cleifion a'r Cyhoedd*** *am amcanion hunanreoli iechyd a llesiant* | |
| Moderneiddio Platfform Digidol: Uwchraddio ymarferoldeb y System Iechyd Plant. | | | | | |
| **Adfer Sgrinio Cenedlaethol.** Cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi ei flaenoriaethau ar waith, megis ymestyn ystod oedran profion sgrinio'r coluddyn, integreiddio â datrysiad sgrinio serfigol Iechyd Cyhoeddus Cymru a chefnogi rhaglen sgrinio ymlediad aortig abdomenol | | | | | |

# Cenhadaeth 2

Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

## Ysgogwyr

- Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Model Gofal Sylfaenol Cymru
- Diwygio Contract Gofal Sylfaenol y GIG

## Canlyniadau

- Deillio gwybodaeth o ddata trwy ddadansoddeg integredig ac estynedig
- Galluogi trosglwyddo a rhannu cofnodion cleifion cyfoethog o ran data a dileu'r angen am drosglwyddo cofnodion meddygol papur rhwng practisiau meddygon teulu
- Galluogi gwneud y penderfyniadau gorau posibl ar sail gwybodaeth safonol a rennir rhwng iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol
- Mwyhau gwerth gwasanaethau iechyd sylfaenol - Dewis Fferyllfa yn cefnogi symud gweithgarwch oddi wrth feddygon teulu

# Portffolio 2.2: Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **System gymunedol genedlaethol.** Cychwyn cyflwyno argymhellion yr Adolygiad Strategol | | | | Camau gweithredu'r Adolygiad Strategol ar gyfer adnewyddu / caffael system | Camau gweithredu'r Adolygiad Strategol ar gyfer adnewyddu / caffael system |
| **System gymunedol genedlaethol:** Cyflawni'r integreiddio rhwng System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a systemau cenedlaethol eraill | | | | | |
| **System gymunedol genedlaethol:** Diffinio safonau digidol cenedlaethol ar gyfer y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau iechyd meddwl | | | | | |
| **Dewis Fferyllfa.** Moderneiddio platfform technoleg y datrysiad Dewis Fferyllfa ar gyfer fferyllfeydd cymunedol | | Gweler hefyd ***Portffolio 2.6 Meddyginiaethau*** ar gyfer trosglwyddo presgripsiynau'n electronig o feddygon teulu i fferyllwyr cymunedol | | | |
| **Dewis Fferyllfa.** Cynnal system. | | | | | |
| **Partner Digidol Gofal Sylfaenol** - mapio arlwy llawn ein gwasanaeth systemau a gwasanaethau data, llywodraethu gwybodaeth, seilwaith a digidol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ffrwd waith Digidol a Data a Datblygiad Clwstwr Carlam ar draws gofal sylfaenol yng Nghymru, mewn partneriaeth â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | | | | Partner Digidol Gofal Sylfaenol | Partner Digidol Gofal Sylfaenol |
| **Partner Digidol Gofal Cymunedol**. Cynllunio cydgysylltu data ar draws gwasanaethau cymunedol ac iechyd meddwl integredig i ddatblygu cipolygon data trwy ddadansoddeg well. | | | | Partner Digidol Gofal Cymunedol | Partner Digidol Gofal Cymunedol |
| *Gweler hefyd **Portffolio 1.2 Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu** ar gyfer adolygiad a map ffordd Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru* | | | | | |
| | **Datblygiad systemau meddygon teulu yn ôl y gofyn Cymru gyfan** - cefnogi dewis o systemau gofal sylfaenol a'u cysoni â'r platfform iechyd digidol agored | | Nodi cyflenwr dewisol systemau meddygon teulu Cymru gyfan | Mudo systemau meddygon teulu | Mudo systemau meddygon teulu |
| **Safonau Terminoleg Data Meddygon Teulu –** Pontio o godio READ etifeddol o fewn systemau clinigol practisiau meddygon teulu i SNOMED CT. Sicrhau'r effaith leiaf bosibl ar gymwysiadau cenedlaethol integredig a gwasanaethau gwybodaeth. | | | **Safonau Data Meddygon Teulu** Parodrwydd | **Safonau data meddygon teulu** Gweithredu | **Safonau data meddygon teulu** Gweithredu |

# Cenhadaeth 2

Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

## Ysgogwyr

- Pum Nod ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio / Trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros y GIG
- Dull gofal iechyd y llygaid GIG Cymru yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau optometreg

## Canlyniadau

- Cynorthwyo'r GIG i ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r angen clinigol mwyaf
- Cefnogi cynnydd yng nghapasiti'r gwasanaeth iechyd, e.e. canolfannau rhanbarthol, gofal yn nes at y cartref
- Cefnogi trawsnewid gwasanaethau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy, e.e. trawsnewid cleifion allanol, dulliau teg o flaenoriaethu cleifion
- Mae digideiddio a blaenoriaethu atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn gwella cyflymder a diogelwch
- Darlun llawnach o iechyd cleifion trawsffiniol Cymru/Lloegr
- Cynyddu amlygrwydd y cofnod mamolaeth wrth i fenywod symud ar draws ffiniau sefydliadol a chenedlaethol

## Piblinell

- Awdioleg Ddigidol i Gymru

# Portffolio 2.3: Gofal wedi'i Gynllunio

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal wedi'i Gynllunio** | | | | | |
| Moderneiddio data **System Gweinyddu Cleifion Cymru i gefnogi trawsnewid gwasanaethau cleifion allanol (dermatoleg)** (Chwarter 1–3) | | | | | |
| | Safoni **data gweinyddu cleifion** megis codau swyddogaeth triniaeth ar gyfer yr holl systemau gweinyddu cleifion ledled Cymru. (Chwarter 2–3) | | | | |
| **System Gweinyddu Cleifion Cymru:** Cydgysylltu fersiynau ar wahân o'n system gweinyddu cleifion ar draws Gogledd Cymru | **Newid ffiniau.** Cynorthwyo byrddau iechyd Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe â chyflunio systemau yr effeithiodd newid i ffiniau'r byrddau iechyd arnynt (Chwarter 2–2024/25) | | | | |
| **System Gweinyddu Cleifion Cymru:** Cyflwyno swyddogaeth Tîm Amlddisgyblaethol | | | | **System Gweinyddu Cleifion Cymru** – Swyddogaeth llythyrau (2024/25–2025/26) | |
| **Atgyfeiriadau o ysbyty i ysbyty.** Sicrhau effeithlonrwydd llwybrau trwy wneud y mwyaf o allbwn o'n datrysiad atgyfeirio cleifion (Chwarter 1–3) | | | | | |
| **Systemau arbenigol** | | | | | |
| **Mamolaeth.** Caffael system Cymru Gyfan a chynllunio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau mamolaeth yn ddigidol (Chwarter 1–4) | | | | **Gweithredu a chymorth** mamolaeth (2024/25–2025/26) | |
| | | | **Teledermosgopi**: Casglu gofynion ar gyfer storio delweddau | | |
| **System Genedlaethol Gofal Llygaid**. Gweithio gyda phartneriaid i adolygu allbynnau'r Adolygiad Porth a chadarnhau'r trefniadau pontio | Gweithredu trefniadau pontio'r adolygiad porth gofal llygaid (Chwarter 2–4) | | | | |
| **Rhannu cofnodion cleifion** ar draws ffiniau o Bowys gyda Lloegr ac o Loegr (Chwarter 1–2024/25) | | | | | |

## Cenhadaeth 2

Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

## Ysgogwyr

- Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofalu am Gleifion Difrifol Wael (2021)

## Canlyniadau

Mae gwell mynediad, argaeledd a dadansoddiad ar gyfer data gofal heb ei drefnu rhwng lleoliadau gofal yn cefnogi'r Rhaglen Chwe Nod, h.y.:

- Cefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o fod angen gofal brys a gofal mewn argyfwng
- Dywedir wrth bobl ble y gallant gael y cymorth sydd ei angen arnynt
- Dewisiadau eraill heblaw ysbytai
- Ymateb yn gyflym mewn argyfwng iechyd
- Mae pobl yn cael y gofal gorau yn yr ysbyty a phan fyddant yn gadael
- Gartref lle bo modd

Ymhlith yr enghreifftiau mae data Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, y gall clinigwyr eraill ei weld trwy Borth Clinigol Cymru a sefydlu'r mecanwaith i ganiatáu i ddata meddygon teulu gael ei rannu â WAST, gan helpu i leihau trosglwyddiadau diangen.

# Portffolio 2.4: Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mentrau heb eu trefnu. Cyflawni **gofynion integreiddio ar gyfer y gwasanaeth** 111. | | | | | |
| **Set Ddata Gofal mewn Argyfwng Cymru**: Cynhyrchu set ddata Cymru cyn ei rhoi ar waith mewn systemau cenedlaethol | | | | | |
| **System Adrannau Argyfwng Cymru**: Adolygu allbynnau adolygiad strategol System Adrannau Argyfwng Cymru | **System Adrannau Argyfwng Cymru** Gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt ledled Cymru | | | | |
| **Gofal Dwys**: Gweithredu system glinigol i ddigideiddio a thrawsnewid Unedau Gofal Dwys ledled Cymru | | | | | |

# Cenhadaeth 2
Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

## Ysgogwyr
- Datganiad o Fwriad Patholeg - Datblygu gwasanaethau Patholeg effeithiol a chadarn o ansawdd uchel
- Datganiad o Fwriad Delweddu - Dull strategol newydd o ddatblygu gwasanaethau delweddu effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer GIG Cymru

## Canlyniadau
- Gwell mynediad at ganlyniadau profion, gan wella gofal cleifion a chyfrannu at ddiagnosis cynharach ac ataliol
- Gwella diogelwch clinigol
- Gwella perfformiad gwasanaeth.
- Gwella rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau a datrysiad unigol ar gyfer storio a dosbarthu delweddau.

## Piblinell
- Integreiddiadau yn y man lle rhoddir gofal
- Integreiddio iechyd anadlol: profion swyddogaeth yr ysgyfaint gofal eilaidd, profion swyddogaeth yr ysgyfaint gofal sylfaenol (Spirometreg), adrodd ar brofion yr ysgyfaint gofal eilaidd
- Integreiddiadau geneteg
- Patholeg gellog ddigidol
- Cynnig PACS Cardiaidd
- Storfa ddelweddau genedlaethol

# Portffolio 2.5: Diagnosteg

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **System Rheoli Gwybodaeth Labordy genedlaethol newydd (LINC).** Cyflunio, adeiladu, profi a pharodrwydd ar gyfer ei chyflwyno'n genedlaethol. | | | | Dechrau cyflwyno LINC | Cwblhau cyflwyno LINC |
| **Y system rheoli labordy bresennol (WLIMS).** Ei chynnal a chynllunio i'w datgomisiynu, gan gynnwys darparu data etifeddol. | | | | Rhedeg WLIMS ar y cyd â LINC | Datgomisiynu WLIMS |
| **Datrysiad** Gwybodeg Radioleg (RISP) newydd Cwblhau ei gaffael ac achos busnes llawn | **Datrysiad Gwybodeg Radioleg newydd.** Cyflunio, adeiladu, profi a pharodrwydd y system newydd i'w chyflwyno'n genedlaethol gan gynnwys datrysiadau Archifo Lluniau (PACS), System Gwybodaeth Radioleg (RIS) a Rheoli Dosau Radioleg newydd. | | | Dechrau cyflwyno RISP | Cwblhau cyflwyno RISP |
| Rhaglen Gaffael y System Gwybodeg Radioleg | | | | Rhedeg RISP ar y cyd â Radis | Datgomisiynu Radis |
| Cefnogi datblygiad Achos Busnes **Patholeg Gellog Ddigidol** | Ceisiadau electronig am brofion - Gweler *Portffolio 3.1 Ymgysylltu â Defnyddwyr: Proffesiynau Iechyd a Gofal* | | Gwella argaeledd cenedlaethol canlyniadau ac adroddiadau diagnostig mewn ystorfeydd cenedlaethol *Gweler Portffolio 3.1: Ymgysylltu â Defnyddwyr: Proffesiynau Iechyd a Gofal. Gweler Portffolio 1.2 Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu* | | |
| **Endosgopi.** Cefnogi'r Rhaglen Adfer Genedlaethol | | | | | |

# Cenhadaeth 2

Darparu cynhyrchion a gwasanaethau digidol o ansawdd uchel

## Ysgogwyr

- Adolygiad Llywodraeth Cymru o e-Ragnodi 2021
- Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach - Ebrill 2019
- Optimeiddio gwasanaethau fferyllol adeg rhyddhau o'r ysbyty i wella llif cleifion 2022

## Canlyniadau

- galluogi moderneiddio'r rheolaeth ar feddyginiaethau, lleihau gwallau dosbarthu a gwella canlyniadau.
- cael at wybodaeth am feddyginiaethau ni waeth o ble y daeth
- mynediad gwell at ddata ar feddyginiaethau a rhagnodi mwy diogel
- gwella grymuso a hunanofal cleifion.

## Piblinell

- Cefnogi caffael system Triniaeth Gwrth-ganser Systemig
- Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau – caffael, sicrhau a chynnal system ddigidol i gefnogi cwsmeriaid sy'n archebu meddyginiaethau o ganolfannau gweithgynhyrchu rhanbarthol

# Portffolio 2.6: Meddyginiaethau

Gwneud rhagnodi, dosbarthu a rhoi meddyginiaethau ym mhobman yng Nghymru yn haws, yn fwy diogel, yn fwy effeithlon ac effeithiol, drwy ddull digidol.

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Portffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol** Ymateb i'r Adolygiad o E-Ragnodi a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru drwy ddiffinio a chyflawni portffolio trawsnewid, newid busnes mawr | | | | Parhau â **Thrawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol** | |
| Adeiladu **un cofnod o feddyginiaethau** ar gyfer pob claf yng Nghymru fel bod yr holl wybodaeth mewn un lle ac yn hawdd ei rhannu pan fo angen. | | | | | |
| **Trosglwyddo presgripsiynau yn electronig** prawf technegol o gysyniad a gweithredu ar draws safleoedd mabwysiadwyr cynnar mewn gofal sylfaenol a fferyllfeydd cymunedol, yn cwmpasu llofnodi a throsglwyddo presgripsiynau gan feddygon teulu a rhagnodwyr anfeddygol yn electronig i'r fferyllfa gymunedol neu ddosbarthwr dyfeisiau o ddewis yr unigolyn. | | | | Parhau â **Throsglwyddo presgripsiynau yn electronig** | |
| **E-ragnodi mewn gofal eilaidd** – cefnogi caffael lleol, diffinio gofynion, a rheoli dibyniaethau technegol (e.e. APIs) ledled Cymru wrth iddynt weithredu e-ragnodi a gweinyddu meddyginiaethau ym mhob ysbyty yn GIG Cymru ac anfon presgripsiynau cleifion allanol i'r fferyllfa o ddewis yr unigolyn. | | | | Parhau ag **E-ragnodi mewn gofal eilaidd** | |
| **Mynediad cleifion at wybodaeth am feddyginiaethau** – camau cyntaf defnyddio Ap GIG Cymru i archebu presgripsiynau amlroddadwy, enwebu fferyllfa o ddewis yr unigolyn a rhannu a chasglu gwybodaeth am feddyginiaethau. | | | | Parhau â **mynediad cleifion at wybodaeth am feddyginiaethau** | |

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales



# Cenhadaeth 3

## EHANGU’r cofnod iechyd a gofal digidol a’r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal

**Portffolios**

1. Ymgysylltu â Defnyddwyr: Proffesiynau Iechyd a Gofal
2. Ymgysylltu â Defnyddwyr: Cleifion a'r Cyhoedd

# CENHADAETH 3: EHANGU'R COFNOD IECHYD A GOFAL DIGIDOL A'R DEFNYDD O DDULLIAU DIGIDOL I WELLA IECHYD A GOFAL - Portffolios

Mae'r portffolios yn y genhadaeth hon yn ymwneud â gwella ac ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol ar gyfer clinigwyr a chleifion, agnostig o ffiniau byrddau iechyd a daearyddol a chefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a chysylltedd gan ddefnyddio e-lyfrgell GIG Cymru a Microsoft 365.

## CYD-DESTUN

Mae defnydd cydweithredol ar wybodaeth, systemau a thechnolegau o ansawdd uchel yn cefnogi gofal cleifion.

Fodd bynnag, mae data cleifion yn aml wedi'i wasgaru ar draws fformatau papur a digidol, gan ei gwneud yn anodd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gael ato a'i ddefnyddio. Gall hyn arwain at golli gwybodaeth, penderfyniadau anghywir, a niwed i gleifion. Nod GIG Cymru yw ehangu hygyrchedd a'r defnydd o wybodaeth ddigidol i wella iechyd a gofal. O safbwynt y claf, gosododd *Cymru Iachach* yr uchelgais i ddarparu platfform digidol ar-lein i ddinasyddion, i roi 'mwy o reolaeth i bobl a'u galluogi i ddod yn gyfranogwyr mwy gweithgar yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain'. Gallant gyfrannu at wybodaeth am eu hiechyd a'u gofal, a'i rhannu, a rheoli apwyntiadau a chyfathrebu â gweithwyr proffesiynol.

## PORTFFOLIO 3.1 Ymgysylltu â Defnyddwyr: Proffesiynau Iechyd a Gofal

Yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru, rydym wedi datblygu system sydd ar gael i weithwyr iechyd proffesiynol trwy un cymhwysiad - Porth Clinigol Cymru. Mae'n rhannu, yn darparu ac yn arddangos gwybodaeth am gleifion o nifer o ffynonellau drwy fewngofnodi unwaith, hyd yn oed os yw'r wybodaeth honno'n cael ei lledaenu ar draws byrddau iechyd, ynghyd â thasgau electronig allweddol.

Mae gan Borth Clinigol Cymru'r swyddogaethau canlynol: profion patholeg a gwneud cais am ddelweddau/adrodd, edrych ar restrau cleifion, blaenoriaethu atgyfeiriadau, creu llythyrau rhyddhau a thrawsgrifio meddyginiaethau, nodiadau clinigol, creu a gweld dogfennau, mynediad symudol. Mae dogfennau digidol wedi'u llunio ar gyfer arbenigeddau nyrsio (Cofnod Gofal Nyrsio Cymru), diabetes, canser a hepatoleg hyd yn hyn. Dyma'r olygfa i filiynau o ganlyniadau profion a dogfennau clinigol i Gymru gyfan.

- Byddwn yn ehangu ceisiadau electronig am brofion.
- Byddwn yn ychwanegu ffurflenni newydd at ein Cofnod Gofal Nyrsio.
- Byddwn yn datblygu camau'r datrysiad Canser yn y dyfodol a ddarperir ym Mhorth Clinigol Cymru.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid GIG Cymru fel lletywyr Canolfan Ragoriaeth Microsoft.

**Mae hyn yn golygu** bod mwy o ddata electronig gan fyrddau iechyd a chydweithwyr clinigol eraill yn sicrhau penderfyniadau mwy gwybodus.

## PORTFFOLIO 3.2 Ymgysylltu â Defnyddwyr: Cleifion a'r Cyhoedd

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sefydlu platfform craidd o wasanaethau digidol i gleifion yng Nghymru, a fydd yn rhoi dulliau digidol wrth galon gofal cleifion. Y nod yw darparu platfform digidol ar-lein i ddinasyddion sy'n caniatáu iddynt reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gwneud dewisiadau gwybodus am eu triniaeth eu hunain a dod o hyd i'r gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion ar draws pob lleoliad, nid dim ond gofal sylfaenol. Bydd Fy Iechyd Ar-lein, gwasanaeth sy'n bodoli eisoes, yn trosglwyddo i'r platfform newydd hwn yn ei gam cyntaf.

Bydd y platfform hefyd yn galluogi gwell cyfathrebu a chyngor rhwng cleifion a darparwyr gofal iechyd, yn cynyddu effeithlonrwydd a hwylustod, yn galluogi cleifion i roi adborth ar eu gofal, ac yn galluogi hunanfonitro iechyd a rhannu data gyda chlinigwyr. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cefnogi sefydlu'r Rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd ac mae'n gweithio i ddatblygu'r bensaernïaeth data a gwybodaeth sy'n ofynnol i agor mynediad at ddata a gedwir gan y GIG mewn modd diogel, sicr ac archwiliadwy.

Gweler hefyd Sbotolau ar : Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd am gyflawniadau allweddol yn y rhaglen fawr newydd hon.

**Mae hyn yn golygu** grymuso cleifion i reoli eu hiechyd yn well

# COFNOD GOFAL NYRSIO CYMRU

Mae prosiect Digideiddio Dogfennau Nyrsio Cymru Gyfan wedi llywio datblygiad Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (cleifion mewnol sy'n oedolion). Mae'r prosiect wedi safoni gwybodaeth nyrsio ledled Cymru, sydd wedi arwain at ddigideiddio a gweithredu'r Cofnod ar draws wardiau oedolion ym mhob Bwrdd Iechyd ac yn Ymddiriedolaeth Felindre. Mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Cymru Iachach a'r blaenoriaethau ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth a osodwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio (Cymru). Mae hyn yn rhoi data i sefydliadau fonitro'u bod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu (2020) â'u Dyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd.

Mae'r newid o bapur i ddigidol wedi lleihau baich dogfennaeth, gan ryddhau amser i nyrsys ofalu am gleifion yn ôl wrth erchwyn y gwely. Mae'r Cofnod yn sicrhau gwybodaeth gywir, gyflawn a chyfredol am gleifion, sy'n weladwy i aelodau ehangach y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r Cofnod yn ategu darpariaeth gofal sydd â'r potensial i wella diogelwch cleifion, ansawdd a phrofiad gofal, gan arwain at ganlyniadau gwell i gleifion. Mae:

- yn trawsnewid dogfennaeth nyrsio trwy safoni gwybodaeth a chreu iaith nyrsio genedlaethol sy'n lleihau dyblygu ac yn rhoi amser yn ôl i ofalu wrth erchwyn y gwely
- yn reddfol i nyrsys gan mai nyrsys sydd wedi'i ddatblygu
- wedi'i gynllunio fel bod nyrsys yn cwblhau asesiadau wrth erchwyn gwely'r claf ar lechi neu ddyfeisiau llaw eraill.
- yn darparu data cenedlaethol safonol i fodloni anghenion archwilio a gofynion adrodd ac mae'n cael ei ddefnyddio i ysgogi gwelliannau a dysgu ar draws sefydliadau GIG Cymru.

- *Gwobr Nursing Times (2020) ar gyfer Technoleg a Data mewn Nyrsio*
- *Gwobr Diwydiant TG y DU Cymdeithas Cyfrifiadura Prydain am y Prosiect TG Gofal Iechyd Gorau yn y DU (2021)*
- *Gwobr y Beirniaid MediWales ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2022)*



Mae cofnodi asesiadau am fy nghlaf mewn system nyrsio sy'n hygyrch yn genedlaethol yn dileu'r angen am gymaint o bapur a'r holl broblemau o ran dod o hyd iddo a'i ffeilio
**Sy'n golygu:** Ni fydd angen imi ailadrodd yr un cwestiynau i'r claf a byddaf yn gallu treulio mwy o amser wrth erchwyn y gwely yn gofalu amdanynt
**Nyrs**

## Sbotolau ar 2023-26

- Parhau â map ffordd Cofnod Gofal Nyrsio Cymru gan safoni a digideiddio safonau gwybodaeth nyrsio.
- Cynyddu a gwneud y gorau o ymarferoldeb a gwelliannau o fewn Cofnod Gofal Nyrsio Cymru yn seiliedig ar adborth gan y gymuned nyrsio a'r tîm amlddisgyblaethol ehangach.
- Cwblhau gweithredu'r Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (cleifion mewnol sy'n oedolion) ar draws GIG Cymru a'i ymestyn i'r wardiau cleifion mewnol pediatrig (gan gynnwys safoni dogfennau pediatrig).

# DATRYSIAD GWYBODEG CANSER

Byddaf yn gallu gweld mwy o wybodaeth glinigol yn gysylltiedig â diagnosis canser ynghyd â chyflyrau eraill.
**Sy'n golygu:** Mae gen i ddarlun gwell yn gyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol
**Oncolegydd**



Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda GIG Cymru i foderneiddio gwybodeg canser i gefnogi darparu gwasanaethau, gwella ansawdd, a mwy o integreiddio gofal a data i arwain datblygiad gwasanaethau ym maes gwasanaethau canser.

Mae Rhwydwaith Canser Cymru wedi lansio Cynllun Gwella Canser ar gyfer GIG Cymru 2023-2026, sy'n pwysleisio'r angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru weithio gyda GIG Cymru i ddatblygu'r system gwybodaeth canser newydd a fydd yn caniatáu am rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau. Bydd hyn yn golygu bod y wybodaeth am gleifion â chanser ar gael yn ehangach i'r gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu amdanynt. Bydd data hefyd yn cael ei gasglu i ddangos pa mor dda y mae gwasanaethau canser yn cael eu darparu a lle mae ansawdd gofal yn amrywio ledled Cymru.

Monitro'r llwybr canser sengl a'i lwybrau sylfaenol sydd wedi'u hoptimeiddio'n genedlaethol yw'r cyfrwng a fydd yn cefnogi darparu gofal cyson o ansawdd uchel a chanlyniadau canser gwell. Mae cofnodi data claf ar hyd y daith honno yn hanfodol er mwyn cael gwybodaeth a chipolygon ohono at ddiben gweithredu pellach.

Mae'r hen system ganser genedlaethol (CaNISC) wedi cyrraedd diwedd ei hoes erbyn hyn ac mae datrysiad gwybodeg canser Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cymryd ei lle, trwy ddatblygu swyddogaeth Porth Clinigol Cymru a gweithredu System Gweinyddu Cleifion Cymru yn Felindre.

Yn gyffredinol, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i liniaru'r risgiau critigol y mae system etifeddol CaNISC yn eu peri ac i gyflwyno meddalwedd genedlaethol fodern, wydn a hygyrch ar gyfer Canolfan Ganser Felindre a defnyddwyr eraill CaNISC. Aeth y datrysiad newydd yn fyw yng Nghanolfan Ganser Felindre ym mis Tachwedd 2022.

## Sbotolau ar 2023-26

- Cyflwyno ffurflenni'r Tîm Amlddisgyblaethol a'r set ddata i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru
- Datblygu a gweithredu'r modiwlau gofal lliniarol, sgrinio a cholposgopi ledled Cymru
- Cefnogi cyflwyno archwiliadau Canser newydd
- Ehangu'r ystorfeydd radiotherapi a thriniaeth SACT
- Datblygu seilwaith ymhellach i gefnogi gwybodaeth drwy'r Adnodd Data Cenedlaethol

## GWASANAETHAU DIGIDOL AR GYFER CLEIFION A'R CYHOEDD

dspp Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd
Digital Services for Patients and Public

Mae Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd (DSPP) yn rhaglen newydd a fydd yn chwyldroi sut mae pobl yng Nghymru yn cael mynediad at ofal ac yn rheoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. I ddechrau, bydd y rhaglen yn datblygu cymhwysiad porth (Ap), gan ganiatáu i bobl ddewis y gwasanaethau iechyd a gofal digidol y maen nhw am eu defnyddio o'u ffonau clyfar a dyfeisiau symudol eraill, gan efelychu eu profiadau o agweddau eraill ar fywyd bob dydd a disodli prosesau hen ffasiwn ar bapur, sy'n canolbwyntio ar system. Er enghraifft, trwy eu galluogi i dderbyn gohebiaeth yn y ffordd y dymunant a gweld a newid eu hapwyntiadau gofal iechyd ar-lein i amser neu ddiwrnod mwy cyfleus.

Bydd cleifion ac aelodau'r cyhoedd hefyd yn gallu rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau mewn modd di-dor gyda staff gofal trwy dechnoleg ddigidol, er mwyn iddynt ddod yn gyfranogwyr mwy rhagweithiol wrth wneud penderfyniadau pwysig a chael eu grymuso i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Bydd cleifion yn gallu darparu adborth, cwblhau holiaduron, a diweddaru eu manylion a'u dewisiadau o ran sut maen nhw'n cyfathrebu gan ei gwneud hi'n haws iddyn nhw reoli eu gofal iechyd eu hunain.

Mae'r Ymagwedd ar gyfer Ap GIG Cymru yn seiliedig ar ddarparu swyddogaethau tebyg i Ap GIG Lloegr ond gan integreiddio'r Gymraeg. Mae sawl cam gan gynnwys profion beta preifat, lansiad meddal ac yna rhyddhau'n fyw i'r cyhoedd pan fydd cyflenwi a chefnogaeth yn cael eu sicrhau.

### Sbotolau ar 2023-26

- Dosbarthu Ap GIG Cymru i bob practis meddyg teulu yng Nghymru
- Hyrwyddo mabwysiadu'r Ap/y wefan gan gleifion a'r cyhoedd
- Cydweithredu â phartneriaid iechyd a gofal i integreiddio nodweddion / swyddogaethau ehangach sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd

Bydd gennyf fynediad at fy ngwybodaeth iechyd fy hun **Sy'n golygu**: Rwy'n teimlo bod gennyf fwy o rym i gefnogi fy iechyd a'm llesiant fy hun a darganfod mwy am sut y gallaf gadw'n iach. **Claf**



## CANOLFAN RAGORIAETH MICROSOFT 365

DHCW Centre of Excellence Microsoft 365

Mae Cytundeb Menter Microsoft GIG Cymru yn fuddsoddiad mawr, sy'n darparu mynediad a reolir yn genedlaethol i blatfform a chynnyrch Microsoft 365.

Daw hyn â chyfleoedd sylweddol i alluogi trawsnewid digidol ar draws y system gyfan. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gyda byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, wedi ymrwymo i gontract tair blynedd (ac un ac un) gyda Microsoft i ddarparu eu cynnyrch, eu hoffer a'u gwasanaethau diweddaraf i GIG Cymru.

Mae dros 120,000 o aelodau staff GIG Cymru yn gallu mynd at Microsoft 365, gyda thros 120 miliwn o ddogfennau wedi'u storio, miliynau o negeseuon yn cael eu hanfon bob mis a miloedd lawer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Teams.

Ers darparu swydddogaethau allweddol Microsoft 365 ledled Cymru, mae'r ffocws yn 2023 ac wrth symud ymlaen ar wneud y mwyaf o'r buddsoddiad hwn. Mae Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365 GIG Cymru wedi'i lansio i sbarduno arloesedd digidol creadigol ar draws GIG Cymru a rhoi cymorth i staff sy'n defnyddio meddalwedd Microsoft 365 (M365).

Mae platfform Microsoft 365 yn cynnig ystod eang o gyfleoedd:

**Mynediad diogel i wasanaethau** – mae Microsoft 365 yn elfen allweddol o amddiffyniad GIG Cymru yn erbyn seiberdroseddu, gan reoli hunaniaethau digidol er mwyn helpu i ochel rhag ymdrechion amheus i fewngofnodi a diogelu manylion defnyddwyr.
**Cyfathrebu, cydweithredu a symudedd** – mae'r platfform yn darparu nodweddion sy'n helpu unigolion a thimau i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol, gyda galluoedd symudedd sy'n helpu staff i fod yn gynhyrchiol ac yn gysylltiedig, waeth beth fo'u lleoliad neu ddyfais.
**Arloesedd ac awtomeiddio** – mae'r platfform yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i ddigideiddio ac awtomeiddio prosesau busnes, gan ddarparu gwerth yn gyflym ac ysgogi trawsnewid digidol yn gyflym.

Mae model gweithredu targed a chatalog gwasanaeth wedi'u cytuno ac mae fframwaith rheoli buddion wedi'i roi ar waith i baratoi ar gyfer y lansiad caled yng ngwanwyn 2023.

### Sbotolau ar 2023-26

- Datblygu'r trefniadau cefnogi
- Dangos buddion
- Lansio holl ystod gwasanaethau'r Ganolfan Ragoriaeth
- Nodi datrysiadau a blaenoriaethu cyfleoedd i ysgogi trawsnewid digidol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr

## Cenhadaeth 3

Ehangu'r cofnod iechyd a gofal digidol a'r defnydd o ddulliau digidol i wella iechyd a gofal

### Ysgogwyr

- Cymru Iachach (2019)
- Cynllun Gwella Canser 2022
- Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser 2022
- Fframwaith Clinigol Cenedlaethol 2021

### Canlyniadau

Mae datblygu datrysiadau digidol dan arweiniad clinigol i gefnogi clinigwyr i ddarparu gofal effeithiol yn golygu:

- Bod mwy o ddata electronig gan fyrddau iechyd eraill a chydweithwyr clinigol yn sicrhau penderfyniadau mwy gwybodus
- Treulio llai o amser ar y ffôn yn aros am ganlyniadau gan feddyg teulu, yr ysbyty a lleoliadau eraill
- Mae cofnodi asesiadau nyrsio mewn un system yn lleihau'r angen am gymaint o bapur a'r problemau o ran dod o hyd iddo a'i ffeilio
- Mae gwella mynediad at ymchwiliadau diagnostig yn golygu y gall cleifion gael eu trin yn gynt ac â llai o driniaethau wedi'u dyblygu, fel cymryd gwaed, cael pelydr-X.
- Ar y cyd â gwasanaeth fflebotomi digidol, symleiddio prosesau a galluogi profion sampl gwaed cynharach
- Sicrhau bod cofnod cleifion canser yn cael ei gyflwyno ar blatfform TG modern a chydnerth sy'n galluogi mwy o integreiddio gofal ac sy'n darparu'r data perthnasol i lywio datblygiad gwasanaethau. (Datganiad Ansawdd ar gyfer

### Piblinell

Canolfan Ganser Felindre: Ysbyty Digidol yn Gyntaf

## Portffolio 3.1: Ymgysylltu â Defnyddwyr: Proffesiynau Iechyd a Gofal

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnwys y cofnod gofal iechyd digidol**. Cynyddu gwybodaeth glinigol trwy weithio gyda chyflenwyr datrysiadau iechyd arbenigol. | | | | | |
| | | | | **Porth Clinigol Cymru yn y Cwmwl.** Bodloni anghenion parhaus clinigwyr trwy wella perfformiad, argaeledd, defnyddioldeb ac amseroldeb gwelliannau i Borth Clinigol Cymru, trwy weithrediad sengl wedi'i ail-lunio a gynhelir gan y Cwmwl. | |
| **Ceisiadau electronig** wedi'u hehangu ar draws gofal eilaidd a sylfaenol, i gwmpasu arbenigeddau fel Cardioleg, Endosgopi, Spirometreg ynghyd â chyflwyno patholeg a radioleg yn ehangach. | | | | | |
| **Cofnod Gofal Nyrsio**. Parhau i wella digideiddio nyrsio mewn gofal eilaidd trwy fwydo nifer gynyddol o ffurflenni safonedig a gwelliannau cyson i gymhwysiad Gofal Nyrsio Cymru. | | | | | |
| **Datrysiad Canser**. Datblygu camau'r datrysiad Canser yn y dyfodol e.e. gofal lliniarol, sgrinio, colposgopi | | | | **Cynllun gwella canser.** Targedau i'w cyflawni yn y blynyddoedd i ddod | |
| **Gweithio o bell a symudol.** Datblygu blaenoriaethau o Grŵp Cyflawni Porth Clinigol Cymru, fel y fersiwn symudol. | | | | | |
| Lansio Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365 | **Microsoft 365** Cyflawni'r cynllun gwaith y cytunwyd arno â'r bwrdd rheoli gwasanaethau, gyda thîm a model gwasanaeth cynaliadwy (CoE) | | | | |
| **Newid Busnes** Mynd i'r afael â newid busnes ar gyfer y defnyddiwr terfynol drwy sefydlu rhwydwaith newid busnes, rhaglen Llysgenhadon Newid a chanolfan hyfforddiant ar alw | | | | | |
| Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar wasanaeth **E-lyfrgell** GIG Cymru a'r defnydd ohono | | | | | |

# Cenhadaeth 3

Ehangu’r cofnod iechyd a gofal digidol a’r defnydd o ddigidol i wella iechyd a gofal

## Ysgogwyr

- Cymru Iachach 2019

## Canlyniadau

- grymuso cleifion i reoli eu hiechyd yn well
- platfform diogel, sicr a chynhwysol i rymuso cleifion yn eu hiechyd a’u lles a galluogi integreiddio cynhyrchion a systemau i gefnogi’r gwaith o drawsnewid gwasanaethau
- mae cleifion ledled Cymru yn cael cyfle i ryngweithio ag offeryn a fydd yn eu helpu i reoli eu hanghenion iechyd a gofal wrth hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant
- mae cyflenwyr cyfredol ac yn y dyfodol yn cadw at broses achredu a chynefino DSPP er mwyn integreiddio ag Ap GIG Cymru trwy ddangos sut maent yn bodloni’r amodau ar gyfer alinio

# Portffolio 3.2: Ymgysylltu â Defnyddwyr: Cleifion a’r Cyhoedd

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymwysiadau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer cleifion.** Sbarduno trawsnewid gwasanaethau i rymuso cleifion i reoli eu hiechyd trwy’r Rhaglen Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a’r Cyhoedd (DSPP) | | | | | |
| **Ap GIG Cymru.** Parhau i’w ddatblygu drwy ychwanegu at y gwasanaethau swyddogaethol craidd i gleifion a’r cyhoedd wedi’u hategu gan ryngweithiadwyedd data a llywodraethu gwybodaeth | | | | | |
| **Ap GIG Cymru.** Profi a Lansio mynediad digidol at wasanaethau meddygon teulu i gleifion a’r cyhoedd | Ymchwil defnyddwyr gyda chleifion a’r cyhoedd i brofi nodweddion newydd yn y camau darganfod a beta cyhoeddus | | | Cefnogaeth a datblygiad pellach gan gynnwys trosglwyddo i Iechyd a Gofal Digidol Cymru | |
| | Adborth gan gleifion a phractisiau i fwydo datblygiadau pellach | | | | |
| Cydweithio â Cymunedau Digidol Cymru i gefnogi cynhwysiant digidol trwy hyfforddi arweinwyr hybiau cymunedol i helpu pobl i ddefnyddio’r Ap | | | | | |
| Cydweithio â’r sector cyhoeddus, y trydydd sector a chleifion a’r cyhoedd i gefnogi ailgynllunio gwasanaethau | | | | | |
| | **Cynefino a chysylltu** cyflenwyr trydydd parti â gwasanaethau craidd Ap GIG Cymru | | | | |

Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales



# Cenhadaeth 4

## YSGOGI gwell gwerth a chanlyniadau drwy arloesi

**Portffolios**

1. Ymchwil ac Arloesi
2. Gwerth o ddata

# CENHADAETH 4 : YSGOGI GWELL GWERTH A CHANLYNIADAU DRWY ARLOESI - Portffolios

## CYD-DESTUN

Mae ymchwil ac arloesi yn yr ystyr digidol a data yn ymwneud â chyflwyno a chymhwyso prosesau a syniadau newydd i ddatrys problemau a dod â gwelliannau i wasanaethau ar draws y GIG yng Nghymru. Mae'r angen i gael mewnwelediad a gwybodaeth o'r symiau enfawr o ddata y mae'r GIG yn eu cofnodi yn hanfodol er mwyn adfer ar ôl pandemig Covid-19 a dod ag atebion i fynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o hynny. Mae GIG Cymru yn casglu llawer iawn o ddata ar gleifion, gwasanaethau gweithredol, cyllid a mwy. Mae'r Portffolio Gwerth o Ddata yn ymwneud â phrosesu, dadansoddi a chymhwyso'r data hwnnw i ddatrys problemau iechyd gwirioneddol ac, yn y pen draw, cael gwerth o'r data hwnnw.

## PORTFFOLIO 4.1 Ymchwil ac Arloesi

Mae'r portffolio hwn yn canolbwyntio ar gefnogi, ychwanegu gwerth a darparu sylfaen fwy cadarn ar gyfer adnoddau a rhaglenni ymchwil ac arloesi sefydledig a newydd, wrth fwrw ymlaen â strategaeth ddigidol uchelgeisiol, eang a chlinigol gyfoethog ar gyfer ymchwil ac arloesi. Trwy weithio ar draws timau ac â phartneriaid ymchwil ac arloesi allanol, ein nod yw helpu i ddatblygu'r wybodaeth, yr arloesedd a'r mewnwelediad sydd eu hangen i wella gwasanaethau, trawsnewid a sicrhau canlyniadau iechyd gwell.  Caiff ein pedwar nod strategol eu disgrifio yn Strategaeth Ymchwil ac Arloesi Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2022/23 ar ôl casglu gofynion, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adolygu'r strategaeth.




## PORTFFOLIO 4.2 Gwerth o Ddata

Mae'r Portffolio hwn yn canolbwyntio ar gylch data oes llawn o gaffael data presennol a data'r dyfodol, dadansoddi data i ddarparu gwybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus, hyd at gychwyn camau gweithredu sy'n darparu gwerth trwy wella'r gwasanaethau a ddarperir ac iechyd y boblogaeth.

Bydd y ffocws cychwynnol ar ddatblygu'r Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg, a fydd yn llywio gweithgareddau busnes fel arfer yn ogystal â datblygiad parhaus ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn cyd-fynd â gofynion prif randdeiliaid a rhaglenni cenedlaethol fel Gwerth mewn Iechyd, Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng a'r Cynllun Gwella Canser ac yn parhau i ymateb iddynt.

Trwy ddefnyddio rhannu diogel a sicr o fewn gofynion llywodraethu gwybodaeth  cyfredol, byddwn yn ceisio sicrhau bod y cyfoeth o ddata sydd gennym ar hyn o bryd i gyflawni'r genhadaeth hon ar gael

Bydd cydweithredu â'r Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol yn galluogi pontio o'r prosesau caffael a storio data sefydledig presennol i'r platfform cwmwl a phrosesau cysylltiedig. Bydd y bwriad i gynnwys data anstrwythuredig ochr yn ochr â'r setiau data strwythuredig cyfredol yn cael ei ystyried fel rhan o'r strategaeth tymor hwy, gan ddarparu gwerth ychwanegol o ddata sy'n cael ei gofnodi a'i storio ar hyn o bryd, er nad yw ar gael yn rhwydd, gan ddefnyddio Prosesu Iaith Naturiol (NLP) o feysydd testun rhydd, o bosibl.

Mae hyn yn golygu y caiff data ei brosesu, ei ddadansoddi, ei gyfleu a'i gymhwyso i broblemau gwasanaethau iechyd go iawn, gan ganiatáu gwneud penderfyniadau gwybodus a chamau gweithredu sy'n dod â gwerth yn y pen draw.

## YMCHWIL AC ARLOESI

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, caiff proses lywodraethu ymchwil ac arloesi fwy cadarn, tryloyw a sicr ei sefydlu i flaenoriaethu a rheoli'r holl gynigion, ceisiadau, rhaglenni a chydweithrediadau - ynghyd â'r adnoddau, mecanweithiau ymgysylltu, templedi a'r systemau cymorth hynny sydd eu hangen i alluogi'r amcan hwn. Yn rhan o hyn, lle mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn bwriadu cefnogi neu arwain gweithgareddau ymchwil ac arloesi, rhoddir ystyriaeth ymlaen llaw i'r buddion a ddaw yn sgil y gweithgarwch hwnnw, yn unol â fframwaith rheoli buddion Iechyd a Gofal Digidol Cymru.


Byddwn yn adolygu, yn ad-drefnu ac yn ffurfioli partneriaethau a chytundebau ymchwil ac arloesi cyfredol â'r byd academaidd a diwydiant, gan symud oddi wrth wneud pethau ar sail ymdrech orau.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaethau data, seilwaith a chefnogi sgiliau sefydledig a newydd hynny a phlatfformau diogel ar gyfer ymchwil ac arloesi a ddarperir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, i asiantaethau allanol.

### Sbotolau ar 2023-26

- Proses lywodraethu, gan gipio'r buddion ymlaen llaw.
- Ffurfioli ceisiadau, partneriaethau, prosesau a chynaliadwyedd ariannol.
- Gwneud y mwyaf o wasanaeth, platfformau a sgiliau Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Gyda dangosfyrddau, daw data'n ddeallusrwydd y gallaf ei gymhwyso i'm penderfyniadau a'm gweithredoedd.
**Sy'n golygu:** Gallaf weld a yw fy mholisi yn gweithio yn y fan a'r lle a'i addasu yn ôl anghenion y genedl
**Arweinydd Polisi**




## GWERTH MEWN IECHYD

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cefnogi'r Rhaglen Gwerth mewn Iechyd gan roi'r mecanwaith i fyrddau iechyd roi dull o gynllunio gwasanaethau ar sail gwerth ar waith, drwy ddatblygu a gweithredu dangosfyrddau ar feysydd clinigol penodol. Mae'r dangosfyrddau hyn yn dwyn ynghyd ddata o ystod eang o ffynonellau data, gan roi cipolwg ar effeithlonrwydd a chanlyniadau.

Bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddatblygu dangosfyrddauychwanegol a gwelliannau i'r rhai a gyhoeddwyd eisoes, wedi'u blaenoriaethu trwy ymgysylltu clinigol o fewn y rhaglen Gwerth mewn Iechyd. Yn ogystal, byddwn yn edrych ar gaffael data ar fesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMs) 3ydd parti pellach gan Fyrddau Iechyd a delweddau PROMs ychwanegol, gan gynnwys Methiant y Galon, ym Mhorth Clinigol Cymru.

Mae'r dangosfyrddau arfaethedig yn cynnwys:

- Llawdriniaeth Dwylo Cam 1
- Arthroplasti Clun Cam 3 (metrigau GIRFT)
- Llawfeddygaeth Sbinol Cam 1
- Amnewid Pen-gliniau Cam 4 (Metrigau GIRFT)
- Arthroplasti Cam 4 (Data NJR)
- Amnewid Pen-gliniau Cam 5 (Data NJR)
- Atlas Amrywiad Clefyd Llid y Coluddyn

Gallaf ddechrau gweld lle mae cleifion ar eu taith drwy'r system iechyd, gan nodi tueddiadau a gweithgareddau is-optimaidd
**Sy'n golygu:** gallwn ni ganolbwyntio ar feysydd sy'n peri problemau a gwneud y gorau neu ailgynllunio llwybr y claf
**Cynllunwyr Clinigol**

### Sbotolau ar 2023-26

- Dangosfyrddau a delweddiadau ychwanegol wedi'u blaenoriaethu
- PROMS a chaffaeliadau data archwilio

# Cenhadaeth 4

Ysgogi gwell gwerth a chanlyniadau drwy arloesi

## Ysgogwyr

- Cymru Iachach
- Strategaeth Ymchwil ac Arloesi Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Strategaeth Arloesi LlC
- Gweledigaeth Ymchwil Glinigol y DU
- Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU

## Canlyniadau

- Diwylliant sy'n hyrwyddo ymchwil ac arloesi y ceir tystiolaeth ohono drwy fwy o ymgysylltu a gweithgareddau
- Mwy o bartneriaethau sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac arloesi
- Gwell ansawdd ac effaith
- Cymryd rhan mewn prosiectau Cymru gyfan i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

# Portffolio 4.1: Ymchwil ac Arloesi

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu Ymchwil ac Arloesi.** Sefydlu trefniadau llywodraethu ymchwil ac arloesi cadarn, gan gynnwys ymgorffori Bwrdd Ymchwil ac Arloesi newydd a mecanweithiau i hwyluso gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol | | | Adolygu a chadarnhau'r strwythur llywodraethu a sicrhau cyllid ymchwil ac arloesi hirdymor | Adrodd ar weithgarwch a chyllid yn yr adroddiad blynyddol | |
| **Ymrwymiadau Ymchwil.** Adolygu cytundebau partneriaeth ymchwil academaidd ffurfiol a datblygu rhestr o ymrwymiadau, gan gynnwys cofnod o ganlyniadau ac effaith | | | | Sefydlu grwpiau partneriaeth parhaus | Adolygu gweithgareddau ac asesu effaith |
| | | | Cofnod llawn o gytundebau a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â phartneriaid a sefydlu unrhyw rai sydd eu hangen | | |
| **Partneriaid Diwydiant.** Datblygu rheolau ymgysylltu a phrosesau clir ar gyfer gweithio â phartneriaid diwydiant i gefnogi gweithgareddau ymchwil ac arloesi | | | | | |
| | **Blaenoriaethau Ymchwil ac Arloesi.** Yn unol â llywodraethu ymchwil ac arloesi sydd newydd ei sefydlu, datblygu fframwaith blaenoriaethu a chynllun gweithredu/monitro ar gyfer yr holl weithgareddau ymchwil ac arloesi sy'n cael eu cefnogi a'u harwain gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru | | | Adolygu a monitro'r fframwaith | Diweddaru'r fframwaith i adlewyrchu blaenoriaethau |
| | **Cyllid.** Adolygu a diweddaru polisïau codi tâl i sicrhau bod gwaith ymchwil ac arloesi yn cael ei gefnogi a bod gallu'n cael ei ddatblygu'n ddigonol o fewn y sefydliad | | | Cynyddu ceisiadau am gyllid 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol | |
| **Platfform ymchwil diogel (SeRP).** Gweithredu SeRP er mwyn gallu darparu mynediad diogel at setiau data dienw i gefnogi prosiectau ymchwil ac arloesi. | | | | Monitro ac adrodd yn barhaus ar weithgareddau a'r effaith ar fuddion iechyd a gofal yn yr adroddiad blynyddol ymchwil ac arloesi | |

# Cenhadaeth 4

Ysgogi gwell gwerth a chanlyniadau drwy arloesi

## Ysgogwyr

Rhaglenni Strategol:

- Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng
- Pum Nod ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio/ Trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros y GIG
- Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru
- Gwerth mewn iechyd

## Canlyniadau

- Canlyniadau iechyd gwell trwy'r gallu i dargedu gweithgareddau hybu iechyd a hunanofal
- Mwy o amlygrwydd o ran gwybodaeth iechyd i gynorthwyo i ddarparu rhaglenni i dargedu strategaethau iechyd
- Gellir trosglwyddo data ar draws datrysiadau i leihau cwestiynau ailadroddus a gwella'r profiad i glinigwyr a chleifion
- Nodi tagfeydd mewn gwasanaethau a gweithgareddau is-optimaidd i helpu i ailgynllunio llwybr y claf a sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn y lle cywir pan fo angen.

# Portffolio 4.2 Gwerth o Ddata

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd Cyhoeddus.** Parhau i ddadansoddi data ac adrodd ar fentrau Iechyd y Cyhoedd. | | | | | |
| **Rhaglenni Strategol.** Cyflwyno'r gwaith o ddadansoddi a modelu data mewn perthynas â rhaglenni strategol mawr ar gyfer gofal mewn argyfwng (Chwe Nod), gofal wedi'i gynllunio a gofal sylfaenol a rhoi'r wybodaeth mewn Porth Gwybodaeth Iechyd. | | | | | |
| **Ystadegau Swyddogol.** Cynllunio'r amserlen ar gyfer cyhoeddi Ystadegau Swyddogol i wella'r data sydd ar gael i'r cyhoedd | | | Rhoi'r cynllun cyhoeddi Ystadegau Swyddogol ar waith | | |
| **Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg.** Datblygu Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg ffurfiol | | | Cyflawni'r Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg | | |
| **Peirianneg Data.** Gwaith yn symud o gaffael a storio data i ail-beiriannu data fel rhan o symud yr Adnodd Data Cenedlaethol i'r cwmwl | | | | | |
| **Sylfaenol a Chymunedol.** Darparu allbynnau dadansoddeg ar gyfer y rhaglen Gofal Sylfaenol a Chymunedol - adolygu gofynion, gan gynnwys menter Gwella Ansawdd Gofal Sylfaenol | | | | | |
| **Gwerth mewn Iechyd.** Defnyddio ein systemau i gefnogi'r Rhaglen Gwerth mewn Iechyd, gan gynnwys datblygu safonau ar gyfer PROMS a PREMS. | | | | Parhau i gefnogi rhanddeiliaid i gyflawni datblygiadau â blaenoriaeth | |
| Ailgaffael system **ansawdd data gofal sylfaenol.** | | | | | |
| **Data gofal sylfaenol a chymunedol.** Sicrhau y gall y gymuned rhanddeiliaid ehangach fanteisio ar ddata a dadansoddeg yn barhaus er mwyn adfer systemau | | | | | |



# Cenhadaeth 5

## BOD yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel

1. Pobl a Diwylliant
2. Cyllid
3. Cynaliadwyedd
4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
5. Ansawdd a Diogelwch
6. Llywodraethu, Perfformiad a Sicrwydd

# CENHADAETH 5: BOD YN BARTNER STRATEGOL DIBYNADWY AC YN SEFYDLIAD CYNHWYSOL AC UCHELGEISIOL O ANSAWDD UCHEL - Galluogwyr

## CYD-DESTUN

Dyma ein trydedd flwyddyn fel Awdurdod Iechyd Arbennig. Rydym wedi pennu gweledigaeth a rhaglen waith uchelgeisiol i ni'n hunain ac mae Cenhadaeth 5 yn disgrifio'r galluogwyr sy'n sail i bopeth a wnawn.

## GALLUOGYDD 5.1 Pobl a Diwylliant

Ein gweledigaeth yw bod yn lle gwych i weithio lle mae ein pobl yn ymgysylltu'n llawn, yn perfformio'n dda ac yn ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiad. Ar gyfer cyfnod y cynllun hwn, byddwn yn rhoi ein strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ar waith ac yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, olyniaeth, llwybrau recriwtio, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chynllunio'r gweithlu yn ddigidol ar y cyd â phartneriaid yn GIG Cymru. Byddwn yn dangos ein hymrwymiad i'r Cynllun Iaith Gymraeg ac yn annog staff i ddysgu'r iaith. Byddwn yn datblygu model gweithredu targed sy'n canolbwyntio ar gynnyrch a sgiliau cysylltiedig.

## GALLUOGYDD 5.2 Cyllid

Ein prif amcan ariannol yw cynaliadwyedd ariannol. Rydym hefyd am awtomeiddio prosesau mwy, edrych ar yr hyn y mae'n ei olygu ar gyfer cyllid mewn amgylchedd Cwmwl, meincnodi, sganio'r gorwel ac arwain ar ganllawiau cyfrifyddu cwmwl, rheoli buddion a dadansoddeg ariannol.

## GALLUOGYDD 5.3 Cynaliadwyedd

Mae ein galluogwyr cynaliadwyedd yn cynnwys cyhoeddi ein datganiad ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan adeiladu ar ein strategaeth datgarboneiddio, bioamrywiaeth ac uchelgeisiau'r economi sylfaenol.

## Y lle gorau i weithio ym maes TG 2022

Gwobrau TG y DU

Cymdeithas Cyfrifiadura Prydain

## GALLUOGYDD 5.4 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae ein rhanddeiliaid a'n partneriaid yn allweddol i gyflawni ein Gweledigaeth a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'n grwpiau cleifion, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd a phartneriaid cyflawni eraill. Bydd sefydlu rhwydwaith Newid Busnes yn arwain at gynnydd mewn cydweithio i gyflymu'r broses o fabwysiadu datrysiadau digidol yn effeithiol.

## GALLUOGYDD 5.5 Ansawdd a Diogelwch


Mae ansawdd a diogelwch wrth wraidd popeth a wnawn. Daw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 i rym yn 2023 ac mae'n cryfhau llais dinasyddion, yn cyflwyno dyletswydd gonestrwydd ac yn cryfhau'r ddyletswydd ansawdd bresennol ar gyrff y GIG. Byddwn yn mynd i'r afael â'r gofynion, yn llunio adroddiad blynyddol ac yn datblygu hyfforddiant a phrosesau i gefnogi'r Ddyletswydd Ansawdd. Mae ffocws deddfwriaethol arall ar reoliadau newydd yn ymwneud â dyfeisiau meddygol.

## GALLUOGYDD 5.6 Llywodraethu, Perfformiad a Sicrwydd

Mae'r galluogydd hwn yn cynnwys y sicrwydd a roddwn i'n Bwrdd trwy reoli risg, parhad busnes, rheoli gwasanaethau, a fframweithiau perfformiad a chynllunio. Rydym hefyd yn gartref i'r uned seibergadernid.

# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae'r galluogwyr yng Nghenhadaeth 5 yn adlewyrchu aliniad cryf ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er nad oedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn disgyn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2022/23, fe wnaethom barhau i ddilyn ein hegwyddorion sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf a byddwn yn ddarostyngedig i'r Ddeddf yn ffurfiol ar 01 Ebrill 2023. Mae ein galluogwyr wedi'u mapio i'r Ddeddf isod.




Mae Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi sefydlu strategaeth gynaliadwyedd yn seiliedig ar ofynion System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001 a chynllun cyflawni strategol ar gyfer datgarboneiddio. Mae ein prosesau caffael yn cyd-fynd ag egwyddorion yr economi sylfaenol.

Mae Cymru lewyrchus yn defnyddio adnoddau'n effeithlon mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth. Ategir hyn gan ein ffocws ar gynaliadwyedd ariannol, effeithlonrwydd, rheoli buddion a'n strategaeth datgarboneiddio.

Mae Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yn egwyddor a fabwysiadwyd wrth ddatblygu ein cynllun cydraddoldeb strategol a'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog, gan gynnwys hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg.

Mae Cymru gydnerth yn cynnal ecosystemau sy'n gweithredu'n iach sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid. Mae ein rhaglen Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd yn helpu dinasyddion i gael deialog gydgynhyrchiol well â'u darparwr gofal iechyd. (Gweler portffolio 3.2). Caiff ein cydnerthedd sefydliadol ei brofi trwy fentrau ansawdd amrywiol fel achrediad ISO.

Mae Cymru o gymunedau cydlynus yn annog cymunedau deniadol, diogel, hyfyw sydd â chysylltiadau da. Bydd ein strategaeth rhanddeiliaid a phenodi arweinydd ymgysylltu yn rhoi ffocws i ddatblygu ac atgyfnerthu ein perthnasoedd strategol â chleifion, defnyddwyr a chymunedau rhanddeiliaid ehangach mewn arddull gynhwysol a chydweithredol.

Mae Cymru iachach eisiau i bawb gael bywydau hir, iach a hapus â'r gallu i fanteisio ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cywir. Mae ein 14 portffolio cyflawni yn dangos sut y gall ein gwasanaethau gyfrannu at hyn trwy ddarparu'r data cywir ar yr amser cywir i glinigwyr, ni waeth ble mae'r claf yn cyflwyno. Byddwn hefyd yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltiad) (Cymru) 2020 newydd, yn ymdrechu am ragoriaeth drwy gydymffurfio â safonau ISO ac yn paratoi ar gyfer deddfwriaeth newydd y Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol.

Mae Cymru fwy cyfartal â dyletswydd economaidd-gymdeithasol yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wrth wraidd penderfyniadau ac yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Rydym yn blaenoriaethu talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth, gan alinio â fframweithiau sgiliau mwy safonol fel fframwaith y Proffesiwn Digidol, Data a Thechnoleg (DAT), a datblygu ein cynllun cydraddoldeb strategol.

Mae ein camau gweithredu i gyflawni pob un o egwyddorion hyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu harolygu drwy drefniadau llywodraethu, cynllunio, perfformiad, sicrwydd a rheoli risg yn ein rôl fel Awdurdod Iechyd Arbennig, gan weithio gyda'n Bwrdd.

# POBL

## ein gweledigaeth

**Lle gwych i weithio** lle mae ein pobl yn ymgysylltu'n llawn, yn perfformio'n dda ac yn ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiad. Byddwn yn cyflawni hyn drwy uno'r **schwe thema** hyn i lunio ein gweithlu.




### Sbotolau ar 2023-26

- **Adnoddau** – bod yn gyflogwr o ddewis trwy ddenu'r bobl orau sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt a gwneud y mwyaf o fanteision amrywiaeth. Defnyddio dulliau cynefino arloesol wrth wneud y mwyaf o fanteision hyblyg a chystadleuol.
- **Arweinyddiaeth** – talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth i sicrhau talent hanfodol mewn diwylliant tosturiol o amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant i ddiogelu ein gweithlu at y dyfodol. Adnabod, datblygu a thyfu'r genhedlaeth nesaf o dalent.
- **Gwerthoedd ac Ymddygiadau** – wedi'u gwreiddio ym mhopeth a wnawn i gefnogi esblygiad diwylliant Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- **Gwneud y gorau o ffyrdd newydd o weithio** – cyfleoedd i gefnogi recriwtio, cadw, cadernid a lles ein pobl.
- **Tyfu ein pobl ein hunain** – creu piblinell a llwybrau gyrfa parhaus i bobl fodloni'r galw cynyddol mewn rolau allweddol trwy gynllunio gweithlu integredig, gweithio mewn partneriaeth a chydweithio.
- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** – cymeradwyo a rhoi cynllun gweithredu ar waith i alluogi ein holl bobl i ffynnu a gweithio a pharhau i deimlo eu bod wedi'u grymuso i fod y gorau y gallant fod.
- Sefydlu Grŵp Proffesiynau Digidol i gyflwyno cynllun gweithredu i ymgorffori argymhellion **Adolygiad o'r Gweithlu Proffesiynau Digidol Llywodraeth Cymru.**

## Y GYMRAEG

Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn disgrifio'i huchelgais i gyrraedd targed o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

Mae gennym ni fel sefydliad gyfrifoldeb i greu'r amgylchedd cywir i ddysgwyr newydd gaffael a defnyddio'r iaith. Mae'n bwysig rhoi cyfle i siaradwyr rhugl gynnal sgyrsiau, neu o leiaf rhan o'u bywyd gwaith, o ddydd i ddydd yn y Gymraeg. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, a hynny ar sail cydraddoldeb.

Dyma enghreifftiau o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ledled y sefydliad i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn weithredol:

- Mae ystyried y Gymraeg yn rhan o'r broses ddylunio a datblygu yn enwedig mewn cymwysiadau ar gyfer cleifion a'r cyhoedd (Ap GIG Cymru).
- Byddwn yn parhau i fireinio galluoedd iaith Gymraeg ein systemau cenedlaethol i gefnogi gofynion Sefydliadau GIG Cymru.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a bydd gennym wasanaeth cyfieithu ar y pryd i'w gynnig yn ein cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus.
- Rydym yn ymgysylltu'n barhaus â Chomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.
- Byddwn yn parhau i annog pobl i ddysgu Cymraeg drwy gynnig gwersi Cymraeg i bobl o bob lefel gan gefnogi presenoldeb ar gyrsiau preswyl dwys er mwyn magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Byddwn yn cymryd rhan weithredol yn y Grŵp Rheolwyr Cymraeg (MWG) sydd newydd ei ffurfio i sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws GIG Cymru.

### Sbotolau ar 2023-26

- Canolbwyntio ar sicrhau bod staff yn cyrraedd lefel cwrteisi yn y Gymraeg fel yr amlinellir yng Nghynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027
- Rhoi strategaeth Sgiliau Dwyieithog newydd ar waith, gan sicrhau bod swyddi'n cael eu hysbysebu'n ddwyieithog a bod gofynion sgiliau iaith yn cael eu hasesu'n briodol
- Asesu ac ymateb i ofynion penodol y Gymraeg mewn perthynas â systemau digidol a argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn ei Chynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027

### Sbotolau ar 2023-26

- Canolbwyntio ar sicrhau bod staff yn cyrraedd lefel cwrteisi yn y Gymraeg fel yr amlinellir yng Nghynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027
- Rhoi strategaeth Sgiliau Dwyieithog newydd ar waith, gan sicrhau bod swyddi'n cael eu hysbysebu'n ddwyieithog a bod gofynion sgiliau iaith yn cael eu hasesu'n briodol
- Asesu ac ymateb i ofynion penodol y Gymraeg mewn perthynas â systemau digidol a argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn ei Chynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027

## Y GYMRAEG

Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn disgrifio'i huchelgais i gyrraedd targed o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

Mae gennym ni fel sefydliad gyfrifoldeb i greu'r amgylchedd cywir i ddysgwyr newydd gaffael a defnyddio'r iaith. Mae'n bwysig rhoi cyfle i siaradwyr rhugl gynnal sgyrsiau, neu o leiaf rhan o'u bywyd gwaith, o ddydd i ddydd yn y Gymraeg. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, a hynny ar sail cydraddoldeb.

Dyma enghreifftiau o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ledled y sefydliad i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn weithredol:

- Mae ystyried y Gymraeg yn rhan o'r broses ddylunio a datblygu yn enwedig mewn cymwysiadau ar gyfer cleifion a'r cyhoedd (Ap GIG Cymru).
- Byddwn yn parhau i fireinio galluoedd iaith Gymraeg ein systemau cenedlaethol i gefnogi gofynion Sefydliadau GIG Cymru.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a bydd gennym wasanaeth cyfieithu ar y pryd i'w gynnig yn ein cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus.
- Rydym yn ymgysylltu'n barhaus â Chomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.
- Byddwn yn parhau i annog pobl i ddysgu Cymraeg drwy gynnig gwersi Cymraeg i bobl o bob lefel gan gefnogi presenoldeb ar gyrsiau preswyl dwys er mwyn magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Byddwn yn cymryd rhan weithredol yn y Grŵp Rheolwyr Cymraeg (MWG) sydd newydd ei ffurfio i sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws GIG Cymru.

## Y STRATEGAETH ARIANNOL

Mae Strategaeth Ariannol y sefydliad yn cefnogi ac yn sail i'r strategaeth gwasanaeth a buddsoddi a nodir yn y cynllun. Mae'n trosi'r amcanion, gweithgarwch a'r gofynion o ran adnoddau canlyniadol i ffurfio cynllun ariannol cwbl integredig ynghyd â chamau lliniarol i sicrhau y gellir cyflawni sefyllfa gytbwys.

**Mae'r her ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn un sylweddol a bydd angen ei lliniaru er mwyn sicrhau sefyllfa gytbwys dros y cyfnod cynllunio.**

Ar gyfer 2023/2024, rhagwelir y bydd cyllid o £162.408m yn sail i'r gofyniad adnoddau, gyda buddsoddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £13.3m y bwriedir eu gwneud yn ystod y flwyddyn.

Yr amcan ariannol allweddol yw darparu gwasanaethau o ansawdd a gwerth am arian wrth sicrhau llinell sylfaen ariannol gynaliadwy i'r sefydliad. Cydnabyddir nad yw hon yn dasg hawdd oherwydd effaith twf cynyddol gwasanaethau; mae nodi cyfleoedd i wneud arbedion/creu incwm yn dod yn bwysicach.

| Spend Area | Revenue | | | | Capital | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m |
| Core SHA Operations | 106.071 | 118.952 | 124.274 | 128.160 | 2.012 | 2.614 | 2.614 | 2.614 |
| Digital Priority Investments | 33.300 | 35.456 | 24.157 | 2.531 | 6.231 | 10.720 | 2.248 | 0.000 |
| COVID-19 Digital Services | 9.128 | 8.000 | 8.060 | 8.221 | 0.370 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Total** | **148.499** | **162.408** | **156.491** | **138.912** | **8.613** | **13.334** | **4.862** | **2.614** |

## TYBIAETHAU CYNLLUNIO ALLWEDDOL

Mae cynllun ariannol y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i seilio ar ganllawiau a thybiaethau Cymru gyfan, wrth barhau'n ystwyth o ran datblygiadau COVID-19.

Er bod **y cynllun cyfredol yn cyflwyno sefyllfa anghytbwys**, bydd ffocws parhaus i nodi camau lliniaru i fodloni heriau cynyddol o ganlyniad i bwysau ym mhob portffolio gwasanaeth.

## CEFNOGI GWERTH

Bydd y tîm cyllid, mewn partneriaeth ag arweinwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ledled Cymru, yn ceisio cychwyn adolygiad o lifoedd cyllid sefydliadol i sicrhau bod y mecanwaith mwyaf effeithiol ar waith i gefnogi cynllunio effeithlon a darparu'r canlyniadau gorau.

## MENTRAU ADNODDAU A BUDDSODDI SYDD WEDI'U HAMLINELLU YN Y CYNLLUN:

### Mabwysiadu Cwmwl

Mae'r cynllun ariannol yn adlewyrchu map trywydd y sefydliad ar gyfer mabwysiadu cwmwl a'r dull cwmwl cyntaf o gynnal gwasanaethau cynnal data ar gyfer cymwysiadau a gwasanaethau newydd. Un o effeithiau allweddol y newid hwn mewn technoleg ategol yw newidiadau mewn eitemau gwariant o Gyfalaf (CAPEX) i fodel Gweithredu (OPEX).

### Strwythur sefydliadol sy'n 'Canolbwyntio ar Gynnyrch'

Mae symud i dimau amlddisgyblaethol pwrpasol sy'n canolbwyntio ar adnoddau sydd wedi'u neilltuo i gynnyrch neu wasanaeth penodol yn cael ei gefnogi yn y cynllun ariannol. Bwriedir i'r newid hwn arwain at effeithlonrwydd trwy wella cynhyrchiant y gweithlu a hwyluso cyflymder datblygu a pherfformiad gwell.

### Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol

Dros y cyfnod cynllunio a gadarnhawyd, mae buddsoddiadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau digidol strategol (fel Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol, yr Adnodd Data Cenedlaethol, Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd a'r Cynllun Buddsoddi mewn Seiberddiogelwch ac ati) wedi'u cynnwys.

**COVID-19** Mae darpariaeth gwasanaeth barhaus i gefnogi atebion digidol ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) a brechlynnau wedi'u cynnwys yn y cynllun ar gyfer y cyfnod cynllunio llawn.

## RISGIAU A CHYFLEOEDD

Bydd y sefydliad yn parhau i fonitro unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'i gynllun ariannol yn ofalus er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei gyflawni o fewn adnoddau ariannol a chyflawni sefyllfa o adennill costau. Ar hyn o bryd mae angen camau lliniaru ychwanegol i gefnogi'r gofyniad hwn.


Caiff risg ariannol ei rheoli fel rhan annatod o'r strategaeth rheolirisg gyffredinol. Mae'r risgiau a nodwyd fel rhan o'r broses gynllunio yn ymwneud â themâu fel cyllid tybiedig, costau ynni uwch a chwyddiant costau digidol. Er y bydd recriwtio i swyddi gweigion o fewn y sefydliad yn symud ymlaen yn gyflym, mae potensial ar gyfer llithriad mewn gwariant yn erbyn y cyllidebau a bennwyd – nid yw hyn wedi'i adlewyrchu mewn cyllidebau.

# CENHADAETH 5: FFOCWS AR … GYLLID

## TROSOLWG REFENIW

Mae'n ofynnol i'r sefydliad adennill costau ar ei ddyraniad refeniw. Er mwyn cyflawni hyn, lluniwyd cynllun lliniaru heriol. Yn allweddol i hyn y mae adeiladu a gweithredu mecanwaith llif cyllid effeithiol i gefnogi natur newidiol datblygu a darparu gwasanaethau digidol. Ar hyn o bryd, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn amcangyfrif gofyniad pellach am £1.9m o gamau lliniaru i fynd i'r afael â phwysau a nodwyd ar gyfer 2023/24.

Yr amcan ariannol allweddol yw darparu gwasanaethau o ansawdd a gwerth am arian wrth sicrhau llinell sylfaen ariannol gynaliadwy i'r sefydliad. Cydnabyddir nad yw hon yn dasg hawdd oherwydd effaith twf cynyddol gwasanaethau; mae nodi cyfleoedd i wneud arbedion/creu incwm yn dod yn bwysicach.




## CYNLLUN ARIANNOL

Mae'r sefydliad wedi nodi pwysau chwyddiant a thwf cenedlaethol/lleol newydd a aseswyd fel £16.3m, £8.7m a £4.2m yn y drefn honno. Mae'r costau hyn a aseswyd yn rhoi pwysau sylweddol ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae pwysau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys chwyddiant cyflogau ac nad yw'n gysylltiedig â chyflogau, tra mae eitemau eithriadol yn adlewyrchu cynnydd sylweddol diweddar mewn prisiau ynni.

Mae costau ychwanegol wedi'u hymgorffori yn y pwysau a ragwelir o ganlyniad i'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau newydd o ganlyniad i fuddsoddiad digidol wedi'i gwblhau, chwyddiant cyffredinol yn ogystal â phwysau costau digidol sy'n benodol i'r sector. Y ffocws dros gyfnod y Cynllun Tymor Canolig Integredig fydd rhoi model ariannu diwygiedig ar waith sy'n cefnogi modelau darparu gwasanaeth a thwf presennol ac yn y dyfodol.

I wrthbwyso'r cynnydd hwn, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi nodi arbedion ac arbedion effeithlonrwydd i'w cyflawni trwy raglenni gwella costau rheolaidd, gan gynnwys gostwng gwariant sy'n gysylltiedig â theithio ac ystadau a fydd yn cyfrannu at leihau ei ôl troed carbon. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd wedi cynyddu'r gofyniad cyllid gan sefydliadau GIG Cymru i gefnogi twf yn y gwasanaethau maent yn eu defnyddio.

# FFYNHONNELL REFENIW A CHYMHWYSO CYLLID

## Ffynhonnell cronfeydd refeniw

Daw'r rhan fwyaf o incwm refeniw rheolaidd y sefydliad sy'n cefnogi gwasanaethau craidd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (tua 75% o'r cynllun ariannol presennol ar gyfer 2023/2024), gan gynnwys dyraniad ar gyfer taliadau cyfalaf (dibrisiant). Mae'r holl incwm arall a ragwelir yn ymwneud â thaliad ar gyfer ystod o wasanaethau a ddarperir i GIG Cymru a Gogledd Iwerddon. Yn nodweddiadol, mae gan ffrydiau incwm fwy o berthynas 'fasnachu' (trwy gytundebau lefel gwasanaeth) ac, o'r herwydd, gallant fod yn fwy cyfnewidiol eu natur oherwydd newidiadau mewn lefelau gwasanaeth/terfyniadau. Dylid nodi bod swm sylweddol o gyllid sefydliadol yn gysylltiedig â gwariant wedi'i glustnodi, fel darparu contractau Cymru Gyfan (e.e. trwyddedau digidol Cymru gyfan, cynlluniau/mentrau penodol fel mentrau digidol â blaenoriaeth (DPIF) neu wasanaethau fel cefnogaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg gofal sylfaenol). Mae dyraniadau achlysurol Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf o ganlyniad i'r ymateb digidol i'r pandemig a chymorth ychwanegol ar gyfer buddsoddi blaenoriaethau digidol.

| Ffynhonnell Cyllid | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m |
|---|---|---|---|---|
| Rheolaidd | | | | |
| Llywodraeth Cymru - Craidd | 47.095 | 50.805 | 51.186 | 52.210 |
| Llywodraeth Cymru - Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Gofal Sylfaenol | 15.817 | 16.967 | 17.094 | 17.436 |
| Llywodraeth Cymru - Dibrisiant | 10.122 | 9.484 | 9.484 | 9.484 |
| GIG Cymru - Cytundeb Lefel Gwasanaeth | 9.380 | 15.686 | 17.684 | 18.335 |
| Trwyddedu Digidol Cymru Gyfan | 23.657 | 26.010 | 28.826 | 30.695 |
| **Cyfanswm** | **106.071** | **118.952** | **124.274** | **128.160** |
| Ymateb i COVID-19 | | | | |
| Profi, Olrhain a Diogelu | 3.603 | 1.500 | 1.511 | 1.541 |
| Brechu | 5.525 | 6.500 | 6.549 | 6.680 |
| **Cyfanswm** | **9.128** | **8.000** | **8.060** | **8.221** |
| Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol | | | | |
| Dyraniad | 33.300 | 35.456 | 24.157 | 2.531 |
| **Cyfanswm** | **33.300** | **35.456** | **24.157** | **2.531** |
| **Cyfanswm Terfynol y Cyllid** | **148.499** | **162.408** | **156.491** | **138.912** |

## Cymhwyso cyllid refeniw

Mae'r defnydd rhagamcanol o gyllid i gefnogi targedau cyflawnadwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'u nodi isod.

| Cymhwyso Cyllid | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m |
|---|---|---|---|---|
| Craidd | | | | |
| Awdurdod Iechyd Arbennig a Gwasanaethau Gweithredol Craidd | 56.475 | 66.491 | 68.870 | 70.545 |
| Trwyddedu Digidol Cymru Gyfan | 23.657 | 26.010 | 28.826 | 30.695 |
| Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Gofal Sylfaenol | 15.817 | 16.967 | 17.094 | 17.436 |
| Taliadau Dibrisiant | 10.122 | 9.484 | 9.484 | 9.484 |
| Cyfanswm y Dyraniad Craidd | **106.071** | **118.952** | **124.274** | **128.160** |
| COVID-19 | | | | |
| Profi, Olrhain a Diogelu | 3.603 | 1.500 | 1.511 | 1.541 |
| Brechu Torfol | 5.525 | 6.500 | 6.549 | 6.680 |
| **Cyfanswm Dyraniad COVID** | **9.128** | **8.000** | **8.060** | **8.221** |
| Blaenoriaethau Digidol | | | | |
| Cynlluniau Buddsoddi | 33.300 | 35.456 | 24.157 | 2.531 |
| **Cyfanswm Cyllid Blaenoriaethau Digidol** | **33.300** | **35.456** | **24.157** | **2.531** |
| **Cyfanswm y Dyraniad Cyllid** | **148.499** | **162.408** | **156.491** | **138.912** |
| **Pwysau Costau heb eu Lliniaru** | **0** | **1.852** | **2.981** | **2.015** |

**Nodiadau:**

- Sefyllfa adennill costau rhagamcanol 22/23.
- Nid yw ffigur trwyddedu Digidol Cymru Gyfan yn cynnwys gofal sylfaenol.
- Bydd dyraniadau'r dyfodol yn cael eu hasesu'n flynyddol yn unol â gofynion y cynllun.
- Mae pwysau costau heb eu lliniaru yn adlewyrchu asesiad o'r sefyllfa gorwariant ar ôl dyrannu'r cyllid cyfredol.


## BUDDSODDIAD CYFALAF CYNLLUNIEDIG


Caiff cynllun y sefydliad ei ategu gan fuddsoddiad i gefnogi rheolaeth cylch bywyd seilwaith, buddsoddiadau mewn datrysiadau digidol ac adnewyddiad cyffredinol o asedau er mwyn cyflawni nodau'r sefydliad a chynnal safonau gwasanaeth a chadernid.

Daw cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn unig a chaiff ei grwpio yn ôl:

- Cyllid Cyfalaf Dewisol: Ar gael i'r sefydliad ei ddyrannu i gefnogi cynlluniau sydd wedi'u blaenoriaethu'n fewnol
- Y Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF) (cyllid un pwrpas yn amodol ar gadarnhad)
- Nid oes unrhyw gyllid cyfalaf wedi'i ddyrannu i gefnogi systemau digidol COVID.

Mae'r cynllun cyfalaf yn rhagdybio cyllid o £13.3m yn 2023/24, £4.9m yn 2024/25 a £2.6m yn 2025/26 i gefnogi targedau cyflawnadwy allweddol y cynllun. Mae'r cynllun yn cefnogi caffael caledwedd a meddalwedd a, lle y bo'n berthnasol, cost asedau a ddatblygwyd yn fewnol.




Trwy gydol y flwyddyn gellir dyrannu taliadau cyfalaf i sefydliadau'r GIG yn unol ag amodau prosiectau'r gronfa blaenoriaethau digidol (DPIF).

Mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar y sefydliad er mwyn adnewyddu gwasanaethau a rhwydweithiau canolfan ddata sylfaenol. Ar hyn o bryd, mae cyfran fawr o gyllid cyfalaf dewisol wedi'i chlustnodi i gefnogi rhai o'r gofynion uniongyrchol.

Fel rhan o'r cynllun a'r map trywydd i fabwysiadu cwmwl, bydd gofynion ychwanegol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy achosion busnes.

## FFRAMWAITH RHEOLI BUDDION

Yng Nghymru, mae ymrwymiad clir i ofal iechyd sy’n seiliedig ar werthoedd. Mae gwireddu buddion yn rhan annatod o gyflawni’r strategaeth honno – gan wneud y mwyaf o’r canlyniadau sy’n bwysig i bobl, yn ogystal â defnyddio adnoddau’n fwyaf effeithiol.

Mae angen fframwaith clir ar gyfer dull gwireddu buddion, yn ogystal â chael ei ymgorffori’n ddiwylliannol ar draws pob rhan o system iechyd. [1] Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi datblygu fframwaith gwireddu buddion yn 2022/23 mewn ymgynghoriad â sefydliadau partner a Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei ddefnyddio fel canllaw cenedlaethol ochr yn ochr â fframweithiau lleol lle maent yn bodoli.

Mae’r cynlluniau buddion ar gyfer cynlluniau digidol sy’n dilyn y fframwaith cenedlaethol yn cael eu llunio, fel Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365 a chynlluniau eraill sydd wedi’u halinio, fel y rhaglen Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol a’r Adnodd Data Cenedlaethol. Mae buddion hefyd yn nodwedd allweddol o’n Portffolio Ymchwil ac Arloesi, a Gwerth o Ddata.

Yn 23/24, bydd ffocws ar ddatblygiadau pellach a fydd yn arwain at reoli buddion yn gyson ledled y wlad, gan gynnwys nodi, mesur ac olrhain buddion. Y cynllun cyffredinol yw:

- Rhoi’r fframwaith gwireddu buddion ar waith a chreu model buddion lleol ar gyfer pob cynllun digidol sy’n cael ei arwain gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Integreiddio modelau buddion sefydliadau lleol i ddarparu prif gofrestr o fuddion cytûn, metrigau i fesur cyflawniad llwyddiannus, perchnogaeth ac atebolrwydd.
- Creu swyddfa buddion digidol cenedlaethol i gofnodi a storio’r holl gynlluniau buddion, sicrhau parhad o ran olrhain, adrodd ar ganlyniadau cenedlaethol a darparu cyngor ac adnoddau buddion i bob sefydliad.

[1] Papur briffio HFMA ar Wireddu Buddion Mehefin 2021

### Sbotolau ar 2023-26

Dull cyson a phriodol o reoli buddion ar draws GIG Cymru gydag adroddiadau cenedlaethol



## CYNALIADWYEDD

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi sefydlu Strategaeth Gynaliadwyedd yn seiliedig ar gyfuno prosesau cyfredol â gofynion System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015, fel offeryn strwythuredig a systematig, i gyflawni ein mandad i ddiogelu'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol. Y Strategaeth Gynaliadwyedd yw'r egwyddor arweiniol sy'n nodi sut rydym yn sefydlu, gweithredu a chynnal ein perfformiad a'i wella'n barhaus o ran rheoli agweddau amgylcheddol a rhwymedigaethau cydymffurfedd, er mwyn rheoli'r risg o fygythiadau a chyfleoedd, a bodloni anghenion a disgwyliadau partïon â buddiant.

Ar ddiwedd 2021, fe wnaethom ddatblygu Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datgarboneiddio ein hystad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud. Mae'r cynllun cyflawni hwn yn edrych o'r newydd ar ein hanghenion o ran adeiladau ac ynni, yn ogystal â chaffael, teithio, a ffynonellau allyriadau eraill. Mae rhai o'r allyriadau hyn y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol; gan amlygu'r her sy'n ein hwynebu wrth weithio ar y cyd i ddylanwadu ar benderfyniadau pobl eraill. Rydym yn bwriadu adnewyddu ein Cynllun Cyflawni yn 2025.

Ein dull o gefnogi'r Economi Sylfaenol yn y presennol a'r dyfodol yw drwy ein perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol, ein gwariant â chyflenwyr masnachol, ein gweithgarwch recriwtio a chyflogi, a'n gwaith â phartneriaid ymchwil ac arloesi. Er mwyn sicrhau bod gennym ddull cydgysylltiedig, hirdymor, cynaliadwy, mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu gan Grŵp Economi Sylfaenol.

### Sbotolau ar 2023-26

- Cyflawni nodau datgarboneiddio ac adnewyddu ein Cynllun yn 2025
- Cyhoeddi datganiad ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gofynion bioamrywiaeth
- Bydd ystyriaethau caffael yn ymwneud ag agendâu'r economi sylfaenol, datgarboneiddio a chynaliadwyedd yn cael eu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - datblygu Strategaeth a Pholisi ar gyfer y sefydliad, ynghyd â phecyn cymorth ar gyfer y sefydliad wrth gyflawni ei weithgareddau caffael a rheoli contractau.
  - Mesur Buddion

## YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Mae pobl wrth wraidd trawsnewid. Trwy weithio â'n partneriaid cenedlaethol a lleol o'r cychwyn cyntaf, gallwn ddeall i ba gyfeiriad y mae gofal iechyd yn mynd yn y dyfodol a helpu i alluogi trawsnewid trwy ddatrysiadau data a thechnoleg.

Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru lawer o randdeiliaid – gan ddechrau gyda buddiolwyr eithaf ein gwaith – y claf a'r cyhoedd. Rydym yn cydweithio â'n defnyddwyr – clinigwyr, staff gweinyddol a staff rheoli, a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau ein bod yn darparu'r datrysiadau digidol sydd eu hangen arnynt. Rydym yn gwirio ein blaenoriaethau yn erbyn polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn gweithio â'n cydweithwyr digidol mewn byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, Awdurdodau Iechyd Arbennig, Awdurdodau Lleol, partneriaid a chyflenwyr eraill i foderneiddio ein seilwaith a'n cynigion digidol ar y cyd, cynllunio ar y cyd a chynyddu lefel ein haeddfedrwydd digidol. Rydym yn gweithio â'r byd academaidd i lunio partneriaethau arloesol o ran technoleg ac adeiladu gweithlu digidol y dyfodol.

Mae ein strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cefnogi ac yn galluogi ymgysylltu effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid, gan wella ein dealltwriaeth ac mae'n hanfodol i sicrhau bod gan GIG Cymru y datrysiadau iechyd digidol sydd eu hangen arno.

### Sbotolau ar 2023-26

- Mireinio a chyhoeddi Strategaeth Ymgysylltu Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Nodi a datblygu cyfres graidd o bartneriaethau strategol, gan gytuno ar gynlluniau a rhaglenni gwaith ar y cyd
- Cyflawni achrediad y Siarter Cynhwysiant Digidol a chyflwyno cynllun gweithredu i ymgorffori'r chwe addewid
- Sefydlurhwydwaithproffesiynol Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu a datblygu pecyn cymorth ymgysylltu
- Sefydlu rhwydwaith cyflawni newid busnes



ALINIAD Â PHARTNERIAID (1)

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

# Aliniad â Phartneriaid

**Allwedd:** Argaeledd Arfaethedig | Yn barod | Ar waith | Cysylltiad arall

| | Addysg a Gwella Iechyd Cymru | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru | Anuerin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf Morgannwg | Hywel Dda | Powys | Bae Abertawe | Felindre | Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Galluogwyr** | | | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Platfform Data a Chyfeirio** | | | | | | | | | | | | | |
| Adnodd Data Cenedlaethol | Yn barod | Argaeledd Arfaethedig | Cysylltiad arall | Yn barod | Yn barod | Yn barod | Yn barod | Yn barod | Yn barod | Yn barod | Yn barod | Yn barod | Yn barod |
| **Pensaernïaeth Agored a Rhyngweithredu** | | | | | | | | | | | | | |
| Ymateb yr Adolygiad Pensaernïaeth Ddigidol gan gynnwys APIs, y Peiriant Data Clinigol (CDE) a Strategaethau Cynnyrch a Phlatfformau | | | | | | | | | | | | | |
| **Diogelu Data Cleifion** | | | | | | | | | | | | | |
| Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith |
| Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol | | Ar waith | | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith |
| **Seilwaith Cynaliadwy a Diogel** | | | | | | | | | | | | | |
| Seilwaith Craidd e.e. Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith |
| Rheoli Gwybodaeth a Digwyddiadau Diogelwch (SIEM) | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith |
| Gwasanaeth Monitro Agored i Niwed (VMS) | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith |
| **Cynhyrchion** | | | | | | | | | | | | | |
| **Iechyd y Cyhoedd** | | | | | | | | | | | | | |
| Profi, Olrhain a Diogelu | Cysylltiad arall | Cysylltiad arall | | Cysylltiad arall | Cysylltiad arall | Cysylltiad arall | Cysylltiad arall | Cysylltiad arall | Cysylltiad arall | Cysylltiad arall | | Cysylltiad arall | Cysylltiad arall |
| Gwasanaethau Sgrinio | | | | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | | | Ar waith |
| **Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl** | | | | | | | | | | | | | |
| Dewis Fferyllfa | Cysylltiad arall | Cysylltiad arall | | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | | | |
| Iechyd Plant (CYPRiS) | | | | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | | | Ar waith |
| e-Atgyfeiriadau Deintyddol | | | | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | | | |
| Ceisiadau am Brofion gan Feddygon Teulu | | | | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | | | |
| Systemau Meddygon Teulu | | Cysylltiad arall | | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | | | |
| Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru | | | | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | | |
| System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru | Cysylltiad arall | | | Ar waith | Ar waith | Argaeledd Arfaethedig | Enghraifft ALI | Ar waith | Ar waith | Yn barod | | | |
| **Gofal wedi'i Gynllunio** | | | | | | | | | | | | | |
| Mamolaeth Ddigidol Cymru | | | Cysylltiad arall | | | | | | | | | | |
| Digido Gofal Llygaid – Nid yw'n brosiect DHCW Rôl | | | | | | Cysylltiad arall | | | | | | | |
| Trawsffiniol Powys/Lloegr | | | | | | | | | Yn barod | | | | |
| System Gweinyddu Cleifion Cymru | | Ar waith | | Ar waith | Ar waith | | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | | |
| Gwasanaeth Atgyfeirio Cleifion Cymru | | | | Datrysiad lleol | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Ar waith | Yn barod | | |

ALINIAD Â PHARTNERIAID (2)

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Aliniad â Phartneriaid

| Galluogwyr | Addysg a Gwella Iechyd Cymru | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru | Anuerin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf Morgannwg | Hywel Dda | Powys | Bae Abertawe | Felindre | Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | Allwedd | Argaeledd Arfaethedig | Yn barod | Ar waith | Cysylltiad arall | |
| **Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng** | | | | | | | | | | | | | |
| 111 – Nid yw'n brosiect DHCW Integreiddio yn unig | | | | | | | | | | | | | |
| Cofnod Gofal Cleifion Electronig WAST – Integreiddio | | | | | | | | | | | | | |
| System Adrannau Achosion Brys Cymru | | | | | | | | | | | | | |
| System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru | | | | | | | | | | | | | |
| **Diagnosteg** | | | | | | | | | | | | | |
| Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC) Newydd | | | | | | | | | | | | | |
| Endosgopi (systemau byrddau iechyd sy'n defnyddio eMPI a WRRS) | | | | | | | | | | | | | |
| Caffael Datrysiad Gwybodeg Radioleg Newydd | | | | | | | | | | | | | |
| System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru (cyfredol) | | | | | | | | | | | WTAIL | | |
| System Gwybodaeth Radioleg Cymru (cyfredol) | | | | | | | | | | | | | |
| Profion Pwynt Gofal Cymru | | | | | | | | | | | | | |
| **Meddyginiaethau** | | | | | | | | | | | | | |
| E-bresgripsiynau a Rheoli Meddyginiaethau (Gofal Eilaidd) | | | | | | | | | | | | | |
| Trosglwyddo Presgripsiynau'n Electronig (Meddyg Teulu i Fferyllfeydd yn y Gymuned) | | | | | | | | | | | | | |
| Mynediad Cleifion i Feddyginiaethau | | | | | | | | | | | | | |
| Ystorfa Feddyginiaethau Genedlaethol | | | | | | | | | | | | | |
| System Rheoli Stoc Fferylliaeth Ysbytai Cymru | | | | | | | | | | | | | |
| **Ymgysylltu â Defnyddwyr: Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol** | | | | | | | | | | | | | |
| Rhaglen Gwybodeg Canser | | | | | | | | | | | | I'w gadarnhau | |
| e-Lyfrgell Iechyd GIG Cymru | | | | | | | | | | | | | |
| Office 365 | | | | | | | | | | | | | |
| Porth Clinigol Cymru | | | | | | | | | | | | | |
| Ceisiadau Prawf Electronig (Radioleg) | | | | | | | | | | | | | |
| Ceisiadau Prawf Electronig (Patholeg) | | | | | | | | | | | | | |
| Ceisiadau Prawf Electronig (mathau newydd o geisiadau) | | | | | | | | | | | | | |
| Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (Ysbyty) | | | | | | | | | | | | | |
| System Wybodaeth Cymru ar gyfer Rheoli Diabetes | | | | | | | | | | | | | |
| **Ymgysylltu â Defnyddwyr: Cleifion a'r Cyhoedd** | | | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd | | | | | | | | | | | | | |
| **Ymchwil ac Arloesi** | | | | | | | | | | | | | |
| **Gwerth o Ddata** | | | | | | | | | | | | | |
| Gweler y Storfa Ddata Genedlaethol uchod | | | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Data a Dadansoddi | | | | | | | | | | | | | |
| PROMS a PREMS / Gwerth mewn Iechyd | | | | | | | | | | | | | |

## ANSAWDD A DIOGELWCH

Mae ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn ac o'r amcanion strategol, rydym wedi nodi safonau rhyngwladol allweddol sy'n cefnogi diffiniad a chyfeiriad ansawdd.

- Rheolaethau – Trwy'r fframwaith llywodraethu a'r Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio sy'n rhan o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.
- Cynllunio – Cynllun Ansawdd a Rheoleiddio Blynyddol a mesuriadau - wedi'u hintegreiddio ar draws y cyfarwyddiaethau ac wedi'u cefnogi gan y rhaglen archwilio mewnol.
- Gwelliannau – Mae gan y sefydliad ddiwylliant cryf o ddysgu a gwella sefydliadol gyda ffocws ar fesuriadau, dadansoddi a rheolaethau.

Caiff ein Fframwaith Ansawdd mewnol ei gefnogi gan y System Reoli Integredig (IMS). Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau gweithredu safonol, templedi a chanllawiau eraill i'w gweld yn ein IMS.

Rydym yn cynnal ardystiad i'r Safonau canlynol:

- ISO 9001:2015 Systemau Rheoli Ansawdd
- ISO 14001:2015 Systemau Rheoli Amgylcheddol
- ISO 20000-1:2018 Systemau Rheoli Gwasanaeth TG
- ISO 27001:2013 Systemau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth
- BS 76000:2015 Safon Gwerthfawrogi Pobl
- BS 10008:2014 Pwysau tystiolaethol a Derbynioldeb cyfreithiol
- Y Sefydliad Desgiau Gwasanaeth

### Sbotolau ar 2023-26

- Cynnal ardystiad presennol ISO a'r Safon Brydeinig ac adolygu safonau priodol eraill
- Gwreiddio ymhellach ddiwylliant o ansawdd a gwella ansawdd yn barhaus i ddangos cydymffurfedd â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd
- Cydymffurfio â Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol y DU sydd wedi'u diweddaru


## LLYWODRAETHU, PERFFORMIAD A SICRWYDD

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio Llywodraethu Corfforaethol fel 'y ffordd y mae cyrff gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, ar gyfer y bobl gywir, mewn modd sy'n cynnal y gwerthoedd a osodwyd ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru'. Mae effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn cael effaith sylweddol ar ba mor dda y mae sefydliadau yn bodloni eu nodau a'u hamcanion.

Mae'r galluogwr hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd da ar waith i ategu popeth a wnawn. Yn ogystal â sicrhau'r fframwaith perfformiad a'r trefniadau adrodd, mae'n ysgogi gwelliant gweithredol parhaus.

### Sbotolau ar 2023-26

- Ein fframweithiau risg, perfformiad a chynllunio
- Cynnal yr Uned Seibergadernid
- Cydweithio ar aeddfedrwydd digidol
- Model rheoli gwasanaeth newydd ar gyfer gweithrediadau seiliedig ar 'gynnyrch'



# Cenhadaeth 5

BOD yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel

## Ysgogwyr

- Strategaeth Pobl a Datblygiad Sefydliadol 2022-2025 Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (GIG Cymru)
- Cynllun Iaith Gymraeg Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Strategaeth Cwmwl Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio 2021-2030 Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Cynllun Ystadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

## Canlyniadau

- Lle gwych i weithio – pobl yn ymgysylltu'n llawn, yn perfformio'n dda ac yn ymgorffori gwerthoedd ac ymddygiadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Y bobl gywir, y lle cywir, y sgiliau cywir
- Seiliau ariannol cryfach
- Sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel sefydliad dwyieithog
- Ad-drefnu Ystadau
- Pob gwasanaeth/cynnyrch newydd yn cael eu hystyried o dan yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

# Galluogwyr Cenhadaeth 5

<table>
<tr><th>CHWARTER 1</th><th>CHWARTER 2</th><th>CHWARTER 3</th><th>CHWARTER 4</th></tr>
<tr><td colspan="4">5.1 Pobl a Diwylliant (Diwylliant bywiog, mwy cyfartal)</td></tr>
<tr><td colspan="4">Datblygu rhaglen arweinyddiaeth eithriadol ac ymrwymiadau lles</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Rhoi cynlluniau talent ac olyniaeth ar waith (Tyfu ein pobl ein hunain)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Datblygu a chyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol</td><td>Datblygu strategaeth adnoddau ar gyfer proffesiynau digidol</td><td>Datblygu llwybr recriwtio â sefydliadau academaidd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cydweithio â'r proffesiwn digidol ar draws GIG Cymru i roi argymhellion yr 'Adolygiad o'r Gweithlu Digidol' ar waith i ddatblygu cynllun gweithlu uniongyrchol a hirdymor cenedlaethol sy'n cyd-fynd â strategaethau digidol a'r fframwaith Digidol, Data a Thechnoleg a mwy</td></tr>
<tr><td></td><td>Recriwtio dwyieithog (Cymraeg/Saesneg)</td><td>Asesiad sgiliau Cymraeg</td><td>50% o staff ar Lefel 1 Cymraeg (Cwrteisi)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Datblygu model gweithredu targed sy'n canolbwyntio ar gynnyrch a chynllun gweithredu lefel uchel</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynnal y rhaglen llysgenhadon newid</td></tr>
<tr><td colspan="4">5.2 Cyllid (Llewyrchus)</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gwella ac awtomeiddio prosesau ariannol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynaliadwyedd Ariannol: Sefydlu modelau ariannu newydd</td><td colspan="2">Cynaliadwyedd ariannol: rhoi cynlluniau effeithlonrwydd ar waith</td></tr>
<tr><td colspan="2">Datblygu swyddogaeth gyllid Gweithrediadau Ariannol ar gyfer y Cwmwl</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Canllawiau buddsoddi digidol, sganio'r gorwel a meincnodi</td></tr>
<tr><td>Arwain a chyhoeddi canllawiau cyfrifyddu technegol – datblygu meddalwedd fewnol</td><td>Cyhoeddi arfer gorau a chanllawiau ar gyfer Gweithrediadau Ariannol</td><td colspan="2">Arwain a chyhoeddi canllawiau cyfrifyddu technegol – cyfrifyddu cwmwl</td></tr>
<tr><td colspan="4">Rhoi fframwaith rheoli buddion ar waith</td></tr>
<tr><td colspan="4">Rhoi rhaglen ddadansoddeg ariannol genedlaethol ar waith</td></tr>
<tr><td colspan="4">5.3 Cynaliadwyedd (Cyfrifol ar lefel fyd-eang)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Trawsnewid swyddfeydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn weithle digidol modern</td><td>Cyhoeddi datganiad ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyrraedd nodau allweddol y cynllun datgarboneiddio</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyflawni gofynion yr economi sylfaenol trwy brosesau caffael a rheoli contractau a mesur buddion i economi Cymru</td></tr>
<tr><td></td><td>Egwyddorion caffael TGCh carbon isel mewn contractau newydd</td><td></td><td>Rhoi argymhellion bioamrywiaeth ar waith</td></tr>
</table>

# Cenhadaeth 5

BOD yn bartner strategol dibynadwy ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel

## Ysgogwyr

- Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ac adroddiad ansawdd blynyddol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol 2024
- Cyfarwyddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) 2018
- Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2022

## Canlyniadau

- Cynnydd yng ngwaith cydweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru â phartneriaid i gyflymu'r broses o fabwysiadu datrysiadau digidol yn effeithiol
- Trefniadau llywodraethu rhaglenni effeithiol gwell
- Cynyddu cydymffurfedd diogelwch systemau
- Diwylliant risg cryf sy'n bodloni anghenion y sefydliad

# Galluogwyr Cenhadaeth 5

| CHWARTER 1 | CHWARTER 2 | CHWARTER 3 | CHWARTER 4 |
|---|---|---|---|
| **5.4 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (Cymunedau cydlynus)** | | | |
| Mireinio a chyhoeddi ein strategaeth ymgysylltu | | Datblygu cynllun cyfathrebu i gefnogi ein gweithgareddau ymgysylltu | |
| Nodi a datblygu cyfres graidd o bartneriaethau strategol, gan gytuno ar gynlluniau a rhaglenni gwaith ar y cyd | | | |
| Cyflawni achrediad y Siarter Cynhwysiant Digidol a chyflwyno cynllun gweithredu i ymgorffori'r chwe addewid | | | |
| Sefydlu Rhwydwaith Proffesiynol Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu | | Cwmpasu a datblygu pecyn cymorth ymgysylltu | |
| Sefydlu Rhwydwaith Cyflawni Newid Busnes | | | |
| **5.5 Ansawdd a Diogelwch (Iachach)** | | | |
| Adroddiadau cychwynnol 'Ansawdd ar waith bob amser'. | | | |
| Gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 | | | Paratoi adroddiad ansawdd blynyddol (I'w gyhoeddi yn ystod Ch1 2024/25) |
| | Datblygu hyfforddiant a phrosesau i gefnogi offer gwella ansawdd ffurfiol i gefnogi gofynion y Ddyletswydd Ansawdd. | | |
| | Paratoi ar gyfer gweithredu ISO 22301 – Rheoli parhad busnes. | | |
| Cynllun parodrwydd ar gyfer gweithredu Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol (MDR) yn barod ar gyfer deddfwriaeth MDR newydd ym mis Gorffennaf 2024. | | | |
| **5.6 Llywodraethu, Perfformiad a Sicrwydd (Cydnerth, Pob Un)** | | | |
| Cefnogi asesiadau Aeddfedrwydd Digidol gyda Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd | | | |
| Cyflawni cynllun yr Uned Seibergadernid | | | |
| Trawsnewid data rheoli perfformiad menter Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ddigidol | | | |
| Gweithio gyda LlC ar ganlyniad yr adolygiad annibynnol o raglenni digidol a gynhelir gan DHCW – symleiddio trefniadau atebolrwydd | | | |
| Sefydlu swyddfa Rhaglenni Digidol Iechyd a Gofal Digidol Cymru a rhwydwaith prosiectau a rhaglenni proffesiynol | | | |
| Adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd ac adroddiadau | Datblygu proffiliau risg, archwaeth risg a dadansoddiad o dueddiadau | | |
| Rhaglen hyfforddi ac archwilio parhad busnes a digwyddiadau mawr | | | |
| Rhoi model menter rheoli gwasanaeth y dyfodol ar waith sy'n cefnogi model gweithredu sy'n seiliedig ar gynnyrch | | | |
| Datblygu rheolaeth brand Iechyd a Gofal Digidol Cymru | | | |